www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

£1
RHIF 504
Awst a Medi
2022



# 20-30 o dai newydd yn Llanrug?

Nos Fawrth 5ed Gorffennaf fe gafodd trigolion gyfle i fynychu noson agored yn Sefydliad Coffa'r Arwyr yn Llanrug i ddeall mwy am gynllun posib i adeiladu tai newydd yn y pentref. Mae yna dipyn o drafodaeth wedi bod yn lleol, yn enwedig ar y cyfryngau cymdeithasol, ynghylch y datblygiad posib hwn, ond roedd y noson agored yn cynnig 'chydig mwy o wybodaeth i ni am be' sy' ar y gweill.

Mae Cymdeithas Dai ClwydAlyn a chwmni Williams Homes (Bala) LTD wedi dod ynghŷd i lunio cynllun ar gyfer adeiladu'r cartrefi newydd ar safle sydd rhwng cefnau stad Talybont, Arvonia Terrace a Chapel y Rhos. Mae'n bwysig nodi mai cynllun a syniad yn unig ydi hwn ar hyn o bryd, ac nad ydi'r cynlluniau wedi cael eu cyflwyno i Gyngor Gwynedd fel cais cynllunio swyddogol hyd yn oed. Roedd y noson agored yn gyfle i ddangos beth **all** gael ei adeiladu, nid beth **fydd** yn cael ei adeiladu! Roedd yn gyfle i'r datblygwyr glywed barn trigolion lleol felly mae'n bosib iawn y caiff y cynlluniau eu newid neu beidio gael eu cyflwyno am gais cynllunio hyd yn oed.

Yr hyn sy'n cael ei gynnig ydi cyfanswm o rhwng 20-30 o dai, ond maent yn gyfuniad o fyngalos, tai 1, 2, a 3 llofft. Mae rhai yn dai 'cyd-berchnogaeth', sef tŷ y mae'r prynwr yn berchen ar gyfran ohono ac yn talu rhent i'r gymdeithas dai am weddill gwerth y tŷ. Mae tai eraill yn cael eu rhentu drwy'r Gymdeithas Dai (trefn debyg i'r hen dai Cyngor). Mae Cymdeithas ClwydAlyn yn dweud eu bod wedi ymchwilio i anghenion tai pobl leol a bod galw mawr am dai o'r math yma yn Llanrug. Mae'r polisi Dyrannu Tai Cyffredin wedi cael ei ddatblygu i adlewyrchu anghenion tai lleol gymaint ag sy'n bosibl ac mae'n rhoi blaenoriaeth i gysylltiad lleol. Diffinnir cysylltiad lleol fel byw yn ardal y cyngor cymuned am gyfnod o 5 mlynedd neu fwy (naill ai ar hyn o bryd, yn y gorffennol neu gyfuniad o'r ddau).

Mae Clwyd Alyn wedi bod yn adeiladu stadau tai fforddiadwy mewn lleoliadau eraill ar draws y gogledd, ac mae gwaith wedi dechrau'n ddiweddar i adeiladu stad o 23 cartref fforddiadwy ym Mhentraeth, Ynys Môn. Fel ym Mhentraeth, y bwriad yw y byddai'r tai yn Llanrug yn cael eu hadeiladu gan ddefnyddio technegau insiwleiddio a gwresogi carbon isel fyddai'n golygu y dylai'r tai fod yn rhatach i'w cynnal.

Oes angen rhagor o dai yn Llanrug? Ai dyma'r math o dai sydd eu hangen? Ydi'r lleoliad yn addas? Dyma'r math o gwestiynau sydd angen eu gofyn. Mae rhai wedi rhannu eu pryderon: does yna ddim rhagor o le yn Ysgol Llanrug; mae'r fynedfa drwy stad Talybont yn anaddas; byddai'n gwaethygu'r problemau traffig ar Ffordd yr Orsaf; mae'r tir yn gorlifo ar ôl cyfnodau o law. Ar y llaw arall, mae yna ddadleuon fel arall: mae yna brinder o dai rhent yn lleol; fedr pobl (ifanc yn enwedig) ddim fforddio prynu tŷ ar y farchnad agored; mae yna restr aros hir o bobl sydd eisiau cartref rhent cymdeithasol.

Mae yna restr hir o fanteision ac anfanteision i'r cynllun posib newydd hwn, ond mae angen i ni gael yr wybodaeth i gyd o'n blaenau cyn dod i benderfyniad a'i hwn ydi'r cynllun gorau i ateb ein problemau. Bydd yr Eco'n cadw golwg ar y datblygiadau!

## Yn y rhifyn hwn:




- **Ieuenctid yn codi arian i'r Tîm Achub Mynydd ac i Elusen Ambiwlans Awyr - tudalennau 14 ac 16**
- **Llên Natur: Eira Mehefin - tud 29**
- **Diwrnod Gwobrwyo Clwb Pêl-droed Ieuenctid Bethel - tud 32**
- **Amserlenni bysiau Sherpa'r Wyddfa: Dinorwig, Deiniolen, Llanrug, Llanberis - tud 4**
- **Ryseitiau ar gyfer llus - tud 7**






Elin Enfys

**Chwilio am Elin Enfys**

**Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.**



www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Golygydd yr Ifanc**
Marged Rhys –marged_3@hotmail.com

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunydd**
Elgan Griffiths – post@elgangriffiths.com

**GOHEBWYR PENTREFI**

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk



# Pulpud Awyr Agored – Rhan 3

Yn rhifyn diwethaf yr Eco cafwyd mwy o wybodaeth gan Neville Williams am y Pulpud Awyr Agored. Yn y rhifyn hwn rwy'n falch iawn o ddweud i Mrs Jean Thomas (sydd bellach yn byw yn Bontnewydd) oedd yn byw yn Cefn Coch, Deiniolen pan oedd yn blentyn, gysylltu efo mwy o wybodaeth am y pulpud.

Diolch o galon i chi Mrs Thomas am gysylltu â rhannu'r wybodaeth isod:

"Roeddwn yn byw yn Cefn Coch pan yn blentyn, yn ystod y 1950au, efo fy rhieni a fy mrodyr a chwiorydd. Roedd Mr a Mrs Williams a Stanley'r mab yn byw yn Cefn Bach bryd hynny ac roedd y pulpud yn rhan o'u gardd nhw. Roedd gynnon ni fel plant, barch mawr at y pulpud a fydden ni byth wedi meddwl na meiddio mynd iddo ar unrhyw gyfrif. Unwaith erioed fues i'n sefyll ynddo, gyda chaniatad Mr Williams, a theimlo'n sbesial iawn o gael sefyll yn y pulpud a synnu at y llechen ar y tu blaen, roddwyd yno i ddal y Beibl. I ymateb i Mr Gareth Roberts yn y rhifyn diwethaf, dydw i ddim yn meddwl byddai beiblau yn cael eu cadw ynddo, a does gen i ddim cof erioed o weld Beibl nag unrhyw beth arall yn cael ei gadw yng ngwaelod y pulpud.

Mae gen i gof plentyn o weld rhywun yn pregethu yn y pulpud. Roedd rhwng 20 i 30 o bobl wedi ymgynnull i wrando ar y bregeth a minnau'n sefyll yng nghanol y cae yn gwrando arno fo. Yn anffodus gan mai plentyn oeddwn i, dydw i ddim yn cofio pwy oedd y pregethwr, a dyma'r unig dro i mi gofio rhywun yno'n pregethu.

Symudais o Ddeiniolen efo'r teulu i fyw ym Montnewydd, pan oeddwn yn 14 oed, gydag atgofion melys o fagwraeth hapus dros ben.

**Jean Thomas**

A dyna rhan olaf hanes y Pulpud Awyr Agored ... Os nad oes darllenydd arall o'r Eco efo rhagor o wybodaeth?

# Cyrraedd yr Eisteddfod Genedlaethol

Ydach chi am grwydro tua maes yr Eisteddfod eleni, a hynny am y tro cyntaf ers tair mlynedd? Mae'r trefnwyr wedi cyhoeddi manylion ar sut i gyrraedd y Maes, ynghyd â manylion gwasanaethau bysiau ychwanegol sy'n cael eu cynnig gan gwmnïau bysiau.

Eleni, mae'r Maes ar gyrion Tregaron, gyda'r meysydd parcio, carafanau, maes pebyll a Maes B i gyd wedi'u lleoli'n agos at ei gilydd ac o fewn deg munud o gerdded i ganol y dref, felly does dim rhaid neidio ar fws gwennol neu gerdded ymhell i gyrraedd y Maes. Mae popeth wedi'i leoli'n gyfochrog â'i gilydd ac yn hwylus i bawb.

Meddai Prif Weithredwr yr Eisteddfod, Betsan Moses, "Rydyn ni'n edrych ymlaen at groesawu pawb i Dregaron ymhen llai



## Rhoddion

*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

£10 - Monica Owen, Deiniolen

## Panel Golygyddol

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658

## Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Hydref | 9 Medi | 23 Medi |
| Tachwedd | 14 Hydref | 28 Hydref |
| Rhagfyr | 11 Tachwedd | 25 Tachwedd |

Mwynhewch yr haf

ECO'r Wyddfa

**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**

Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu

Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com

na thair wythnos, ac erbyn hyn, mae pobl yn dechrau meddwl am sut i gyrraedd y Maes ac yn edrych ar gynllunio'u taith i'r Eisteddfod.


"Un o gryfderau'r Eisteddfod yw ein bod ni'n teithio o amgylch Cymru, yn ymweld ag ardaloedd trefol a gwledig yn eu tro, gan gefnogi, ysgogi ac ysbrydoli cymunedau ar hyd a lled ein gwlad.

"Eleni, rydyn ni'n cynnal ein gŵyl mewn ardal wledig, ac rydyn ni'n ddiolchgar iawn i gwmnïau bysiau Rhydlewis a Llew Jones am drefnu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus ychwanegol yn yr ardal er mwyn i'n hymwelwyr ni gyrraedd o ardal Aberystwyth, Llanbedr Pont Steffan ac Aberaeron heb orfod defnyddio'r car, gyda'r bysiau olaf yn gadael y Maes ar ôl i'r cyngherddau a'r gigs ar Lwyfan y Maes orffen. Mae'n rhaid archebu tocynnau bws ymlaen llaw a gellir gwneud hyn ar-lein.

"Rydyn ni hefyd yn annog ein hymwelwyr i gerdded, beicio a defnyddio gwasanaethau rhannu car lle bo'n bosibl, ac mae'r manylion i gyd wedi'u cynnwys ar ein gwefan.

"Os ydych chi'n gorfod defnyddio'r car i ddod i'n gweld, mae'r neges yn syml - dilynwch yr arwyddion. Rydyn ni wedi gweithio'n agos gyda'r Cyngor a'r gwasanaethau brys er mwyn creu ein cynllun trafnidiaeth ar gyfer yr ŵyl. Y bwriad yw osgoi tagfeydd a sicrhau bod y daith i'r Maes yn rhwydd a diogel. Felly helpwch ni i'ch helpu chi drwy ddilyn ein harwyddion, os gwelwch yn dda."

Mae manylion ar gyrraedd y Maes ar-lein – www.eisteddfod.cymru/2022-cyrraedd-y-maes. Mae manylion amserlenni bysiau a dolen i'r system docynnau yma - https://eisteddfod.cymru/2022-bysiau. Gellir prynu tocynnau dyddiol ac wythnosol yma - https://eisteddfod.cymru/2022-tocynnau-maes.



**Cyrraedd y Maes**

**Teithio o'r gogledd orllewin:** Dilynwch yr arwyddion a throi i'r chwith ar yr A4159 wrth adael Bow Street, ac yna trowch i'r dde ar yr A44, teithiwch ar hyd Heol y Bont a chyrraedd yr A487. Trowch i'r chwith ar yr A485 yn Llanfarian a dilynwch yr arwyddion i Dregaron.

**Teithio o'r gogledd ddwyrain:** Teithiwch i'r de ar hyd yr A470, ac ar gylchfan Llangurig, ewch i'r dde gan ddilyn yr arwyddion am Aberystwyth, Ym Mhonterwyd, dilynwch yr arwyddion melyn a throi i'r chwith ar yr B4343 yn Nyffryn Castell cyn troi i'r chwith ar yr A4120 tuag at Bontarfynach. Ym Mhontarfynach, trowch i'r chwith ar y B4343 a dilynwch yr arwyddion i Dregaron.

**Teithio o'r de ddwyrain a'r gorllewin:** Anelwch tuag at Lambed a dilynwch yr A485 i gyfeiriad Tregaron. Os yn dod o ardal Aberteifi anelwch am Synod Inn ac yna ymlaen i Aberaeron. Yn Aberaeron, ewch heibio Sgwâr Alban, ac yna trowch i'r dde wrth yr orsaf betrol ar yr A482 tuag at Lanbedr Pont Steffan. (Bydd yr ildio ar y gyffordd hon yn cael ei wrthdroi trwy gydol yr Eisteddfod.) Anelwch tua'r gogledd ar yr A482 tuag at Lanbedr Pont Steffan ac yna ymlaen ar yr A485 i Dregaron.

**Traffig o'r dwyrain:** Yn Llanfair ym Muallt dilynwch yr A470 i gyfeiriad Rhaeadr Gwy a pharhewch i gyfeiriad Llangurig. Ar y gylchfan, cymerwch yr A44 i gyfeiriad Aberystwyth. Ym Mhonterwyd, trowch i'r chwith ar y B4343 yn Nyffryn Castell ac ewch i gyfeiriad Tregaron (cyfeirir at yr heol yn lleol fel Splash Road). Byddwch yn ymwybodol y bydd yr heol yn cael ei throi'n system un ffordd dros dro ar gyfer y digwyddiad. Ar ddiwedd yr heol, trowch i'r chwith ar yr A4120 tuag at Bontarfynach, yna trowch i'r chwith ar y B4343 tuag at yr Eisteddfod.

## Yn ystod y mis aeth heibio…

- **Trydan.** Erbyn dechrau mis Gorffennaf roedd llenwi car efo 55 litr o betrol yn costio £100. Yn ôl cwmni 'Carbon Brief' roedd defnyddio car trydan i deithio gwerth can punt o betrol yn costio £37; arbediad o £63 am 'lond tanc'. Mae cwmni 'ZapMap' wedi dod i'r un canlyniad. Y broblem yn ôl y ddau gwmni yw prinder digonol o fannau cyhoeddus i fwydo trydan i'r car.
- **Argae.** Bwriad Ethiopia yw adeiladu argae anferth ar yr afon Nil; un a fyddai'n cynhyrchu trydan i filiynau o drigolion y wlad. Ond mae gwledydd yr Aifft a Sudan yn ddrwgdybus o'r cynllun gan ofni gostyngiad sylweddol yn llif yr afon a'r posibilrwydd y gallai hynny effeithio'n ddifrifol ar drigolion eu gwledydd hwy, yn enwedig ffermwyr.
- **Stampiau.** Mae'n fwriad gan y Post Brenhinol i gyhoeddi wyth o stampiau yn cynrychioli wyth math gwahanol o gath.
- **Map.** Mae llawr y môr yn Antarctica wedi ei fapio'n fanwl am y tro cyntaf erioed. Mae'n lleoli ceunentydd, gwastadeddau a mynyddoedd ar wely'r môr, a bydd yn gymorth i wyddonwyr sy'n gweithio ar gadwraeth forol.
- **Blwch ffôn**. Mae'r blwch ffôn coch traddodiadol yn prinhau, ond yn dilyn ymgyrch ddiweddar cyhoeddwyd fod 1,400 ohonynt wedi eu hachub rhag cael eu gwerthu neu eu hanfon i'r domen sbwriel.
- **Arolwg.** Miloedd o bobl ym Mhrydain yn gweithio wythnos bedwar diwrnod am yr un cyflog ac wythnos bum diwrnod mewn arbrawf i ddarganfod faint o wahaniaeth a wna hyn i gynnyrch a bodlonrwydd y gweithiwr.
- **Tywarchen**. Un dywarchen a gafodd ei chodi o gae yn Knebworth ble cynhaliwyd cyngerdd gan Liam Gallagher wedi derbyn cynigion o £65,000 ar E-bay. Achos o fwy o bres nac o bridd.
- **99.** Gwerthwyr hufen ia yn pryderu am eu cyflenwad o'r siocled sydd mor boblogaidd. Mae Cadbury wedi symud y gwaith cynhyrchu i'r Dwyrain Canol, ac mae problemau di-ri ynglŷn â'i drosglwyddo oddi yno i Brydain.
- **Ynys Hans.** Mae wedi bod yn destun dadl ynglŷn â pherchnogaeth rhwng Canada a Denmarc ers cenedlaethau, ond mae bellach wedi ei datrys. Rhannwyd yr ynys 320 acer yn gyfartal rhwng y ddwy wlad.
- **Pla Du**. Wedi 675 mlynedd mae gwyddonwyr bellach yn eithaf hyderus eu bod wedi darganfon man cychwyn y Pla Du, sef ardal yng ngogledd Kyrgyzstan. Lledodd oddi yno a chyrraedd Prydain ddeng mlynedd yn ddiweddarach. Mae'r darganfyddiad wedi ei wneud yn dilyn dadansoddi DNA o ddannedd mewn sgerbydau a gafwyd mewn gwahanol gladdfeydd.
- **Heddwch.** Mae Gwlad yr Iâ wedi ei chydnabod fel y wlad fwyaf heddychlon yn y byd. Mae wedi bod yn y safle hwn ers 16 mlynedd.
- **Crwban**. Olion crwban beichiog wedi eu darganfod gan archeolegwyr mewn adfeilion tŷ a ddifrodwyd gan ludw a lafa pan echdorrodd Vesuvius bron i 2,000 o flynyddoedd yn ôl.
- **Sefyll.** Arolwg yn y "British Journal of Sports Medicine" yn honni fod dynion dros 50 oed sy'n methu sefyll ar un goes am ddeg eiliad yn debygol o farw o fewn deng mlynedd.
- **Maddeuant.** Dychwelwyd llyfr i Lyfrgell Bradford 75 mlynedd yn hwyr, ond ni chafodd y darllenwr ddirwy – a fyddai wedi costio £3,500.

# DINORWIG

### Hanner blwyddyn

Anodd credu fod chwe mis o'r flwyddyn eisoes wedi mynd heibio a bod gwyliau'r haf wedi cyrraedd. Ond tywydd siomedig a gafwyd hyd yma, gydag ychydig o heulwen a llawer o wynt. Does ond gobeithio y caiff y plant dywydd sych a braf dros eu gwyliau haf. Gobeithio hefyd y caiff y plant hŷn le i ddathlu yn dilyn canlyniadau eu harholiadau ddiwedd Awst. Gall fod yn boen iddynt ac i'w rhieni hefyd o ran hynny. Hyd yn oed cyn i'r gwyliau gychwyn mae'r ffordd am yr Allt Ddu wedi bod yn hynod o brysur. Roedd y prysurdeb ers talwm wedi ei gyfyngu i tua ugain o fysus yn cario'r chwarelwyr i'w gwaith, ond erbyn heddiw peth cyffredin yw gweld dros gant o gerbydau wedi parcio yno bob penwythnos. Daw ambell i fws ymwelwyr yma o hyd, ond fel arfer oherwydd iddynt gymryd y tro anghywir ger Beran tra ar eu ffordd i Lanberis. Bu sôn ers blynyddoedd am ledu'r ffordd er mwyn diogelwch, ond aros yn ei chyflwr gwreiddiol a wna'r ffordd.

### Newid

Daeth llawer tro ar fyd yn yr ardal. Aeth llawer o'r tai yn dai haf, ond y mae'r rheini yn newid dwylo bellach gan fod nifer o'r perchnogion yn methu fforddio dau dŷ. Er hynny, buan iawn y cânt eu llenwi gan berchnogion eraill sy'n aros dros y tywydd braf yn unig, ac yn gadael y tai'n wag dros hirlwm y gaeaf. Mae'r Lodge (neu'r hen ganolfan i drigolion gwreiddiol yr ardal) bellach wedi cau hefyd, a hynny'n ôl y perchnogion oherwydd diffyg staff. Rhaid diolch na fu damwain yn y cyffiniau hyn dros y blynyddoedd, gan fod ymwelwyr yn mynnu parcio ar y ffordd yn hytrach na defnyddio'r maes parcio. Gan ddymuno'n dda i'r perchnogion i'r dyfodol.

### Cofion

Anfonwn ein cofion at y rhai yn yr ardal sydd mewn profedigaeth. Mae eraill yn dioddef salwch, a mawr hyderwn y bydd gwell dywydd yn gymorth i chi gael gwellhad.

**Beddgelert - Dinorwic via Carnarfon** GWYNFOR COACHES
**Sherpa'r Wyddfa** S3

**Llun i Sadwrn (dim ar Wyliau Cyhoeddus)** o'r / from 09/04/2022 **Monday to Saturday (not on Public Holidays)**

| Côd/Code | | | | | | | | | MF | | NSD | S | SD | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **BEDDGELERT** | .... | 0757 | 0902 | 1002 | 1102 | 1202 | 1302 | 1402 | .... | 1502 | 1602 | 1602 | 1617 | 1702 | 1802 | 1902 |
| Rhyd-Ddu Gorsaf WHR Station | .... | 0805 | 0910 | 1010 | 1110 | 1210 | 1310 | 1410 | .... | 1510 | 1610 | 1610 | 1625 | 1710 | 1810 | 1910 |
| Rhyd-Ddu Cwellyn Arms | .... | 0806 | 0911 | 1011 | 1111 | 1211 | 1311 | 1411 | .... | 1511 | 1611 | 1611 | 1626 | 1711 | 1811 | 1911 |
| Cwellyn, Snowdon Ranger YHA | .... | 0808 | 0913 | 1013 | 1113 | 1213 | 1313 | 1413 | .... | 1513 | 1613 | 1613 | 1628 | 1713 | 1813 | 1913 |
| Waunfawr | .... | 0817 | 0922 | 1022 | 1122 | 1222 | 1322 | 1422 | .... | 1522 | 1622 | 1622 | 1637 | 1722 | 1822 | 1922 |
| Caeathro Bryn Gwna | .... | 0822 | 0927 | 1027 | 1127 | 1227 | 1327 | 1427 | .... | 1527 | 1627 | 1627 | 1642 | 1727 | 1827 | 1927 |
| **CAERNARFON Safle/Stand B Gorsaf Bws cy** | .... | 0832 | 0937 | 1037 | 1137 | 1237 | 1337 | 1437 | .... | 1537 | 1637 | 1637 | 1652 | 1737 | 1837 | 1937 |
| **CAERNARFON Safle/Stand B gad/dep** | 0755 | 0835 | 0940 | 1040 | 1140 | 1240 | 1340 | 1440 | 1510 | 1545 | 1655 | 1655 | 1655 | 1740 | 1840 | .... |
| Ysgol Syr Hugh Owen | 0758 | 0838 | 0943 | 1043 | 1143 | 1243 | 1343 | 1443 | 1513 | 1548 | 1658 | 1658 | 1658 | 1743 | 1843 | .... |
| Canolfan Hamdden/Leisure Centre | 0759 | 0839 | 0944 | 1044 | 1144 | 1244 | 1344 | 1444 | 1514 | 1549 | 1659 | 1659 | 1659 | 1744 | 1844 | .... |
| Bethel Ysgol Gynradd | 0806 | 0846 | 0951 | 1051 | 1151 | 1251 | 1351 | 1451 | 1521 | 1556 | 1706 | 1706 | 1706 | 1751 | 1851 | .... |
| Llanrug Ysgol Brynrefail | 0811 | 0851 | 0956 | 1056 | 1156 | 1256 | 1356 | 1456 | 1528 | 1601 | 1711 | 1711 | 1711 | 1756 | 1856 | .... |
| Llanrug, Sgwar | I | I | 0957 | I | 1157 | I | 1357 | I | 1529 | I | I | I | I | I | I | .... |
| Llanrug, Corlan y Rhos | 0812 | 0852 | I | 1057 | I | 1257 | I | 1457 | I | 1602 | 1712 | 1712 | 1712 | 1757 | 1857 | .... |
| Llanrug, Ffordd yr Orsaf/Station Road | 0814 | 0854 | I | 1059 | I | 1259 | I | 1459 | I | 1604 | 1714 | 1714 | 1714 | 1759 | 1859 | |
| Caernarfon Cibyn | I | I | 1002 | I | 1202 | I | 1402 | I | 1534 | I | I | I | I | I | I | .... |
| **Caernarfon Gorsaf Bws** | I | I | 1010 | I | 1210 | I | 1410 | I | 1542 | I | I | I | I | I | I | .... |
| Penisa'r Waun | 0817 | 0857 | .... | 1102 | .... | 1302 | .... | 1502 | .... | 1607 | 1717 | 1717 | 1717 | 1802 | 1902 | .... |
| Clwt-y-Bont | 0822 | 0902 | .... | 1107 | .... | 1307 | .... | 1507 | .... | 1612 | 1722 | 1722 | 1722 | 1807 | 1907 | .... |
| Deiniolen Pentre Helen | 0823 | 0903 | .... | 1108 | .... | 1308 | .... | 1508 | .... | 1613 | 1723 | 1723 | 1723 | 1808 | 1908 | .... |
| Deiniolen Rhyd Fadog | 0825 | 0905 | .... | 1110 | .... | 1310 | .... | 1510 | .... | 1617 | 1725 | 1725 | 1725 | 1810 | 1910 | .... |
| **DINORWIG** | 0833 | 0913 | .... | 1118 | .... | 1318 | .... | 1518 | .... | 1625 | 1733 | 1733 | 1733 | 1818 | .... | .... |

| Côd/Code | MF | S | 83 MS | | MF | | | | | | | NSD | S | SD | SD | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **DINORWIG** | .... | .... | .... | 0732 | .... | 0837 | 0937 | .... | 1137 | .... | 1337 | .... | .... | .... | .... | 1537 | 1637 | 1737 | 1822 |
| Deiniolen Rhyd Fadog | 0642 | .... | 0710 | 0737 | .... | 0842 | 0942 | .... | 1142 | .... | 1342 | .... | .... | .... | .... | 1542 | 1642 | 1742 | 1827 |
| Deiniolen Pentre Helen | 0643 | .... | 0711 | 0738 | .... | 0843 | 0943 | .... | 1143 | .... | 1343 | .... | .... | .... | .... | 1543 | 1643 | 1743 | 1828 |
| Clwt-y-Bont | 0645 | .... | 0712 | 0740 | .... | 0845 | 0945 | .... | 1145 | .... | 1345 | .... | .... | .... | .... | 1545 | 1645 | 1745 | 1830 |
| Penisa'r Waun | 0650 | .... | 0716 | 0745 | .... | 0850 | 0950 | .... | 1150 | .... | 1350 | .... | .... | .... | .... | 1550 | 1650 | 1750 | 1835 |
| Llanrug, Ffordd yr Orsaf/Station Road | 0653 | .... | 0719 | 0748 | .... | 0853 | 0953 | .... | 1153 | .... | 1353 | .... | .... | .... | .... | 1553 | 1653 | 1753 | 1837 |
| **Caernarfon Gorsaf Bws** | I | .... | I | I | 0820 | I | I | 1045 | I | 1245 | I | 1445 | 1445 | 1445 | .... | I | I | I | I |
| Caernarfon Cibyn | I | .... | I | I | 0825 | I | I | 1050 | I | 1250 | I | 1450 | 1450 | 1450 | .... | I | I | I | I |
| Llanrug Sgwar | I | 0655 | I | I | 0830 | I | I | 1055 | I | 1255 | I | 1455 | 1455 | 1455 | .... | I | I | I | I |
| Llanrug, Corlan y Rhos | 0655 | I | 0720 | 0750 | I | 0855 | 0955 | I | 1155 | I | 1355 | I | I | I | .... | 1555 | 1655 | 1755 | 1840 |
| Llanrug Ysgol Brynrefail | 0656 | 0656 | 0722 | 0751 | 0831 | 0856 | 0956 | 1056 | 1156 | 1256 | 1356 | 1456 | 1456 | 1456 | .... | 1556 | 1656 | 1756 | 1841 |
| Bethel Ysgol Gynradd | 0701 | 0701 | 0725 | 0756 | 0836 | 0901 | 1001 | 1101 | 1201 | 1301 | 1401 | 1501 | 1501 | 1501 | .... | 1601 | 1701 | 1801 | 1846 |
| Canolfan Hamdden/Leisure Centre | 0708 | 0708 | 0730 | 0803 | 0843 | 0908 | 1008 | 1108 | 1208 | 1308 | 1408 | 1508 | 1508 | 1508 | .... | 1608 | 1708 | 1808 | 1853 |
| **CAERNARFON Safle/Stand B cyrr/arr** | 0715 | 0715 | 0732 | 0810 | 0850 | 0915 | 1015 | 1115 | 1215 | 1315 | 1415 | 1515 | 1515 | 1515 | .... | 1615 | 1715 | 1815 | 1900 |
| **CAERNARFON Safle/Stand B gad/dep** | 0718 | 0718 | .... | 0818 | .... | 0918 | 1018 | 1118 | 1218 | 1318 | 1418 | 1518 | 1518 | .... | 1530 | 1618 | 1718 | 1818 | .... |
| Ysgol Syr Hugh Owen | I | I | .... | I | .... | I | I | I | I | I | I | I | I | .... | 1536 | I | I | I | .... |
| Caeathro Bryn Gwna | 0725 | 0725 | .... | 0825 | .... | 0925 | 1025 | 1125 | 1225 | 1325 | 1425 | 1525 | 1525 | .... | 1545 | 1625 | 1725 | 1825 | .... |
| Waunfawr | 0730 | 0730 | .... | 0830 | .... | 0930 | 1030 | 1130 | 1230 | 1330 | 1430 | 1530 | 1530 | .... | 1550 | 1630 | 1730 | 1830 | .... |
| Cwellyn, Snowdon Ranger YHA | 0739 | 0739 | .... | 0839 | .... | 0939 | 1039 | 1139 | 1239 | 1339 | 1439 | 1539 | 1539 | .... | 1559 | 1639 | 1739 | 1839 | .... |
| Rhyd-Ddu Cwellyn Arms | 0741 | 0741 | .... | 0841 | .... | 0941 | 1041 | 1141 | 1241 | 1341 | 1441 | 1541 | 1541 | .... | 1601 | 1641 | 1741 | 1841 | .... |
| Rhyd-Ddu Gorsaf WHR Station | 0742 | 0742 | .... | 0842 | .... | 0942 | 1042 | 1142 | 1242 | 1342 | 1442 | 1542 | 1542 | .... | 1602 | 1642 | 1742 | 1842 | .... |
| **BEDDGELERT** | 0753 | 0753 | .... | 0853 | .... | 0953 | 1053 | 1153 | 1253 | 1353 | 1453 | 1553 | 1553 | .... | 1613 | 1653 | 1753 | 1853 | .... |

| Côd | | | Code |
|---|---|---|---|
| **MF** | Yn gweithredu Llun i Gwener (ac eithrio Gwyl Cyhoeddus) yn unig | Operates on Monday to Friday (except public holidays) only | **MF** |
| **MS** | Yn gweithredu Llun i Sadwen (ac eithrio Gwyl Cyhoeddus) yn unig | Operates on Monday to Saturday (except public holidays) only | **MS** |
| **S** | Yn gweithredu Saturday (ac eithrio Gwyl Cyhoeddus) yn unig | Operates on Saturday (except public holidays) only | **S** |
| **NSD** | Yn gweithredu Llun i Gwener (ac eithrio Gwyl Cyhoeddus) - yn ystod gwyliau ysgol yn unig | Operates on Monday to Friday (except public holidays) - during school holidays only | **NSD** |
| **SD** | Yn gweithredu Llun i Gwener (ac eithrio Gwyl Cyhoeddus) - yn ystod tymor ysgol yn unig | Operates on Monday to Friday (except public holidays) - during school days only | **SD** |
| **83** | Gweithredir gan Dilwyn's Coaches / Operated by Dilwyn's Coaches | | |

Gwynfor Coaches 01248 722 694 Dilwyn's Coaches 01248 600 098

**Beddgelert - Dinorwic via Carnarfon** GWYNFOR COACHES
**Sherpa'r Wyddfa** S3

**Suliau a Gwyliau Cyhoeddus** o'r / from 09/04/2022 **Sundays and Public Holidays**

| | | | | | | | | | 83 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Beddgelert | 0757 | .... | 1002 | .... | 1202 | .... | 1402 | .... | .... | 1602 | .... | 1902 |
| Rhyd-Ddu Gorsaf WHR Station | 0805 | .... | 1010 | .... | 1210 | .... | 1410 | .... | .... | 1610 | .... | 1910 |
| Rhyd-Ddu Cwellyn Arms | 0806 | .... | 1011 | .... | 1211 | .... | 1411 | .... | .... | 1611 | .... | 1911 |
| Cwellyn, Snowdon Ranger YHA | 0808 | .... | 1013 | .... | 1213 | .... | 1413 | .... | .... | 1613 | .... | 1913 |
| Waunfawr | 0817 | .... | 1022 | .... | 1222 | .... | 1422 | .... | .... | 1622 | .... | 1922 |
| Caeathro Bryn Gwna | 0822 | .... | 1027 | .... | 1227 | .... | 1427 | .... | .... | 1627 | .... | 1927 |
| Caernarfon Safle/Stand B cyrr/arr | 0832 | .... | 1037 | .... | 1237 | .... | 1437 | .... | .... | 1637 | .... | 1937 |
| Caernarfon Safle/Stand B gad/dep | .... | 0855 | .... | 1055 | .... | 1255 | .... | 1455 | 1555 | .... | 1655 | .... |
| Ysgol Syr Hugh Owen | .... | 0858 | .... | 1058 | .... | 1258 | .... | 1458 | 1558 | .... | 1658 | .... |
| Canolfan Hamdden/Leisure Centre | .... | 0859 | .... | 1059 | .... | 1259 | .... | 1459 | 1559 | .... | 1659 | .... |
| Bethel Ysgol Gynradd Bethel | .... | 0906 | .... | 1106 | .... | 1306 | .... | 1506 | 1606 | .... | 1706 | .... |
| Llanrug Ysgol Brynrefail | .... | 0911 | .... | 1111 | .... | 1311 | .... | 1511 | 1611 | .... | 1711 | .... |
| Llanrug Sgwar | .... | 0912 | .... | 1112 | .... | 1312 | .... | 1512 | 1612 | .... | 1712 | .... |
| Penisa'r Waun | .... | 0917 | .... | 1117 | .... | 1317 | .... | 1517 | 1617 | .... | 1717 | .... |
| Clwt-y-Bont | .... | 0922 | .... | 1122 | .... | 1322 | .... | 1522 | 1622 | .... | 1722 | .... |
| Deiniolen Pentre Helen | .... | 0923 | .... | 1123 | .... | 1323 | .... | 1523 | 1623 | .... | 1723 | .... |
| Deiniolen Rhyd Fadog | .... | 0925 | .... | 1125 | .... | 1325 | .... | 1525 | 1625 | .... | 1725 | .... |
| Dinorwig | .... | 0933 | .... | 1133 | .... | 1333 | .... | 1533 | .... | .... | 1733 | .... |


| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dinorwig | .... | 0937 | .... | 1137 | .... | 1337 | .... | 1537 | .... | 1737 | .... |
| Deiniolen Rhyd Fadog | .... | 0942 | .... | 1142 | .... | 1342 | .... | 1542 | .... | 1742 | .... |
| Deiniolen Pentre Helen | .... | 0943 | .... | 1143 | .... | 1343 | .... | 1543 | .... | 1743 | .... |
| Clwt-y-Bont | .... | 0945 | .... | 1145 | .... | 1345 | .... | 1545 | .... | 1745 | .... |
| Penisa'r Waun | .... | 0950 | .... | 1150 | .... | 1350 | .... | 1550 | .... | 1750 | .... |
| Llanrug Sgwar | .... | 0955 | .... | 1155 | .... | 1355 | .... | 1555 | .... | 1755 | .... |
| Llanrug Ysgol Brynrefail | .... | 0956 | .... | 1156 | .... | 1356 | .... | 1556 | .... | 1756 | .... |
| Bethel Ysgol Gynradd Bethel | .... | 1001 | .... | 1201 | .... | 1401 | .... | 1601 | .... | 1801 | .... |
| Canolfan Hamdden/Leisure Centre | .... | 1008 | .... | 1208 | .... | 1408 | .... | 1608 | .... | 1808 | .... |
| Caernarfon Safle/Stand B cyrr/arr | .... | 1015 | .... | 1215 | .... | 1415 | .... | 1615 | .... | 1815 | .... |
| Caernarfon Safle/Stand B gad/dep | 0718 | 1018 | .... | 1218 | .... | 1418 | .... | 1618 | .... | 1818 | .... |
| Caeathro Bryn Gwna | 0725 | 1025 | .... | 1225 | .... | 1425 | .... | 1625 | .... | 1825 | .... |
| Waunfawr | 0730 | 1030 | .... | 1230 | .... | 1430 | .... | 1630 | .... | 1830 | .... |
| Cwellyn, Snowdon Ranger YHA | 0739 | 1039 | .... | 1239 | .... | 1439 | .... | 1639 | .... | 1839 | .... |
| Rhyd-Ddu Cwellyn Arms | 0741 | 1041 | .... | 1241 | .... | 1441 | .... | 1641 | .... | 1841 | .... |
| Rhyd-Ddu Gorsaf WHR Station | 0742 | 1042 | .... | 1242 | .... | 1442 | .... | 1642 | .... | 1842 | .... |
| Beddgelert | 0753 | 1053 | .... | 1253 | .... | 1453 | .... | 1653 | .... | 1853 | .... |

**83** Gweithredir gan Dilwyn's Coaches / Operated by Dilwyn's Coaches



Gwynfor Coaches 01248 722 694 Dilwyn's Coaches 01248 600 098



**Bangor - Pen-y-Pass via Llanberis** GWYNFOR COACHES

**Sherpa'r Wyddfa** S2

**Pob Dydd** o'r / from 09/04/2022 **Daily**

| Côd/Code | S | SUPH | MF | 85 SU | | | | | | | | | MF | S | SUPH | MF | MF | S | SUPH | 85C SU | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **BANGOR Safle/Stand A** | 0700 | 0700 | 0700 | …. | 0740 | 0840 | 0955 | 1040 | 1155 | 1240 | 1355 | 1440 | 1535 | 1555 | 1555 | 1615 | …. | 1640 | 1640 | 1730* | 1740 |
| Bangor Gorsaf Tren/Rail St | 0703 | 0703 | 0703 | …. | 0743 | 0843 | 0958 | 1043 | 1158 | 1243 | 1358 | 1443 | 1538 | 1558 | 1558 | 1618 | …. | 1643 | 1643 | I | 1743 |
| Coleg Menai | 0706 | 0706 | 0706 | …. | 0746 | 0846 | 1001 | 1046 | 1201 | 1246 | 1401 | 1446 | 1541 | 1601 | 1601 | 1621 | …. | 1646 | 1646 | I | 1746 |
| Ysbyty Gwynedd | 0713 | 0713 | 0713 | …. | 0753 | 0853 | 1008 | 1053 | 1208 | 1253 | 1408 | 1453 | 1548 | 1608 | 1608 | 1628 | …. | 1653 | 1653 | I | 1753 |
| Bethel Ysgol Gynradd | I | I | I | …. | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I | 1644 | …. | I | I | I | I |
| Llanrug Ysgol Brynrefail | I | I | I | …. | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I | 1649 | …. | I | I | I | I |
| Llanrug Sgwar | I | I | I | …. | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I | 1650 | …. | I | I | I | I |
| Llanrug Ysgol Gynradd | I | I | I | …. | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I | 1651 | …. | I | I | I | I |
| Cwm-y-Glo | I | I | I | …. | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I | 1655 | …. | I | I | I | I |
| Rhiwlas | I | I | 0727 | …. | 0807 | 0907 | I | 1107 | I | 1307 | I | 1507 | 1602 | I | I | I | …. | 1707 | 1707 | I | 1807 |
| Modurdy Beran | 0726 | 0726 | 0733 | …. | 0813 | 0913 | 1021 | 1113 | 1221 | 1313 | 1421 | 1513 | 1608 | 1621 | 1621 | I | …. | 1713 | 1713 | 1741 | 1813 |
| Deiniloen Rhyd Fadog | I | I | 0737 | 0750 | 0817 | 0917 | I | 1117 | I | 1317 | I | 1517 | 1612 | I | I | I | …. | 1717 | 1717 | 1745 | 1817 |
| Deiniolen Pentre Helen | I | I | 0738 | 0751 | 0818 | 0918 | I | 1118 | I | 1318 | I | 1518 | 1613 | I | I | I | …. | 1718 | 1718 | …. | 1818 |
| Clwt-y-Bont | I | I | 0740 | 0753 | 0820 | 0920 | I | 1120 | I | 1320 | I | 1520 | 1615 | I | I | I | …. | 1720 | 1720 | …. | 1820 |
| Brynrefail | 0730 | 0730 | 0745 | 0758 | 0825 | 0925 | 1025 | 1125 | 1225 | 1325 | 1425 | 1525 | 1620 | 1625 | 1625 | I | …. | 1725 | 1725 | …. | 1825 |
| **LLANBERIS Cyfnewidfa/Interchange cyrr/a** | 0740 | 0740 | 0755 | 0804 | 0835 | 0935 | 1035 | 1135 | 1235 | 1335 | 1435 | 1535 | 1630 | 1635 | 1635 | 1702 | …. | 1735 | 1735 | …. | 1835 |
| **LLANBERIS Cyfnewidfa/Interchange gad/d** | 0740 | 0740 | …. | …. | 0840 | 0940 | 1040 | 1140 | 1240 | 1340 | 1440 | 1540 | 1640 | 1640 | 1640 | …. | 1740 | 1740 | 1740 | …. | …. |
| Nant Peris Maes Parcio/Car Park | 0745 | 0745 | …. | …. | 0845 | 0945 | 1045 | 1145 | 1245 | 1345 | 1445 | 1545 | 1645 | 1645 | 1645 | …. | 1745 | 1745 | 1745 | …. | …. |
| **PEN-Y-PASS cyrr/arr** | 0755 | 0755 | …. | …. | 0855 | 0955 | 1055 | 1155 | 1255 | 1355 | 1455 | 1555 | 1655 | 1655 | 1655 | …. | 1755 | 1755 | 1755 | …. | …. |

| Côd/Code | MF | MF | S | MF | 85C SU | S | SUPH | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **PEN-Y-PASS gad/dep** | … | … | … | … | …. | 0800 | 0800 | 0900 | 1000 | 1100 | 1200 | 1300 | 1400 | 1500 | 1600 | 1700 | 1800 |
| Nant Peris Maes Parcio/Car Park | …. | …. | …. | …. | …. | 0810 | 0810 | 0910 | 1010 | 1110 | 1210 | 1310 | 1410 | 1510 | 1610 | 1710 | 1810 |
| **LLANBERIS Cyfnewidfa/Interchange cyrr/a** | …. | …. | …. | …. | …. | 0815 | 0815 | 0915 | 1015 | 1115 | 1215 | 1315 | 1415 | 1515 | 1615 | 1715 | 1815 |
| **LLANBERIS Cyfnewidfa/Interchange gad/d** | 0600 | 0725 | 0725 | 0758 | …. | 0820 | 0820 | 0920 | 1020 | 1120 | 1220 | 1320 | 1420 | 1520 | 1620 | 1720 | 1820 |
| Brynrefail | 0610 | 0735 | 0735 | I | …. | 0830 | 0830 | 0930 | 1030 | 1130 | 1230 | 1330 | 1430 | 1530 | 1630 | 1730 | 1830 |
| Clwt-y-Bont | 0615 | 0740 | 0740 | I | …. | 0835 | 0835 | 0935 | 1035 | I | 1235 | I | 1435 | I | 1635 | 1735 | 1835 |
| Deiniolen Pentre Helen | 0616 | 0741 | 0741 | I | …. | 0836 | 0836 | 0936 | 1036 | I | 1236 | I | 1436 | I | 1636 | 1736 | 1836 |
| Deiniloen Rhyd Fadog | 0618 | 0743 | 0743 | I | 0810 | 0838 | 0838 | 0938 | 1038 | I | 1238 | I | 1438 | I | 1638 | 1738 | 1838 |
| Modurdy Beran | 0622 | 0747 | 0747 | I | 0814 | 0842 | 0842 | 0942 | 1042 | 1134 | 1242 | 1334 | 1442 | 1534 | 1642 | 1742 | 1842 |
| Rhiwlas | 0628 | 0753 | 0753 | I | I | 0848 | 0848 | 0948 | 1048 | I | 1248 | I | 1448 | I | 1648 | 1748 | 1848 |
| Cwm-y-Glo | I | I | I | 0805 | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I |
| Llanrug Ysgol Gynradd | I | I | I | 0809 | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I |
| Llanrug Sgwar | I | I | I | 0810 | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I |
| Llanrug Ysgol Brynrefail | I | I | I | 0811 | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I |
| Bethel Ysgol Gynradd | I | I | I | 0816 | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I |
| Ysbyty Gwynedd | 0642 | 0807 | 0807 | 0837 | 0821 | 0902 | 0902 | 1002 | 1102 | 1147 | 1302 | 1347 | 1502 | 1547 | 1702 | 1802 | 1902 |
| Coleg Menai | 0649 | 0814 | 0814 | 0844 | 0824 | 0909 | 0909 | 1009 | 1109 | 1154 | 1309 | 1354 | 1509 | 1554 | 1709 | 1809 | 1909 |
| Bangor Gorsaf Tren/Rail St | 0652 | 0817 | 0817 | 0847 | 0825 | 0912 | 0912 | 1012 | 1112 | 1157 | 1312 | 1357 | 1512 | 1557 | 1712 | 1812 | 1912 |
| **BANGOR Cloc/Clock** | 0655 | 0823 | 0823 | 0853 | 0826 | 0918 | 0918 | 1018 | 1118 | 1203 | 1318 | 1403 | 1518 | 1603 | 1718 | 1818 | 1915 |

Côd

**MF** Yn gweithredu Llun i Gwener (ac eithrio Gwyl Cyhoeddus) yn unig

**S** Yn gweithredu Saturday (ac eithrio Gwyl Cyhoeddus) yn unig

**SUPH** Yn gweithredu Dydd Sul a Gwyliau Cyhoeddus

**SU** 85 - Dilwyn's Coaches - Yn gweithredu dydd Sul a Gwyliau Cyhoeddus yn unig

* yn gweithredu ar hyd Ffordd Caernarfon (1735 yn B&Q)

Code

Operates on Monday to Friday (except public holidays) only **MF**

Operates on Saturday (except public holidays) only **S**

Operates on Sundays and Public Holidays **SUPH**

85/85C - Dilwyn's Coaches - Operates Sundays and Public Holidays only **SU**

* operates via Caernarfon Road (1735 at B&Q)

Gwynfor Coaches 01248 722 694 Dilwyn's Coaches 01248 600 098


**ECO'r Wyddfa**

Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu

Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com



**Tafarn Y Glyntwrog Llanrug**

Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol

Bydd croeso cynnes yma bob amser



671191


## Gwasanaeth bws ardal Dinorwig

Daeth cais ar ran trigolion Dinorwig am wybodaeth ynglŷn â'r gwasanaeth cludiant cyhoeddus. Mae llawer yn yr ardal yn ddibynnol ar y gwasanaeth, ond yn aml yn cael eu gollwng yn Neiniolen gan nad yw'r bws yn teithio bob tro i Ddinorwig. Yn naturiol, mae'r daith ar droed o Ddeiniolen i fyny Gallt y Foel ac ymlaen yn ormod i lawer, yn enwedig os ydynt yn cario neges hefyd.

Cysylltodd yr 'Eco' â'r Adran Cludiant Cyhoeddus ar y 6ed o Orffennaf, a chafwyd ateb ganddynt ar y diwrnod canlynol. Yr unig amserlenni a anfonwyd oedd y rhai am Sherpa'r Wyddfa, sef gwasanaeth S2 o Fangor a gwasanaeth S3 o Gaernarfon. Nid yw'n ymddangos fod gwasanaeth S2 (Bangor) yn cyrraedd Dinorwig, ond cafwyd gwybodaeth fod "cyswllt i Ddinorwig am 8.25 y bore, 16.17 y pnawn ac 17.25 ddiwedd y pnawn." Does dim sôn am gyswllt o Ddinorwig i Ddeiniolen.

Cyhoeddwn y ddwy amserlen yma er gwybodaeth. Nodwn hefyd na chafwyd gwybodaeth am unrhyw amserlen arfaethedig yn ystod misoedd y gaeaf.

### Rhifyn nesaf yr 'Eco'

Cofiwch mai hwn fydd y rhifyn olaf cyn yr haf, ac na ddaw'r nesaf allan hyd 23ain o fis  Medi. Mwynhewch y gwyliau.


## Cornel Ddarllen

*Dathlu!* gan Rhian Cadwaladr



Pedair ffrind... trip i Efrog Newydd... beth allai fynd o'i le? Wel, mi fydd angen i chi ddarllen nofel newydd Rhian Cadwaladr er mwyn cael gwybod. *Dathlu!* yw pedwaredd nofel Rhian o Lanberis, ac fe gafodd y nofel ei lansio yn ystod Gŵyl Arall yng Nghaernarfon ar 9 Gorffennaf.

Mae bywydau'r pedair ffrind wedi dilyn trywyddau tra gwahanol a tydi hi ddim mor hawdd â hynny i drefnu'r gwyliau arbennig: mae Linda yn gofalu yn llawn amser am ei mam, Sioned yn gwarchod ei wyrion ac Iola yn rhedeg caffi. Mae Gwawr, fodd bynnag, a'i thraed yn rhydd ac yn awyddus iawn i fynd i Efrog Newydd, lle bu'n byw am gyfnod yn yr wythdegau. Pam, tybed, mae hi mor awyddus i ddychwelyd yno?




Mae *Dathlu!* yn nofel gynnes, deimladwy am elfennau positif a negyddol bywydau merched sy'n heneiddio, fel yr eglura Rhian; 'Pan ges i'r syniad am y nofel yn ôl yn 2020 ro'n i ddwy flynedd i ffwrdd o fy mhenblwydd yn 60, ac yn awyddus i bortreadu bywydau merched o'r oed hwnnw - yr oed lle mae merched wedi mynd yn anweledig, yn ôl y sôn. Maen nhw wedi gorffen magu plant ac yn dod i ddiwedd eu gyrfaoedd. Ydi bywyd felly yn haws? Neu ydi heriau newydd a'r ofn o ddirywio, yn gorfforol a meddyliol, yn gwneud bywyd yn anos?'

## DEINIOLEN

**Merched y Wawr**
Cafwyd taith i Gonwy i orffen y tymor, a diolch yn fawr i Jackie, unwaith eto, am yr holl waith trefnu gwych. Mwynhaodd pawb y cyfle i grwydro a darganfod hanesion y dref hanesyddol a chyfle i ymweld ag ambell siop i wario.

Cafwyd swper bendigedig i orffen y diwrnod yng Ngwesty'r Castell a phawb wedi mwynhau. Edrychwn ymlaen rŵan am y tymor nesaf, a chael y cyfle i fwynhau gyda'n gilydd unwaith eto.

**Diolch**
Dymuna Monica Owen, Pentre Helen ddiolch o galon i'r holl deulu a ffrindiau ar ôl bod yn yr ysbyty yn cael llawdriniaeth yn ddiweddar. Diolch am yr holl gardiau a blodau a rhoddion a galwadau ffôn a gafwyd.



## CYLCH MEITHRIN

**Diolch**
Hoffai'r Pwyllgor ddiolch o galon i Bingo Tŷ Elidir am eu rhodd o £100 i'r Cylch.

Maent hefyd yn hynod ddiolchgar ac yn diolch yn fawr i Manny Shoker, Garej Beran am ei rodd hael o £1,000 i'r Cylch.

Dymuna'r Pwyllgor hefyd ddiolch i Waynne Owen, W. Owen Construction am ei rodd garedig o £250 i'r Cylch.

Mae haelioni a charedigrwydd busnesau a phobl leol fel hyn yn sicrhau parhad y Cylch Meithrin. Mawr yw ein diolch i chi gyd.

Hoffai'r Pwyllgor hefyd ddiolch i Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Gwynedd am y grantiau sydd wedi galluogi'r Cylch i ddatblygu eu hardaloedd o fewn a thu allan i'r adeilad.





**Trip Gŵyl Dewin a Doti**
Bu'r plant ar daith bws i'r Galeri yng Nghaernarfon, lle cawsant lawer o hwyl yn gwylio Sioe Dewin a Doti





**Mabolgampau**
Cafodd plant y Cylch gyfle i gymryd rhan ym Mabolgampau Ysgol Gwaun Gynfi yn ddiweddar. Buom yn ffodus o gael tywydd eithaf da a chafodd pawb hwyl yn cystadlu a bod efo plant mawr ysgol Gwaun Gynfi.



**Plannu blodau**
Bu'r plant yn brysur yn harddu'r ardal tu allan trwy blannu blodau efo Anti Nesta, diolch iddi hi am helpu ac i Morrison's am gyfrannu planhigion a blodau i ni hefyd.

**Noson Bingo**
Cynhaliwyd Noson Bingo yn Ysgol Gwaun Gynfi ar Nos Lun, 11eg Gorffenna**f**. Cafwyd noson hwyliog a chyfle i fwynhau cwmni pobl ein cymuned unwaith yn rhagor a chyfle i gael paned a theisen neu ddiod oer, gan fod y tywydd o'r diwedd wedi gwella! Llwyddwyd i wneud elw o oddeutu £320 rhwng y raffl; dyfalu sawl peth da oedd mewn jar; gwerthu teisennau a diodydd poeth ac oer, heb anghofio'r bingo ei hun wrth gwrs.
Diolch o galon i'r holl fusnesau lleol a phobl garedig a gyfrannodd y gwobrau, rhoddion ariannol a'u hamser ac amynedd i gynnal noson lwyddiannus fel hon. Diolch hefyd i Ysgol Gwaun Gynfi am ganiatáu i ni ddefnyddio adeilad yr ysgol. Gobeithiwn gynnal Noson Bingo arall yn ystod misoedd y gaeaf - cewch wybod pryd yn nes at yr amser!





**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Dr Dewi Wyn Lewis gynt o Lys Myfyr, Ffordd Deiniol ar gael ei ddyrchafu i fod yn athro (*professor of physical chemistry*) ym Mhrifysgol Coleg Llundain yn ddiweddar. Un arall o gyn disgyblion Ysgol Gwaun Gynfi yn llwyddo yn y maes gwyddonol, da iawn wir.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at deulu'r diweddar Eifion Huws, Rhes Faenol yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl iawn. Roedd Eifion yn aelod gwerthfawr o'r seindorf ac yn gyfrifol am ganu'r corn gwlad am flynyddoedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cofion atoch i gyd fel teulu.



**Elfennau Gwyllt**
Cafodd y plant hwyl yn dysgu am fyd natur, creu lloches a mwynhau bod allan yn yr awyr agored.





# Ryseitiau i dynnu dŵr o ddannedd

O ddarllen atgofion Mrs Jean Thomas am hel llus, ac o ddilyn cyngor Rhosyn Mynydd am be' i wneud efo llus a mwyar, dyma feddwl 'wel be' arall fedrwn ni ei wneud efo'r ffrwythau bendigedig yma?'. Does yna ddim byd i guro tarten llus wrth gwrs, a honno'n troi'r cwstard yn biws. Ond, os ydach chi awydd trio rhywbeth gwahanol, be' am roi cynnig ar wneud diod?

Mae'r ddau rysáit yn sôn am ddefnyddio llus, ond gallwch ddefnyddio mwyar duon neu gyrains duon os mai dyna sydd gynnoch chi.

Mae'r **Cassis Llus** yn ddiod alcoholig y gallwch ei ychwanegu at ddiod arall - naill a'i 'mixer' di-alcoholig neu ddiod alcoholig arall er mwyn rhoi blas ychwanegol. Gallwch ei ychwanegu at champagne, prosecco neu win pefriog i greu diod tebyg i Kir Royal, neu mae'n flasus gyda thonig neu ddŵr pefriog gyda sbrigyn o fint neu sleisan o lemon.

Mae'r **Sudd Llus** yn ddiod di-alcohol sy'n debyg i sudd ffrwyth cryf neu 'cordial'. Mae'n fendigedig wedi ei ychwanegu at ddŵr, dŵr pefriog, lemonêd, tonig neu sudd afal. Eto, ychwanegwch sleisan o lemon neu sbrigyn o fint a lot o rew ac mi fydd gynnoch chi ddiod bendigedig i dynnu dŵr o ddannedd.

## Rysáit Cassis Llus

Digon i wneud 350ml / 12 fl oz.

Cynhwysion:
225g / 8oz  llus neu fwyar duon neu gyrains duon
150ml / ¼ peint brandi neu fodca
75g / 3oz siwgr caster

- Gwasgwch y ffrwythau, naill ai drwy eu stwnshio mewn powlen neu eu chwalu'n sydyn mewn prosesydd bwyd.
- Rhowch y ffrwythau mewn jar fawr lân gyda'r brandi neu fodca. Dylai'r jar fod yn hollol lân (*sterilised*) - naill ai drwy ei roi yn y popty ar wres isel iawn am hanner awr neu ei olchi yn y peiriant golchi llestri.
- Gadewch y jar mewn man oerllyd am 1 mis (anodd!).
- Ar ôl mis, gwagiwch y cynnwys drwy liain *muslin* i mewn i jwg, gan wasgu gymaint o'r sudd allan ag sy'n bosibl. Ychwanegwch y siwgr.
- Tywalltwch bopeth yn ôl i mewn i'r jar (wedi ei lanhau eto), a'i adael am ychydig ddiwrnodau ond gan ei ysgwyd bob hyn a hyn er mwyn i'r siwgr doddi yn iawn.
- Mae eich diod yn barod! Gwagiwch y diod o'r jar i mewn i boteli del gyda chaeadau tynn - ee. clip neu *screw-top*. Cadwch y poteli mewn man oerllyd hyd at 6 mis.





## Rysáit Sudd Llus

Digon i wneud 350ml / 12 fl oz.

Cynhwysion:
225g / 8oz llus neu fwyar duon neu gyrains duon
150ml / ¼ peint  sudd grawnwin coch
25-75g / 1-3oz siwgr caster (os oes angen)

- Gwasgwch y ffrwythau, naill ai drwy eu stwnshio mewn powlen neu eu chwalu'n sydyn mewn prosesydd bwyd.
- Rhowch y ffrwythau mewn jar fawr lân gyda'r sudd grawnwin. Dylai'r jar fod yn hollol lân (*sterilised*) - naill ai drwy ei roi yn y popty ar wres isel iawn am hanner awr neu ei olchi yn y peiriant golchi llestri.
- Gadewch y jar yn yr oergell dros nos.
- Y diwrnod canlynol, gwagiwch y cynnwys drwy liain *muslin* i mewn i jwg, gan wasgu gymaint o'r sudd allan ag sy'n bosibl. Blaswch o! Os nad ydi o'n ddigon melys at eich dant yna ychwanegwch y siwgr.
- Tywalltwch bopeth yn ôl i mewn i'r jar (wedi ei lanhau eto). Mae eich diod yn barod! Cadwch y diod yn eich oergell am hyd at bythefnos.





# Atgofion

Wrth drafod hanes yr hen bulpud awyr agored gyda Mrs Jean Thomas, buom yn trafod ei hatgofion hi fel plentyn, tra'n byw yng Nghefn Coch, Deiniolen yn ystod y 1950au.

**Hel llus**

Roeddwn wrth fy modd yn cael crwydro'r ardal a hel llus pan yn blentyn, gan gofio wrth gwrs nad oedd neb yn poeni lle oeddem ni fel plant yn crwydro bryd hynny. Dwi'n cofio hel llond pot jam o lus a mynd a hwnnw i'r pentref a'i werthu am chwe cheiniog. Wel ffortiwn i blentyn ar y pryd. Hir bendroni wedyn am beth i'w wneud â'r holl gyfoeth ac ymhen hir a hwyr, penderfynu cael gwerth tair ceiniog o tsips o siop John Lewis ac yna gwario'r tair ceiniog oedd yn weddill i gael afal o Siop John Price. Cyfoeth go-iawn!

Wrth gwrs nid y fi oedd yr unig un fyddai'n hel llus yn eu tymor, dwi'n cofio merched o'r pentref yn cerdded i fyny Parc Trysgol i hel llus, ac yna'u gwerthu am 6d am bot jam. Dyddiau difyr.

Yn ogystal ag atgofion mae gen i ambell i lun fyddai o ddiddordeb i ddarllenwyr yr Eco efallai. Dyma un o Les, Garreg Wen, Nan Davies (Cefn Coch gynt) Jean Davies (Cefn Coch gynt) a'r diweddar Dafydd Morris, Cefn Coch.




DODREFN A LLORIAU

PERKINS

●●● 01286 673535 ●●●

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AG



ECO'r Wyddfa

Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu

Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug 01286 673838
hefsj@aol.com


## CHWILAIR MIS AWST - MYNYDDOEDD BRO'R ECO

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| W | B | C | F | M | R | N | E | W | I | RH | L | E | O | M |
| C | F | O | E | L | L | E | F | N | A | C | N | CH | O | Y |
| A | D | G | DD | F | G | NG | H | L | A | I | E | E | M | N |
| R | R | A | FF | LL | N | B | E | F | P | M | L | N | E | Y |
| N | W | R | O | PH | B | D | DD | R | R | C | E | F | L | DD |
| E | A | N | C | P | H | Y | U | W | Y | U | F | O | I | P |
| DD | F | E | A | S | W | I | L | NG | S | LL | R | E | D | E |
| Y | R | DD | E | R | G | E | H | Y | G | U | I | L | I | R |
| F | I | U | Y | T | C | O | CH | S | O | TH | A | G | R | F |
| I | D | G | W | M | R | L | CH | S | L | I | G | R | F | E |
| L | I | A | E | I | I | T | C | E | R | A | S | O | A | DD |
| I | L | I | O | E | B | N | DD | F | LL | T | E | N | CH | I |
| A | E | N | F | M | G | M | O | E | L | E | I | L | I | O |
| S | G | FF | B | F | O | E | L | G | A | N | O | L | D | CH |
| T | A | NG | M | H | CH | O | G | L | E | O | F | Y | LL | L |

**CARNEDD Y FILIAST**
**CEFN DU**
**CRIB GOCH**
**ELIDIR FACH**
**ELIDIR FAWR**
**ESGAIR FELEN**
**FOEL GANOL**
**FOEL GOCH**
**FOEL GRON**
**FOEL LEFN**
**GARNEDD UGAIN**
**LLECHOG**
**MOEL CYNGHORION**
**MOEL EILIO**
**MOEL RHIWEN**
**MYNYDD PERFEDD**
**PRYSGOL**
**YR WYDDFA**

Cofiwch bod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.

Moel Eilio ydy fy hoff fynydd i. Dydw i byth yn blino cerdded ei llethrau a'i gweld yn edrych yn wahanol bob diwrnod o'r flwyddyn. P'run yw eich hoff fynydd chi?

Ydach chi wedi cerdded rhai o'r mynyddoedd sydd yn Chwilair y mis hwn? Os cawn ni dywydd braf beth am fentro allan i gerdded ambell un ? Gyrrwch lun - mi fyddai'n hyfryd ei rannu efo'n darllenwyr.

## ATEBION I CHWILAIR MIS GORFFENNAF - LLYSIAU'R ARDD

| | | |
|---|---|---|
| betys coch - beetroot | ffa Ffrengig - French beans | rhuddygl - radish |
| blodfresych - cauliflower | maip - turnips | rwdan - swede |
| cennin - leeks | merllys - asparagus | spigoglys - spinach |
| corbwmpen - courgettes | moron - carrots | tatws - potatoes |
| ffa dringo - runner beans | nionod - onions | ysgewyll - sprouts |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| FF | B | W | E | Y | S | G | E | W | Y | LL | C |
| B | A | C | M | O | R | O | N | N | CH | A | E |
| CH | E | FF | E | U | E | D | H | D | FF | R | N |
| Y | H | A | R | D | FF | O | RH | M | S | S | N |
| S | L | D | LL | E | B | N | U | T | A | B | I |
| E | I | R | Y | W | NG | O | DD | O | R | I | N |
| R | M | I | S | O | T | I | Y | C | W | G | P |
| F | N | NG | U | N | A | N | G | T | D | O | S |
| D | TH | O | E | M | T | L | L | P | A | G | D |
| O | C | O | R | B | W | M | P | E | N | L | A |
| L | PH | T | D | S | S | E | I | Y | Y | Y | E |
| B | E | T | Y | S | C | O | CH | T | LL | S | N |

**BETYS COCH**
**BLODFRESYCH**
**CENNIN**
**CORBWMPEN**
**FFA DRINGO**
**FFA FFRENGIG**
**MAIP**
**MERLLYS**
**MORON**
**NIONOD**
**RHUDDYGL**
**RWDAN**
**SPIGOGLYS**
**TATWS**
**YSGEWYLL**

# CAEATHRO

**Capel**
Cofiwch na fydd unrhyw Wasanaethau yn cael eu cynnal dros fis Awst yn ystod toriad yr haf - cyfle i fynychu Gwasanaethau mewn Eglwysi cyfagos efallai. Bydd y Gwasanaethau yn ail-gychwyn ym mis Medi, felly cadwch lygad ar yr Hysbysfwrdd tu allan i Ganolfan y Capel am y manylion priodol maes o law.

**Cyfarfod – Apêl codi arian i'r Eisteddfod**
Diolch i'r unigolion hynny a fynychodd y cyfarfod agored ar y 29ain o Fehefin i drafod syniadau ar sut all Caeathro godi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023. Bydd mwy o wybodaeth am hyn i ddilyn maes o law. Braf iawn fyddai gweld ychwaneg o drigolion pentref yn dod i rannu syniadau hefyd - gobeithiwn gynnal cyfarfod arall yn y dyfodol agos. Croeso i bawb!

# CWM-Y-GLO

**Digwyddiadau ym mis Medi a mis Hydref**
Dyma'r ddigwyddiadau sydd wedi eu trefnu ar gyfer mis Medi a mis Hydref gyda'r elw yn mynd at Gronfa Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, 2023.

**Taith Gerdded ar gyfer pawb o bob oed**
Brynhawn Sul, 4ydd Medi bydd Gareth Roberts yn arwain taith gerdded o gwmpas Cwm-y-glo gan gychwyn o swyddfa Menter Fachwen am 2 o'r gloch; yn ogystal ag adrodd hanes y ffrwydrad mawr bydd hefyd yn cyfeirio at nifer fawr o hanesion difyr am hynt a helynt trigolion y pentref. Y tâl am ymuno â'r daith fydd £3 y pen gyda phlant o dan 12 oed yn cael ymuno yn ddi-dâl.

Cofiwch ddarllen tudalen cymunedol Llanrug – Llanrug Ddoe a Heddiw ar Gweplyfr am fwy o hanes digwyddiadau.

# NANT PERIS

**Eglwys Sant Peris**
Cynhelir gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid bob bore Sul am 9:30 o'r gloch. Yn ogystal bydd Gwasanaeth Teulu am 4 o'r gloch ar Awst 7fed a Medi 4ydd. Mae croeso cynnes i bawb, ond yn enwedig i deuluoedd a phlant ymuno â ni am wasanaeth byr ac anffurfiol gyda chrefftau a lluniaeth.

Hefyd, cynhelir naill ai wasanaeth o'r Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi bob bore Mawrth am 11 o'r gloch.

Ffair Bach yr Haf: Cynhelir Ffair Grefftau yn yr Eglwys ar Orffennaf 30ain rhwng 11 a 3 o'r gloch. Mynediad £3 yn cynnwys paned a theisen.






# LLANBERIS

**Cais am newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun neu erthygl i'r *Eco*, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn/ ebost neu alwad personol, drwy'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr *Eco*.
Diolch yn fawr.

**Eglwys Sant Padarn**
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis, a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w gweld yn yr Eglwys rhwng 10:30 a 2:00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener.

**Eglwys Sant Padarn**
Cynhelir gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid bob dydd Sul am 11 o'r gloch heblaw am Gorffennaf 24ain ac Awst 28ain pan gynhelir Gwasanaeth Teulu am 11. Mae croeso cynnes i bawb, ond yn enwedig i deuluoedd a phlant, ymuno â ni am wasanaeth byr ac anffurfiol gyda chrefftau a lluniaeth.

Hefyd ar Gorffennaf 24ain ac Awst 28ain bydd Cymun Bendigaid am 8 o'r gloch.

**Ysgol Capel Coch**
Daeth tymor yr Ysgol Sul i ben dros yr haf ganol mis Gorffennaf gyda phicnic yn Gilfach Ddu. Diolch yn fawr iawn i'r rhieni a fu'n arwain yr Ysgol Sul ers iddi ail ddechrau yr hydref diwethaf wedi blwyddyn a hanner o fethu â chyfarfod yn y Capel oherwydd Covid-19. Roedd gwaith yr Ysgol Sul wedi ei wneud trwy gyfrwng Zoom o fis Ebrill 2020 hyd fis Gorffennaf 2021, ond llwyddwyd i gynnal yr Ysgol Sul yn y Capel ers hynny.

Aeth rhai o'r plant i'r Noson Mabolgampau a gynhaliodd Cynllun Efe ar Gae Ysgol Gynradd Llanrug nos Lun, Gorffennaf 11.

Bydd yr Ysgol Sul yn ail agor yn Capel Coch wedi i'r ysgolion ail agor ym mis Medi. Yn y cyfamser, gobeithio bydd pawb yn cadw'n iach.

**Capel Coch**
Cynhalliwyd cyfarfod o Henaduriaeth Arfon yn Capel Coch nos Fawrth, Gorffennaf 12. O ddiddordeb arbennig i ni ym mro'r Eco oedd y coffâd a gafwyd i Mrs Megan Williams, capel y Rhos, Llanrug gan y Parchg John Pritchard.

Ni fydd oedfaon yn Capel Coch yn ystod mis Awst, ond bydd yr oedfaon yn ail gychwyn fel arfer am 10.00 o'r gloch bob bore Sul ym mis Medi.








# Ysgol Brynrefail



**Ymddeoliad y Pennaeth Mrs Ellen Williams a'r Dirprwy Bennaeth Mr Elfed Williams**
Ar ôl 10 mlynedd o weithio yn Ysgol Brynrefail, yn gyntaf fel Dirprwy ac yn dilyn hynny fel Pennaeth bydd Ellen Williams yn symud i swydd newydd fel Arweinydd Craidd Ysgolion Uwchradd Gwynedd gyda GwE ym mis Medi. Mae hi'n braf cael dweud bod ein hysgol yn cael ei chydnabod fel ysgol ragorol gan sefydliadau megis Estyn yn ystod ei chyfnod fel Pennaeth. Ar ddiwedd y tymor hefyd fe ymddeolodd y Dirprwy Bennaeth Elfed Williams ar ôl 29 o flynyddoedd ffyddlon iawn o wasanaeth i'r ysgol. Dymunwn y gorau iddynt i'r dyfodol a diolch am eu harweiniad a'u hymroddiad dros y blynyddoedd.




**Ymweliad Blwyddyn 6**
Roedd cyffro mawr yn neuadd Ysgol Brynrefail ar fore Llun Mehefin 13eg wrth i ddisgyblion blwyddyn 6 yr ardal a'u hathrawon gyrraedd ar gyfer dau ddiwrnod o weithgareddau llawn hwyl a bwrlwm. Cafodd y disgyblion eu rhannu i'w dosbarthiadau cofrestru blwyddyn 7; dim rhyfedd eu bod yn teimlo'n gyffrous! Rhoddodd hyn gyfle iddynt ddod i adnabod gweddill disgyblion eu dosbarth newydd dros y ddau ddiwrnod yn Ysgol Brynrefail.

Ar ddiwrnod cynta'r ymweliad aeth pob dosbarth ati i wneud pedwar gweithgaredd gwahanol a oedd yn adeiladu ar y gwaith pontio roedd disgyblion ysgolion cynradd yr ardal wedi bod yn ei wneud yn yr wythnosau yn arwain at yr ymweliad. Buont yn gwneud gwaith Celf, Hanes, drama a chreadigol. Cafodd pawb gyfle i gydweithio a chystadlu yn erbyn ei gilydd ar y cwrs antur gwynt oedd yn y Neuadd Chwaraeon – gweithgaredd poblogaidd iawn!

Bu ail ddiwrnod yr ymweliad yr un mor llwyddiannus gyda'r disgyblion yn cael cyfleoedd i wneud gwaith yn amrywio o goginio i ddylunio, ac o waith iaith i arbrofion gwyddonol.

Yr oedd ymddygiad y disgyblion i gyd yn arbennig trwy gydol y deuddydd. Diolch yn fawr iawn i'r holl staff a weithiodd yn galed i sicrhau llwyddiant y gwaith yma yn ystod yr ymweliad.

**Diwrnodau Sgiliau Mehefin 2022**
Bu'r ysgol yn llawn bwrlwm ar ddiwedd Mehefin gyda'r disgyblion yn cael cyfle i fwynhau'r awyr agored drwy wneud gwahanol weithgareddau. Cafodd pawb gyfle i gael hwyl ac ymlacio ychydig yng nghwmni ffrindiau ar ôl blwyddyn o waith caled. Cawsom dywydd bendigedig gyda'r haul yn gwenu arnom yn ddyddiol heblaw am ambell gwmwl a chawod ar y dydd Gwener. Trefnwyd pedwar diwrnod o weithgareddau eleni gan fod niferoedd yr ysgol ar gynnydd. Os nad ydych wedi gweld y lluniau a'r fideos o'r gweithgareddau yna ewch ar dudalen neu gyfri 'Ysgol Brynrefail' ar Facebook neu Trydar – maen nhw werth eu gweld.

Bu Blwyddyn 7 ar 'Daith y Chwarel' yn ardal Llanberis – diwrnod hynod o boblogaidd. Iechyd a lles, hanes lleol, a chelf a cherdd oedd ffocws y diwrnod. Bu taith gerdded o Lanberis i Benllyn a threuliwyd amser yn yr Amgueddfa Lechi a Chastell Dolbadarn. Rhoddodd Gareth Roberts o Fenter Fachwen gyflwyniad difyr iawn am hanes yr ardal a bu cyfle i'r disgyblion recordio synau'r chwarel a chwarae'r llechiffon. Bu'r daith yn sbardun i waith y Celfyddydau Mynegiannol (Cerdd / Celf / Drama) ym mlwyddyn 8.

Gweithgaredd arall oedd benthyg beic gan gwmni Beics Antur yng Nghaernarfon ac

**Prom 2022**
Dydd Gwener, 1af Gorffennaf cynhaliwyd Prom blwyddyn 11. Roedd hwn yn gyfle arbennig i ni allu dathlu diwedd cyfnod disgyblion y flwyddyn yn yr ysgol a diwedd cyfnod hir yr arholiadau. Gyda'r disgyblion wedi wynebu amser anodd iawn dros y ddwy flynedd ddiwethaf a fawr ddim cyfleoedd wedi bod i gyd-ddathlu a chyfarfod, roedd hi'n fendigedig eu gweld yn cyrraedd yr ysgol yn llawn brwdfrydedd a disgwyliad. Roedd y 105 a ddaeth i ddathlu yn edrych yn hynod o smart ac yn werth eu gweld - yn bobl ifanc ac nid plant bellach. Wedi cyfleoedd i dynnu lluniau yn yr ysgol o dan y bwa o falŵns a gair o groeso gan y Pennaeth, teithiodd pawb i Lanberis i Westy'r Vic i fwynhau pryd tri chwrs yno. Yn dilyn y wledd rhoddwyd gwobrau i'r disgyblion gan y disgyblion eu hunain ac yna cafwyd mwy o gyfleoedd i dynnu lluniau yn yr ardd a dawnsio yn y disgo. Gorffennwyd y dathliadau ar nodyn llawn hyder a hwyl wrth i bawb forio canu 'Yma o Hyd'!













yna beicio i Fryncir ac yn ôl ar hyd Lôn Eifion. Llwyddodd y mwyafrif i gyrraedd Bryncir (sydd tua 20 milltir) a rhai yn llwyddo i gyrraedd Graeanog neu Benygroes. Dyma dipyn o daith i ddisgyblion Blwyddyn 7 – yn enwedig yn yr haul poeth ar y dydd Iau a'r cawodydd brynhawn Gwener! Cafodd y plant eu canmol i'r cymylau gan y staff am eu hymdrechion.

Gweithgaredd newydd am eleni, a hynod boblogaidd, oedd y gweithdy drama 'Fi Di Fi' dan arweiniad staff Frân Wen. Roedd y disgyblion wrth eu boddau yn y neuadd yn perfformio, yn creu cerddi ac yn chwarae rôl. Diolch yn fawr i'r holl staff brwdfrydig a ddaeth yma – ewch i dudalen Facebook 'Frân Wen' i weld fideo o'r disgyblion yn cymryd rhan. Mae'n dod â gwen i'r wyneb.

Y gweithgaredd olaf i ddisgyblion Blwyddyn 7 oedd diwrnod 'Byw a Bod' a oedd yn edrych ar werthfawrogi'r ardal leol a byd natur. Daeth Gwydion yma o'r cwmni 'Ar y Trywydd' i arwainw taith gerdded leol ac yna roedd gweithdy Gwyddoniaeth yn y prynhawn. Gallwch weld lluniau bendigedig ar dudalen Facebook 'Ar y Trywydd'.

Trefnwyd taith gerdded yn ardal Beddgelert eleni i ddisgyblion Blwyddyn 8 gyda chymorth staff yr Urdd. Mae teithiau o'r fath yn gyfrifoldeb mawr ar staff a'r pwysau i blesio pawb ac ystyried risgiau i gadw pawb yn ddiogel yn anodd iawn. Penderfynwyd ar gerdded taith hyfryd ac amrywiol o 7 milltir a oedd yn dechrau yn Nant Gwynant, yna'n mynd i fyny o Lyn Dinas i gopa Mynydd Sygun, yna lawr drwy Gwm Bychan ac yn ôl wedyn ar hyd afon Aberglaslyn i Feddgelert. Dyma ardal hyfryd iawn a thaith i blesio pob gallu gan fod dringfa serth ar y dechrau a llwybr cul, cyffrous ar hyd yr afon.

Gweithgaredd newydd am eleni i'r disgyblion oedd gweithdy am wlad India gan yr Adran Saesneg – bydd hyn yn sbardun i waith ar y cyd gyda'r adran Ddyniaethau ar ddiwedd Blwyddyn 8. Cawsant gyfle i ddysgu mwy am hanes, iaith a chwedlau'r wlad. Ydych wedi gweld y fidio o'r disgyblion yn dysgu Hindi ar dudalen Facebook Ysgol Brynrefail? Ewch i fusnesu! Bu cyfle hefyd i ddysgu am ddiwylliant y wlad, i flasu gwahanol fwydydd ac i wneud patrymau henna.

Gweithgaredd newydd arall am eleni i Flwyddyn 8 oedd taith i Lerpwl dan arweiniad yr adran Ddyniaethau. Yn y bore roedd ymweliad addysgol ag Amgueddfa Forwrol Lerpwl yn Noc Albert. Yma, roedd cyfle i ddysgu mwy am gaethwasiaeth. Yn y prynhawn roedd amser rhydd i bawb yn y ddinas i gael cinio a siopa – profodd hyn yn boblogaidd iawn.

Pedwerydd gweithgaredd Blwyddyn 8 oedd y cyfle i brofi diwrnod llawn antur a chyffro yn dringo yng nghanolfan Ropeworks, Llanberis. Digon i gadw pawb yn hapus a phrysur felly – gallwch weld y lluniau ar ein tudalen Facebook!

Cafodd disgyblion Blwyddyn 9 gyfle i wella eu ffitrwydd mewn diwrnod 'Chwaraeon'. Roedd cyfle i ddawnsio gydag Iola a Chloe o gwmni dawns Hudoliaeth, i chwarae *dodgeball* a rownderi, i brofi ychydig o yoga gyda Catrin Williams ac i ddysgu mwy am bêl-fasged gyda thîm Celts. Corff iach, meddwl iach yn wir!

Bu'r disgyblion hefyd ar daith gerdded o Nant Peris, i fyny i'r chwarel ac yna'n ôl i'r ysgol – taith o 9 milltir i gyd. Roedd y tywydd yn fendigedig a phawb wedi mwynhau. Gweithgaredd arall hynod boblogaidd oedd diwrnod dan arweiniad cwmni gweithgareddau dŵr Boulder Adventure sydd wedi ei leoli wrth ymyl Llyn Padarn. Cafwyd cyfle i adeiladu rafft mewn timau ac yna caiacio. Nid oes rhaid teithio ymhell yn yr ardal yma i gael profiadau gwerth chweil – rydym yn byw mewn ardal fendigedig.

Cyfle i ymlacio oedd y gweithgaredd olaf wrth fynd i Galeri i wylio ffilm *'Lightyear'* a chyfeiriannu ar dir yr ysgol dan arweiniad cwmni awyr agored 'Ar y Trywydd'.

Bu disgyblion Blwyddyn 10 hefyd yn brysur iawn – cawsant ddiwrnod yn cerdded ar draeth a choedwig Llanddwyn. Roedd y tywydd yn hyfryd a'r cyfle i ymlacio yng nghwmni ffrindiau yn un y gwnânt gofio am byth gobeithio. Cawsant un diwrnod o waith academaidd yn dechrau ar eu prosiectau unigol – dyma gyfle iddynt ddatblygu sgiliau meddwl a sgiliau gweithio'n annibynnol sydd mor bwysig i lwyddo yn yr oes sydd ohoni.

Gweithgaredd arall oedd y cyfle i wneud gwahanol chwaraeon fel golff-droed, tenis, pêl-droed, *dodgeball* a rownderi. Roedd hi'n hyfryd gweld y disgyblion yn ymlacio ac yn mwynhau yn yr heulwen gyda'u ffrindiau. Gweithgaredd newydd i Flwyddyn 10 eleni oedd mynd i saethu peli paent yn Llanddeiniolen gyda chwmni *PaintballWales.com*. Roedd y disgyblion yn eithaf nerfus cyn dechrau ond ar ôl treulio awr a hanner yn 'brwydro' ei gilydd yn y goedwig am awr a hanner roedden nhw'n llawn straeon ac wrth eu boddau. Manteisiwyd ar y tywydd braf hefyd i gerdded yno ac yn ôl – taith o tua 6 milltir. Roedd yna ddisgyblion ffit iawn ym mlwyddyn 10 ar ddiwedd yr wythnos!

A dyna ni – wythnos brysur i'w chofio i bawb yn Ysgol Brynrefail gobeithio. Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar yn barod at fwrlwm flwyddyn nesaf!

**Profiad Gwaith**

Treuliodd Blwyddyn 10 a Blwyddyn 12 wythnos o Brofiad Gwaith gyda chyflogwyr yr ardal ym mis Gorffennaf fel rhan bwysig o'u proses dewisiadau Gyrfa. Rhoddwyd cyfleoedd iddynt feithrin sgiliau newydd a datblygu ar eu sgiliau a'u rhinweddau presennol, yn ogystal â rhoi blas iddynt o fyd gwaith.

Mae adborth y disgyblion wedi bod yn hynod frwdfrydig ac roeddynt yn werthfawrogol iawn o'r cyfle i dreulio cyfnod o wythnos ar brofiad gwaith. Cafwyd hefyd ymateb cadarnhaol gan y cyflogwyr, a derbyniwyd sawl neges ganddynt yn canmol parodrwydd y disgyblion i ymwneud â thasgau gwahanol ac am eu parch a'u cwrteisi. Yn wir cafodd ambell un gynnig swydd! Mae'r ysgol yn hynod o ddiolchgar i gyflogwyr yr ardal am roi'r cyfleoedd pwysig hyn i ddisgyblion Ysgol Brynrefail.



**Disgyblion Ysgol Dyffryn Conwy yn egluro Rhaglen KiVa i'n Cyngor Ysgol**

Ar fore dydd Mercher, Mehefin 29ain daeth disgyblion sy'n aelodau o Bwyllgor Lles Ysgol Dyffryn Conwy draw at aelodau ein Cyngor Ysgol ni fel gwelwch yn y llun, i roi cyflwyniad iddynt ar raglen gwrth-fwlio KiVa. Rydym yn Ysgol Brynrefail wedi derbyn hyfforddiant er mwyn defnyddio rhaglen KiVa yma o fis Medi ymlaen. A ninnau wedi hyfforddi'r holl staff am egwyddorion a strwythur KiVa rydym yn ddiweddar wedi bod yn egluro'r rhaglen i ddisgyblion pob blwyddyn yn eu tro.

Gan fod Ysgol Dyffryn Conwy hefyd yn Ysgol KiVa ac wedi bod yn dilyn y rhaglen ers yn agos at ddwy flynedd gofynasom yn garedig iddyn nhw a fyddent yn fodlon dod draw i egluro sut mae rhaglen KiVa yn gweithio a pha effaith mae'r rhaglen wedi ei gael ar ddelio â bwlio yn eu hysgol nhw. Roedd eglurhad y disgyblion a chyflwyniad eu hathro Mr Jason Turner yn werthfawr iawn. Diolch iddynt am fod mor barod i ateb ein cwestiynau.

# BETHEL A SEION

**Cydymdeimlad**
Wedi brwydr ddewr , yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Dafydd Williams, Stad Eryri neu Dafydd Cownsil i lawer. Am flynyddoedd bu'n 'fecanic' graenus iawn i'r Cyngor Sir. Un â'r gallu i droi ei law at sawl tasg oedd Dafydd, a bydd llawer yn cofio ei aml gymwynasau di-sylw, tawel. Ar un olwg, gŵr tawel oedd Dafydd. Parod ei sgwrs a rheini yn aml yn troi'n ôl i'w wreiddiau ym Môn. Nid oedd 'ffrils' gyda Dafydd. Cymeriadau cefn gwlad a'i gyd-weithwyr oedd yn denu'r sylw. Gadawodd ei wreiddiau ym Môn eu hôl, a ffurfio'i gymeriad. Yn ifanc, bu'n bêl-droediwr ac mewn sgwrs ag o roedd criw Llannerchymedd a hogia'r *Anglesey League* yn britho'r storiau. " Wyt ti'n cofio ….." Yr oedd ganddo ddiddordeb mawr mewn chwaraeon ac am sawl tymor bu'n aelod ffyddlon o dîm snwcer y pentref. Ar yr aelwyd bydd y golled fwyaf a danfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Olwen, Wenna, Llinos, Bryn a'u teuluoedd..

Yr un cydymdeimlad â Mary Wyn Jones, Y Ddôl, ar golli ei brawd Rich oedd wedi cartrefu yn Ninbych ers blynyddoedd. Yr hynaf o saith o blant a'u gwreiddiau yn Llanberis.

**Cofion**
Mae cynffon Covid-19 yn dal i ymlwybro o gwmpas y pentref. Cofion at bawb sydd dal i ddioddef. Am wahanol resymau bu rhai yn treulio amser draw yn Ysbyty Gwynedd. Treuliodd Maud Williams, Deulyn bum noson yn yr ysbyty ond braf cofnodi ei bod gartref bellach. Yr un modd croeso adref Seiriol Owen, Stad Tan-y Cae wedi arhosiad byr yn yr ysbyty.

Danfonwn ein cofion at Dewi Jones, Cenarth, sydd bellach yn cartrefu yng Nghartref Cerrig yr Afon, Y Felinheli.

**Llongyfarchiadau**
Croesawn hogyn bach llond ei groen yma i Fethel. Llongyfarchiadau i Kelly a'i phartner Andrew, 14 Cremlyn ar enedigaeth mab, Eban, yn ddiweddar.

**O'r Cyngor Cymuned**
Cafwyd trafodaeth ar gyflwr trychinebus y gysgodfan bws yng ngwaelod y pentref. Wedi ei archwilio darganfuwyd fod rhan helaeth o'r fframwaith wedi rhydu ac yn annigonol i gynnal y gysgodfan. Hefyd, mae dwy gwarel yn eisiau. Yn amlwg, ni allai'r gysgodfan wrthsefyll y gwyntoedd cryfion diweddaraf. Daethpwyd i'r penderfyniad o wahodd cwmni sy'n gosod cysgodfannau i roddi barn ar y ffordd ymlaen. Os y farn yw dymchwel y gysgodfan oherwydd diogelwch, yna ceisir rhoi cysgodfan dros dro yn ei le. Ni ellir symud ymlaen i osod



cysgodfan newydd – os dyna'r penderfyniad – tan y flwyddyn ariannol nesaf. O dan y rheolau gwariant presennol mae'r Cyngor yn gorfod pennu eu gwariant am y flwyddyn gyfredol ar ddechrau'r flwyddyn – torri gwair, llwybrau, halen, prosiectau penodol etc. I gael syniad o brisiau, gosodwyd cysgodfan ym mhentref Brynrefail am y tro cyntaf ar gost o £4,500.

Tynnwyd sylw at y nifer fechan o fysiau sy'n mynd trwy'r pentref yn ddyddiol. A fuasai mwy yn defnyddio'r bysiau yn y cyfnod yma o bris tanwydd uchel? Cawsom wybod gan y Cynghorydd Sir fod y broses o lunio amserlen newydd yn cael ei baratoi. Dywedodd hefyd y bydd sylw yn cael ei roddi i fwy o wasanaethau i gyfeiriad Bangor. Roedd awgrym hefyd y gallai un neu ddau o fysus Caernarfon – Bangor – Llandudno gael eu hail gyfeirio drwy Fethel, yn lle bod pob un yn mynd trwy'r Felinheli.

Trafodwyd dau lwybr. Yn gyntaf y llwybr wrth gefn Capel Cysegr i Ffordd Llanrug. Gan fod ffens wedi ei gosod gan y tir-feddianwr rhaid oedd ystyried cyflwr yr hen wal terfyn o gwareli. Mae ambell un sydd wedi plygu yn creu rhwystr i'r llwybr, ac eraill wedi eu darnio, fel y gwelwch yn y llun. Mae ambell lais lleol o'r farn y dylid cadw gymaint o'r pileri a phosibl canys dyma yw 'mur tefyn' naturiol sawl man yn yr ardal. Edrychir i mewn i'r posibilrwydd o gadw'r mwyafrif o'r llechi sy'n dal mewn cyflwr derbyniol, a chael gwared â'r rhai anafus.

Yna'r llwybr hanesyddol sy'n arwain o Ffordd Tre Gof i lawr at yr hen ffynnon. Llwybr byr yw hwn ond erbyn hyn mae wedi gor-dyfu. Fel rhan o delerau caniatâd adeiladu tai Maes y Ffynnon gosodwyd ffens ar hyd y llwybr. Bydd y Cyngor yn trefnu torri'r tyfiant, a gobeithio bydd y gwelwn bobl yn cerdded unwaith eto at hen ffynnon y pentref. Oes rhai yn cofio cerdded yno i gael dŵr?

**Plaid Cymru**
Gan fod ward etholiadol Sirol Bethel a Felinheli yn un daethpwyd i'r penderfyniad o uno canghennau'r ddau bentref. Bydd cyhoeddiad ynghylch Swyddogion yn y dyfodol agos. Un elfen fydd cynnal nosweithiau cymdeithasol, a gwthiwyd y cwch i'r dŵr trwy gynnal noson hwyliog iawn yn Perthyn gan y baledwr hynod ddawnus Gwilym Rhys.

**Pleidlais**
Ar hyn o bryd mae trafodaethau manwl wedi bod ymysg eglwysi Gofalaeth Glannau'r Saint – y Cysegr, Caeathro, Capel y Rhos, Llanrug ac Eglwys Unedig Bethesda (Jeriwsalem) am farn yr aelodaeth o alw Gweinidog neu beidio i olynu'r Parch. Marcus Robinson. Fe gafwyd pleidlais gudd ymysg yr aelodaeth ar Suliau 10fed a 17eg Gorffennaf. Felly, bydd canlyniad y bleidlais yn cael ei chyhoeddi wedi i'r rhifyn hwn fynd i'w wely. Beth tybed fydd dyfodol y drefn Anghydffurfiol yn y pentref yn y blynyddoedd nesaf yma?

**Merched y Wawr**
I gadw cysylltiad, ymunodd rhai o aelodau'r gangen leol mewn taith gerdded, wedi ei threfnu gan y Pwyllgor Rhanbarth. Cerddwyd yn hamddenol o Lanberis i Ben Llyn, ac yna'n ôl. Ymunodd pawb wedyn yn y Caban am baned a sgwrs.

**Gweld Cyfle**
Dyna'n sicr mae cwmni symudol *Ahoy* wedi ei weld yma ym Methel. Ar nosweithiau Mawrth bellach gwelir y fan sglodion a physgod symudol wedi ei lleoli ar draws y ffordd i'r ysgol. Y mae'r ciwiau yn arwydd fod yr atyniad yn apelio i nifer o'r pentrefwyr. Roedd cyfnod wrth gwrs pan oedd gan Bethel ei siop sglodion wedi ei lleoli yn yr hen 'gwt hers' ond marw allan wnaeth y fenter.

**Eisteddfod Bethel**
Gan obeithio bod drws cymdeithasu yn agor mae Pwyllgor yr Eisteddfod Bentref eisoes yn cynllunio ymlaen at gynnal yr eisteddfod yn y Neuadd ym mis Hydref. I gadw'r brwdfrydedd i fynd cafwyd ymateb dda i Eisteddfod Ddawns Bethel ddiwedd Mai, yn y cyfarfod cyntaf ers 2019. Yr oedd y nifer – yn gystadleuwyr a gwylwyr – yn galonogol o niferus. Diolch i'r rhai fu yn hyfforddi ac i athrawon yr ysgol am eu cymorth gyda hyfforddiant yn yr adran dawnsio gwerin. Cafwyd perfformiad o'u darn gosod ar gyfer Eisteddfod yr Urdd gan Barti Cerdd Dant Bethel.

Arweinydd y noson oedd Elan Jones a'r beirniad oedd Siân Harris. Diolch i'r ddwy am eu cyfraniad. Fel bod cofnod i haneswyr a chofnodwyr y dyfodol dyma restr o'r canlyniadau:

Dawns Werin Grŵp : 1af, Jac y Do; 2il, Sali Mal;i 3ydd, Mursen.

Dawns Aml-Gyfrwng (Parau Bl.2



**Adran yr Urdd**
Cafodd yr aelodau noson o chwaraeon dan ofal Sasha a Gwenno ar y 24ain o Fehefin ar gae chwarae'r pentref. Cafwyd llawer o hwyl a diolch i'r genod am drefnu.

Ar nos Wener, 8fed Gorffennaf, i orffen gweithgareddau'r flwyddyn cawsom groeso yng Nghaffi Perthyn a chael cwis dan ofal Llinos Evans a'r bwyd dan ofal Anti Glenda. Cafwyd amser da gan bawb a digon o hwyl. Diolch i'r caffi am y lluniaeth blasus.

Edrychwn ymlaen at y tymor nesaf lle bydd croeso cynnes i bawb eto ac i aelodau newydd ymuno hefyd. Mwynhewch wyliau'r haf bawb a diolch!

ac Iau): Betsan a Greta.

Dawns Werin Grwp : 1af, Grwp Twmpath; 2il, Grwp Gwerin; 3ydd, Grwp Alaw.

Dawns Aml Gyfrwng Unigol (Bl. 3 – 6) 1af, Olly Louis; 2il, Leia Evans.

Dawns Aml-Gyfrwng Parau (Bl.3-6) 1af, Quin ac Olly; 2il, Nel a Megan.

Dawns Aml-gyfrwng Grwp (Bl.3-6) 1af, Criw Lloerig; 2il, Doliau Dychrynllyd.

Ar ddiwedd y gweithgareddau dyfarnwyd Tlws Cefn Ffrwd i ddawnsiwr y noson sef Leia Evans. Dyfarnwyd Tlws Teulu Treflys am berfformiad y noson i Olly Louis. Fe aeth Olly ymlaen wrth gwrs i gipio'r brif wobr yn Eisteddfod yr Urdd yn Ninbych eleni.

**O'r Siambr**

Fel gyda'r Cyng. Sion Jones rwyf wedi estyn gwahoddiad i'r Cyng. Sasha Williams gyflwyno adroddiad i'r Eco. Dyma ei chyfraniad cyntaf ers ei hethol.

**Clybiau Ieuenctid**

Fel cynghorydd cymuned rwy'n falch fy mod wedi derbyn cefnogaeth y cyngor gyda fy nghynnig cyntaf ar ran pobl ifanc y pentref - maes rwyf wedi ei gefnogi mewn sawl ffordd. Diolch i'r clerc a fy nghyd gynghorwyr am eu cefnogaeth.


Mae Cyngor Llanddeiniolen wedi cytuno i ariannu clybiau Ieuenctid ym Methel a Deiniolen. Bydd y tymor yn rhedeg am 30 wythnos o Fedi 2022 i Ebrill 2023. Partneriaeth sydd yma rhwng y cyngor a Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd. Bydd 6 swydd arweinyddion clwb yn cael ei hysbysebu. Bydd cynnwys a ffurf y nosweithiau yn cael ei lunio yn dilyn ymgynghoriad â'r bobl ifanc. Bydd Is-bwyllgor yn cael ei sefydlu i arolygu, a'r ddau gynrychiolydd o'r cyngor fydd y cynghorwyr cymuned Sasha Williams, Bethel a Richard (JohnJo) Jones, Deiniolen. Bydd gweddill yr Is-bwyllgor yn aelodau o gymunedau'r ddau bentref. Edrychwn ymlaen.

**Yn y Siambr**

Mae'n ddau fis bellach ers fy ethol. Bu'n ddau fis prysur o gynefino â dulliau a threfniadaeth y Cyngor Sir. Mae gymaint o'r gwaith bellach yn digwydd yn electronig, a chofiwch y gallwch ddilyn pwyllgorau a chyfarfodydd y cyngor ar safle we Gwynedd. Rwy'n teimlo'n fwy cartrefol bellach gyda fy nyfais I-pad fy hun. Mynychais ddau gyfarfod llawn o'r cyngor dan arweiniad y Cadeirydd newydd, Elwyn Jones (Rhiwlas) yr ydwyf yn gyfarwydd ag o fel cysylltiad yng nghyngor Llanddeiniolen. Mae rhywun yn synnu sawl agwedd o waith cyngor sy'n bodoli. Rwyf wedi fy ngosod ar ddau bwyllgor craffu, sef Addysg ac Economi, a Gofal, a hefyd ar y Pwyllgor Iaith. Ar hyn o bryd rydym yn elwa o arweiniad y gwahanol Benaethiaid Gwasanaethau.

**Cymdeithasu**

Bydd hi'n sialens i dynnu'r pentref yn ôl at ei gilydd wedi'r Covid. Mae awgrym wedi ei wneud fod Cyfarfod Cyhoeddus yn cael ei drefnu i wyntyllu barn ein pentrefwyr ar y 'ffordd ymlaen' yma ym Methel. Bu yn gyfnod prysur eithriadol yn ddiweddar a bum yn ran o'r criw trefnwyr neu gefnogwr yn y gweithgareddau canlynol: Bore Coffi MYW, wythnos Mish-mash, Ffair Haf yr Ysgol, noson wobrwyo CPDB, bore agored yr Ysgol, Chwaraeon a Chwis Adran yr Urdd, Bethel, Mabolgampau'r Ysgol a Gŵyl y Felinheli. Cafwyd noson gyda Gwilym Rhys yn Perthyn hefyd wedi ei drefnu gan Bwyllgor Plaid Cymru Bethel/Y Felinheli.



**Cymhorthfa**

Cafwyd cymhorthfa gyntaf lwyddiannus gyda chyfle i nifer ddod â'u pryderon – a syniadaeth – ar 24ain Mehefin. Y 'panel cymorth' gyda mi oedd fy nghyd-gynghorydd Sirol Iwan Huws a Siân Gwenllian AC. Diwrnod diddorol oedd hwn ac yn agor y drws i mi ar y fath ystod o bynciau sy'n creu anhawster i lawer. Gwefr arbennig oedd cyfarfod aelodau Pwyllgor Disgyblion Ysgol Bethel a'u cwestiynau aeddfed yn ymwneud ag agweddau sy'n pryderu eu cyfoedion. Ni ellir pwysleisio digon am bwysigrwydd y cyswllt gyda'r ieuenctid yma – rhaid i Fethel fagu hyder a datblygu ei 'harweinwyr' cymdeithasol a pholiticaidd ar gyfer y dyfodol o fysg ei rhengoedd cynhenid.

**Nosweithiau Hwyl**

Ar nos Fercher, 6ed Gorffennaf trefnais i ddwy o Swyddogion Ieuenctid Gwynedd, Ffion a Beca, ddod i gyfarfod â rhieni a phobl ifanc i Barc Chwarae'r pentref. Y bwriad yw trefnu ambell i 'sesiynau hwyl' i'r plant yn ystod cyfnod gwyliau'r haf.

**Cyswllt Ysgol**

Fel llywodraethwr braf oedd cael cyfarfod fel Corff wyneb yn wyneb eto. Bydd llywio'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd yn her i ni. Rwyf yn ffyddiog o dan arweiniad y Prifathro y bydd y staff yn egnïol gyflwyno'r agweddau ymchwiliol newydd yma. Diolch i'r staff a disgyblion bob amser am gefnogi sawl gweithgaredd yn y gymuned. Ar ran y Corff Llywodraethol a'r rhieni hoffwn ddiolch i Einion ein Cadeirydd am ei gadeirio meistrolgar dros y ddwy flynedd anodd ddiwethaf. Mae'n sefyll i lawr ar ddiwedd y tymor cyfredol.

**Diolch**

Mae ambell brosiect arall yn cyniwair ar gyfer y dyfodol, a gwnaf fy ngorau i drosglwyddo'r newyddion i chwi. Diolch i'r Eco am fod yn gyfrwng cyswllt felly, a chofiwch os oes problem gadewch i mi wybod. "Heb ddweud, heb wneud".



**Capel Cysegr**

Bu aelodau o Ysgol Sul Cysegr ar daith gerdded yn hel arian i Apêl Wcrain. Diolch yn fawr am y rhoddion caredig.



# LLANRUG

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Mathew a Llinos, Bro Garedd, Llanrug ar enedigaeth eu mab, Elis Dafydd ar y 10fed o Fehefin. Brawd bach i Cadi a Beca. Newyddion hyfryd, a dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Llongyfarchiadau mawr i Maureen Pierce, Antmor, Bryn Moelyn ar ddod yn nain unwaith eto. Ganwyd Finley i Dylan a Sam, brawd bach annwyl i Nate a Lucas. Pob bendith i'r teulu bach.

**Profedigaeth**
Cydymdeimlwn â Meirwen Lloyd a'r teulu yn eu profedigaeth o golli ei chwaer Anwen. Colled enfawr i chi fel teulu a ffrindiau. Rydym yn meddwl llawer amdanoch ac yn anfon ein cydymdeimlad dwysaf atoch yn y cyfnod anodd yma.

Yn annisgwyl, bu farw John Gerard Moloney o Fro Rhythallt yn Ysbyty Gwynedd. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i'r teulu a ffrindiau yn eu colled.

Trist oedd clywed y newyddion o'r Alban am golli Siân, nith i Idwal Williams, Disgwylfa, Stryd yr Orsaf. Rydym yn anfon ein cydymdeimlad dwysaf atoch chi fel teulu ac yn meddwl llawer amdanoch.

**Pen-blwydd**
Anfonwn ein cofion anwylaf at Mr Iolo Llywelyn, Cae Garnedd, Bangor sydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 96 oed ar 16eg o fis Gorffennaf. Mr Llywelyn yw'r blaenor hynaf sydd gennym yng Nghapel y Rhos. Er nad yw'n gallu mynychu'r oedfaon bellach, mae'n dal i gadw cysylltiad agos ac mae ganddo ddiddordeb mawr yng ngweithgareddau'r capel.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau am ben-blwydd hapus arbennig iawn yn 80 oed i Islwyn Roberts, 56 Glanffynnon sydd yn dathlu ar 19eg o fis Awst. Mwynhewch y dathliadau ar eich diwrnod arbennig yng nghwmni eich teulu a ffrindiau.

**Priodas Aur**
Llongyfarchiadau mawr i Doug ag Avril Jones, 14 Stad Minffordd, ar ddathlu eu Priodas Aur ar y 29ain o Orffennaf. Mwynhewch y dathlu efo'r teulu.

**Swydd newydd**
Llongyfarchiadau mawr i Ceri Williams, Stad Minffordd ar ei phenodiad i Reolwr Cyffredinol Castell Penrhyn, sydd o dan reolaeth Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Pob dymuniad da yn dy sialens fawr a diddorol.

**Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, 2023**
**Taith Gerdded**
Ar y 3ydd o Orffennaf, cynhaliwyd taith gerdded dan ofal Gareth Roberts er budd Cronfa Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023. Yn yr heulwen braf ar brynhawn Sul, cafwyd taith ddifyr o gae chwarae Glanmoelyn at Eglwys Sant Mihangel y plwyf. Clywyd hanesion diddorol am adeiladau a thirwedd y pentref, ynghyd â hanesion nodedig am rai o feddi mynwent Sant Mihangel. Prynhawn difyr ac addysgiadol dros ben. Diolchwn yn fawr i Gareth am ei amser a'r holl hanesion, ac edrychwn ymlaen at ei gwmni unwaith eto ar daith arall.
Dyma'r digwyddiadau sydd wedi eu trefnu ar gyfer mis Medi a mis Hydref gyda'r elw yn mynd at Gronfa Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, 2023.




## Tîm Achub Mynydd Llanberis

Yn ddiweddar, fe gafodd y tîm rodd ariannol gan ddwy ferch arbennig iawn. Fe gwblhaodd Cecily a Jemima Reeves o ardal Betws-y-Coed yr 83 milltir o Lwybr Llechi Eryri dros gyfnod, gan godi £800 i'r Tîm. Roedd hyn yn gamp arbennig, ond yn fwy fyth gan ystyried mai pedair a saith oed ydi'r ddwy! I lawer sydd wedi cerdded y llwybr hynod ddiddorol hwn, fe wyddoch fod sawl rhan galed iddo, yn arbennig croesi'r Migneint rhwng Tanygrisiau a Chwm Penmachno.

Fe aeth Barry Davies, Cadeirydd a Berwyn Hughes, Trysorydd i Fetws-y-Coed i ddatgan diolch i'r ddwy a chyflwyno tystysgrif iddynt. Cafodd y genethod gyfle i weld un o gerbydau argyfwng y tîm. Yn ôl eu mam, Kate, aeth y ddwy i'r gwely y noson honno yn datgan eu bod am ymuno â'r Tîm rhyw ddiwrnod! Edrychwn ymlaen at estyn croeso iddynt!

**Taith Gerdded ar gyfer pawb o bob oed**
Brynhawn Sul, 4ydd Medi bydd Gareth Roberts yn arwain taith gerdded o gwmpas Cwm–y-Glo gan gychwyn o swyddfa Menter Fachwen am 2 o'r gloch; yn ogystal ag adrodd hanes y ffrwydrad mawr bydd hefyd yn cyfeirio at nifer fawr o hanesion difyr am hynt a helynt trigolion y pentref. Y tâl am ymuno â'r daith fydd £3 y pen gyda phlant o dan 12 oed yn cael ymuno yn ddi-dâl.

**Noson Rhostio Mochyn a Cherddoriaeth**
Ar nos Wener, 7fed Hydref cynhelir noson fawr ym Mhenbont. Cynigir pryd o fwyd blasus a'r prif gynhwysyn fydd mochyn wedi ei rostio ym maes parcio'r dafarn o dan oruchwyliaeth John, y Dyn Cig a bydd arlwy gerddorol wych yn cael ei ddarparu gan y band poblogaidd, Bwncath. Bydd y noson yn cychwyn am 7 o'r gloch a phris y tocynnau fydd £15.

Cofiwch ddarllen tudalen cymunedol Llanrug – Llanrug Ddoe a Heddiw ar Gweplyfr am fwy o hanes digwyddiadau.

**Capel y Rhos**
Ni chynhelir oedfaon yn ystod mis Awst.

Gwasanaethau:
Medi 4 - Parch. Hugh Pritchard
Medi 11 - Oedfa i'w threfnu
Medi 18 - Parch. John Pritchard
Medi 25 - Mr Richard Lloyd Jones

**Diolch**
Dymuna plant a theuluoedd Megan Williams, Bron Eryri, Llanrug ddiolch o galon am yr holl gardiau a phob arwydd o gydymdeimlad ar yr achlysur trist o golli mam, nain a hen nain amhrisiadwy. Diolch hefyd am y rhoddion hael tuag at Feddygfa Llanrug, Capel y Rhos a Ward Prysor. Diolch i gymuned Llanrug am eu caredigrwydd ar hyd y blynyddoedd i Mam. Bu'n hapus iawn yng nghanol cymdogion ardderchog. Cafodd y gofal gorau hefyd gan feddygon a nyrsys y Feddygfa. Diolch i'r Parchedig John Pritchard am ei wasanaeth arbennig ar ddydd yr angladd ac i gwmni E.W. Pritchard, Llanberis am eu trefniadau gofalus.

**Gwellhad buan**
Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mary Roberts, Gwyndy, yn dilyn triniaeth ar ei throed yn ddiweddar. Gobeithio eich bod yn gwella ac rydym yn anfon cofion cynnes atoch.

**Bore Coffi Macmillan**
Cynhelir Bore Coffi Macmillan fore Gwener, 30ain o Fedi rhwng 10:00 a 12:00 yn y Sefydliad Coffa. Bydd stondinau amrywiol a raffl yn ogystal â phaned i bawb. Dewch i gefnogi. Bydd y croeso yn gynnes iawn.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Erin Pritchard ar ennill gwobr Young Miss International Beauty yn Texas, UDA mewn cystadleuaeth Pasiant Harddwch yn ddiweddar. Yn ogystal â chystadlu mewn pasiantau, mae Erin a'i chwaer Efa wedi casglu miloedd o bunnau i elusennau dros y blynyddoedd diwethaf. Cewch ddarllen rhagor am eu hanes yn codi arian i Elusen Ambiwlans Awyr Cymru yn y rhifyn hwn. Yn fwy diweddar, maen nhw wedi cydweithio'n agos gydag elusen Cadwch Curiadau (Keep The Beats), a chasglu digon o arian i fedru cael 11 Defibrillator yng Nghymru. Mae Taid a Nain, sef Dennis a Lorna Pritchard, Fferm Afon Rhos yn hynod falch o'u llwyddiant a'u gwaith da.

Llongyfarchiadau mawr i Boglarka-Tunde Incze o Fro Rhyddallt am gael ei henwi fel un o 500 o bobl ifanc sydd wedi cyrraedd rownd derfynol rhaglen ddatblygu a chystadleuaeth WorldskillsUK. Bwriad y rhaglen yw rhoi hwb i hyder a chynyddu sgiliau. Bydd y cystadleuwyr sy'n creu'r argraff orau yn cynrychioli Prydain mewn 'gemau Olympaidd sgiliau' yn Ffrainc yn 2024. Mae Boglarka-Tunde wedi ei henwebu am ei gwaith yn y maes iechyd a gofal, a phob lwc yn y rownd derfynol fydd i'w chynnal fis Tachwedd.

**Pob lwc**
Dymuniadau gorau i holl ddisgyblion ifanc y pentref sydd wedi eistedd arholiadau TGAU a Lefel A eleni ac sydd yn aros am eu canlyniadau ym mis Awst. Bydd rhai yn gadael cartref am y tro cyntaf ac yn dechrau pennod newydd a chyffrous i ddilyn gyrfa ac astudiaethau pellach. Pob lwc a dymuniadau da i bawb.

**Merched y Wawr Llanrug**
**Codi arian**
Bu bore coffi Olwen a Linda yn hynod o lwyddiannus yn y sefydliad Coffa, er budd targed Llanrug o godi £5,000 tuag at Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd, 2023. Gwnaed elw sylweddol o dros £240 yn enw'r gangen.

Ar 12fed Gorffennaf rhwng 10.00 AM a 4.00 PM estynnwyd croeso cynnes i bawb ymweld â gardd hyfryd Bethanne a mwynhau cwmnïaeth a phaned a chlonc am £3 y pen, er budd cyfraniad y Gangen. Diolchir i bawb yn y pentref a gefnogodd y ddau weithgaredd.

**Colli anwyliaid**
Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Meinir a'r teulu yn eu profedigaeth lem ac annisgwyl o golli Anwen, gwraig, mam, modryb a chwaer amhrisiadwy. Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd at Idwal a Bethanne yn eu galar o golli nith ifanc yn yr Alban.

**Taith Gerdded, Rhanbarth Arfon**
Talwyd sylw i brosiect ein Llywydd Cenedlaethol sef, 'Cerdded, Cerdd a chynefin'. Y bwriad oedd ymweld a mynd am dro i fwynhau golygfeydd ac adnabod ein hardal. O ran cynefin - sylwi a nodi enwau'r blodau a'r adar o fewn ein cynefinoedd. Yna ymuno i gael paned a chymdeithasu. Ar brynhawn dydd Mawrth, 5ed Gorffennaf gwireddwyd yr apêl. Cyfarfu nifer dda o aelodau canghennau'r Rhanbarth am 1.00 PM yn 'Y Glyn' Llanberis, gyda'r glaw wedi cilio a'r haul yn tywynnu. Cafwyd anerchiad gan Glenda Parry, Llywydd y Rhanbarth ac yn ôl cân Hogia'r Wyddfa,

'Mae'n nefoedd bois o dan y sêr
Yn hen bentref bach Llanbêr…'

gyda'r Wyddfa a'i chriw yn y cefndir, Cleddyf y Tywysogion i'n hatgoffa o Dywysogion Gwynedd a Chastell Dolbadarn,

'Fu unwaith yn hardd
Yn gartref tywysog, telynor a bardd…'

Roedd Ysbyty'r Chwarel yn atgoffa pawb am ddycnwch y chwarelwyr yn hollti llechen las yn Chwarel Dinorwig a phawb yn cofio am gerdd W. J. Gruffydd 'Cerdd yr hen Chwarelwr'. Ond, 'Segur fydd y cŷn a'r morthwyl mwy…'

Heibio i'r 'Lagŵn' a sylwi ar yr elyrch, gwyddau, hwyaid a'r bilidowcars. Ymlaen am y twnnel gan sylwi ar y blodau amryliw gyda'u 'gwyllt atgofus bersawr', yn y perthi a'r cloddiau. Croesi'r ffordd brysur a chyrraedd y llwybr troed tuag at 'Craig yr Undeb'. Stelcian ennyd wrth y Gofeb, a godwyd i ddathlu 100 mlwyddiant Undeb Chwarelwyr Cymru ar 20fed Ebrill 1874 - 1974. Roedd y llecyn tawel hwn wrth lannau Llyn Padarn yn ganolbwynt i ymgyrch chwarelwyr Dyffryn Peris am lais a thecwch yn y chwarel, o ganlyniad i gyfarfodydd Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru. Yma y bu i ewythr i Ann Ifans, Cangen Llanrug, (brawd ei thad) ac ewythr i Iona Jones, Cangen Rhiwlas, Owen Jones, Tŷ Capel, Rhiwlas yn annerch yn danllyd ar y Graig Safadwy, dros iawnder i'w gyd-weithwyr. Bu farw Yncl Now yn 55 oed oherwydd llwch y llechen las. Fel teyrnged o ddiolch iddo, talwyd am ei garreg fedd ym Mynwent Pentir gan geiniog prin ei gydweithwyr, ac mae englyn gan Glan Rhyddallt wedi'i ysgythru ar y gofadail.

Ymlaen â'r daith nes cyrraedd mangre hyfrytaf ein gwlad sef Pen llyn, gyda'r olygfa anhygoel o'r llyn a'r Wyddfa a'i chriw. Ar wal y bont mae cerdd 'Creiriau' gan Iwan Llwyd wedi ei ysgythru:

'a thra bo iaith a thra bydd
'na rew daw bywyd newydd
i'r Wyddfa ar derfyn dydd.'

Cyrraedd adeilad emosiynol llawn atgofion i rai o'r aelodau a fu'n gyn-ddisgyblion yn yr hen Ysgol Brynrefail ac sydd yn le bwyta erbyn hyn, sef - 'Caban'. Cofio fod R. Williams Parry, wedi bod yn athro yma am rai blynyddoedd a sylwi fod Fferm Llwyncoed, Cwm y Glo wrth ymyl y man lle clywodd y Prifardd,

'Tw, whit, tw hw!' y tylluanod.

A dyma wireddu'r apêl, wedi gweld rhyfeddodau hanesyddol ein bro, wedi sylwi ar y blodau a'r adar ac wedi gwerthfawrogi cerddi ein beirdd a'n prifeirdd.

Gorffen gyda phaned a chlonc gyda ffrindiau Canghennau Rhanbarth Arfon. Diolch am gael cerdded, ail gofio ein llên a chyfle i werthfawrogi ein Bro anhygoel.

'Duw a'n gwaredo
Ni allwn ddianc rhag hon.'

**Clwb Clychau'r Grug**
Cyfarfu'r genod ar bnawn dydd Mawrth 5ed Gorffennaf yn Ngharafan Moethus Heulwen ac Emyr ym Mae Colwyn am 2.00yp.

Rydym oll wedi'n bendithio a golygfeydd hardd Eryri, ond roedd golygfeydd Dyffryn Conwy'r un mor odidog. Dymunir diolch i Heulwen am y croeso arbennig ac am y wledd amheuthun a phawb wedi dotio at y deisen, 'Croeso i Gôr Clychau'r Grug'.

Byddwn yn cyfarfod yn 'Innings', Llandygai ar 10fed Awst, am 12.15 yp.

# Ymgynghori ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd

Oes gennych chi farn ar lwybrau cyhoeddus y sir? Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i glywed barn pobl y sir a mudiadau ar yr hyn sy'n bwysig i chi. Ydi'r llwybrau a'r hawliau tramwy presennol yn addas ar gyfer cerddwyr, pobl gydag amhariad symudedd, beicwyr a marchogwyr ceffylau?

Meddai'r Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Amgylchedd Cyngor Gwynedd:

"Mae'r Cyngor yn gyfrifol am rwydwaith hawliau tramwy'r sir, sydd tua 2,360 milltir (3,800km) o hyd, yn ogystal â llwybrau poblogaidd fel y Lonydd Glas.

"Mae'r rhwydwaith yma yn galluogi mynediad i gefn gwlad, i'r arfordir a mannau gwyrdd trefol ac rydym wedi gweld pa mor bwysig yw ein llwybrau i lesiant pobl yn ystod cyfnod COVID-19. Yn ogystal â hyn, mae'r rhwydwaith hefyd yn adnodd sy'n cael defnydd helaeth gan ymwelwyr i'r ardal ac yn galluogi teithio di-draffig - er enghraifft i'r ysgol neu waith.

"Mae drafft o Gynllun Gwella Hawliau Tramwy wedi ei baratoi sy'n gosod cyfeiriad ac amcanion fydd yn cael eu defnyddio i flaenoriaethu adnoddau ac i lunio rhaglenni gwaith am gyfnodau o hyd at dair blynedd ar y tro.

"Rydan ni yn awyddus i glywed barn y cyhoedd am y cynllun drafft yma er mwyn cytuno ar flaenoriaethau clir ar gyfer gwella hawliau tramwy yng Ngwynedd dros y blynyddoedd nesaf.

"Rwyf felly'n annog unigolion a chynrychiolwyr mudiadau i gynnig sylwadau ar y ddogfen drafft drwy'r lenwi'r holiadur Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Bydd yr adborth yn cael ei ddefnyddio i baratoi'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd terfynol a fydd yn weithredol hyd at 2028/29."

Mae copi o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a'r holiadur sy'n cyd-fynd ar gael:

- ar-lein drwy ymweld â: www.gwynedd.llyw.cymru/CynllunHawliauTramwy
- neu mae copïau papur ar gael o'r llyfrgell neu Siop Gwynedd lleol.
- Gallwch hefyd ffonio Galw Gwynedd ar 01766 771 000 i ofyn am gopi papur o'r Cynllun a'r holiadur drwy'r post.

Bydd yr ymgynghoriad ar agor tan 12 Medi 2022.

# Dwy chwaer o Lanrug yn codi dros £200 i'r elusen a wnaeth achub bywyd eu cyfnither

Yn rhifyn mis Gorffennaf yr Eco fe gawsom hanes Elain o Lanrug yn codi arian i elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Mae yna ddaioni yn yr awyr mae'n rhaid oherwydd mae yna ddwy ferch arall o'r pentref wedi bod yn codi arian i'r un elusen.

Mae'r chwiorydd Erin ac Efa Pritchard wedi codi £246 i Ambiwlans Awyr Cymru ar ôl i feddygon yr Elusen achub bywyd eu cyfnither Cara Owen.

Yn ystod noson gornest crefft ymladd, aeth y ddwy chwaer o amgylch y gynulleidfa â bwced casglu am bedair awr yn siarad â phobl ac yn gofyn iddynt gyfrannu at y gwasanaeth achub bywyd 24/7.

Ym mis Medi 2019, dioddefodd Cara, sy'n gic-focsiwr o Gaernarfon, hematoma darostyngol acíwt (clot gwaed ar yr ymennydd sy'n bygwth bywyd) ar ôl ennill gornest gic-focsio amatur. Goroesodd yn dilyn gofal brys gan feddygon yr Elusen Tracy Phipps ac Ian Thomas, ac yn ddiweddarach, gosodwyd plât metel yn ei phen.

Mae Erin, 15 ac Efa, 13 yn hen gyfarwydd â chodi arian i wahanol elusennau. Bu'r chwiorydd yn cymryd rhan mewn amrywiol basiantau ledled y DU ers saith mlynedd ac mae eu gwaith fel rhan o hynny yn cynnwys codi arian.

Yn ystod y cyfyngiadau Covid-19 yn 2020, cymerodd y merched ran mewn taith gerdded rithwir i fyny'r Wyddfa, a drefnwyd gan ddosbarthiadau ffitrwydd Habit, a helpodd i godi swm o ryw £2,500 i Ambiwlans Awyr Cymru.

Dywedodd Gemma, eu mam falch: "Roedd angen help brys Ambiwlans Awyr Cymru ar eu cyfnither mewn digwyddiad bocsio tebyg ac achubodd y meddygon ei bywyd. Roedd y merched am ddangos eu gwerthfawrogiad i'r elusen.

"Rwy'n falch iawn o'r holl waith elusennol maen nhw wedi'i wneud, sydd wedi codi dros £55,000", meddai.




# Mabolgampau Cynllun Efe

Cynhaliwyd noson Mabolgampau Cynllun Efe ar Gae Ysgol Gynradd Llanrug nos Lun, Gorffennaf 11. Oherwydd y Pandemig, ni fu modd cynnal y Mabolgampau'r llynedd na'r flwyddyn flaenorol. Bu raid aros yn hir am y noson hon felly o gofio mai ym mis Gorffennaf 2019 y cafwyd y Mabolgampau diwethaf.

Roedd yn braf iawn gweld cymaint o blant a'u teuluoedd yno o bentrefi'r ardal ac o Gaernarfon a Bangor. Cafodd y plant, o oed meithrin hyd yr oedran hynaf yn yr ysgol gynradd, hwyl fawr a'r cyfan mewn ysbryd cyfeillgar a chynnes.

Diolch yn fawr iawn i Susan am drefnu'r noson ac i bawb a fu'n ei helpu i sicrhau bod popeth yn hwylus, yn arbennig Llinos, Manon a Trystan.

Cafwyd noson heulog, gynnes ac yr oeddem mor falch o hynny wedi i ni orfod gohirio'r Mabolgampau oherwydd glaw ar y noson a drefnwyd yn wreiddiol.

Oherwydd y Pandemig ni fu modd cynnal llawer o weithgareddau arferol Cynllun Efe yn y capeli a'r eglwysi a'r gymuned dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Ond daliwn i obeithio y daw pethau'n well yn fuan ac y bydd modd ail afael yn rhai o'r gweithgareddau a fu'n rhan o'r gwaith ers blynyddoedd, fel Clybiau Plant, CIC, CICiau a Dyddiau Crefft, Cân a Stori. Ni allwn fod yn sicr pryd y bydd unrhyw un o'r gweithgareddau yn ail gychwyn ond edrychwn ymlaen at allu cydio ynddynt mewn ffordd ddiogel i bawb.

Yn y cyfamser, mae Susan wedi bod yn brysur iawn yn ymweld ag ysgolion cynradd yr ardal, ac mae'n dda dweud ei bod dros y misoedd diwethaf wedi medru ail gychwyn ymweld â phob un ohonynt i gynnal gwasanaethau ac amrywiol gyfarfodydd. Mae Ymddiriedolwyr Cynllun Efe yn eithriadol o ddiolchgar iddi am ei holl waith, ac yn gwerthfawrogi hefyd y croeso a'r drws agored sydd iddi yn yr ysgolion.

# Cymorth Ariannol i Sêr Byd Chwaraeon

Ydych chi'n rhagori mewn chwaraeon neu'n nabod rhywun sy'n anelu'n uchel mewn unrhyw gamp? Os felly efallai y gall "Cofio Robin" fod o gymorth i chi. Elusen ydi 'Cofio Robin' sy'n rhoi cymorth ariannol i unigolion o Wynedd a Chonwy o dan 25 oed sydd wedi gwneud eu marc ym myd chwaraeon ac yn anelu'n uwch.

Mae'r ffenestr i ymgeisio am nawdd ariannol bellach ar agor. Ewch i www.cofiorobin.co.uk i weld mwy am yr elusen a phwy sydd wedi cael nawdd yn y gorffennol ac yno hefyd cewch gopi o'r ffurflen gais. Mae angen i'r ffurflen gais fod wedi ei derbyn gan yr Ymddiriedolaeth erbyn 30ain Medi.

Ers sefydlu'r elusen 'Cofio Robin' 4 blynedd yn ôl mae dros £50,000 wedi ei gyfrannu i hyrwyddo chwaraeon yng Ngwynedd a Chonwy. Mae yn agos i 60 o unigolion wedi eu cefnogi a hynny mewn ystod eang ac amrywiol o chwaraeon: dringo a sgïo, nofio a chodi pwysau, pysgota a marchogaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn hynod falch fod tri sydd wedi cael cyfraniad gan yr elusen, Medi Harris, Catrin Jones ac Osian Dwyfor Jones yn cynrychioli Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad yn Birmingham ddiwedd Gorffennaf. Dymunwn y gorau iddynt.

**Diwrnod Golff – 24ain Medi 2022**

Ar y 24ain o Fedi bydd Ymddiriedolaeth Cofio Robin yn trefnu diwrnod golff yng Nghlwb Golff Abersoch i chwyddo coffrau'r gronfa, ac i gofio am Robin a fu farw 7 mlynedd yn ôl yn dilyn damwain.

Am fwy o wybodaeth ewch i www.cofiorobin.co.uk/golff. Os hoffech fod yn rhan o'r diwrnod yna cysylltwch gydag Alan y Pro yng Nghlwb Golff Abersoch ar 01758 712 622 neu gyda Gareth ar gevans50@btopenworld.com.

Mae gwobrau i unigolion a thimau o dri.

YMDDIRIEDOLAETH COFIO Robin

# Dyddiadur y gath ddŵad/Bobliadur - Rhan 6

Dyma hanes cath fawr goch a ddaeth, ychydig dros flwyddyn yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond doedd ei fywyd hyd hynny ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

Oeddech chi'n gwybod bod cathod fel arfer yn cysgu am 15 awr ar gyfartaledd y dydd? Felly os meddyliwch am y peth o ddifrif mae cathod yn treulio tua 70% o'u bywydau yn cysgu. Siŵr bod hi'n braf bod yn gath. Un o fy hoff synau yw pan mae cath yn canu grwndi. Yn aml mae cathod yn canu grwndi pan maent yn hapus ac yn cael sylw a mwythau ganddoch chi. Mae'n sŵn sy'n eich cysuro chi a nhw. Nid dyna'r unig reswm pam maent yn cynhyrchu'r sŵn yma chwaith; gall ddigwydd pan maent yn ofnus, yn teimlo'n sâl neu mewn poen fel ffordd o roi cysur iddyn nhw eu hunain. Mae cathod hefyd yn gallu canu grwndi i gysuro eu rhai bach. Mae grwndi'r gath yn dechrau yn ei ymennydd. Wedyn mae'n anfon neges i'r cyhyrau yn ei focs llais, sy'n dirdynnu a gwneud i dannau'r llais wahanu wrth i'r gath anadlu i mewn ac allan - ac felly creu'r sŵn cyfarwydd a chyfareddol o ganu grwndi.

Dyma Bob felly yn cario mlaen efo'i stori ar ôl cael dod allan o'r cwt a mentro mewn i'r tŷ:

"Dwi'n synhwyro cynhesrwydd yn yr ystafell nad ydw i wedi mentro i mewn iddi eto. Mae yna focs sgwâr du heb fod yn bell o'r drws a gwydr ar ei blaen a golau coch i'w weld drwy'r gwydr. Brensiach y bratiau o fanno mae'r cynhesrwydd yn dod. Mae gen i frith gof o rywbeth oedd cyn perchennog yn ei alw'n dân ond doedd dim gwydr o flaen hwnnw ac weithiau roedd mŵg taro yn dod i lawr y simdde ac mi fyddwn i a mam yn gwybod am gadw digon pell tra roedd y deu-droed yn bytheirio a dal papur newydd o'i flaen. Dangosodd mam ddarn o'i ffwr i mi oedd heb flew, roedd rywbeth wedi neidio allan o'r tân a'i llosgi a thyfodd y blew ddim byth wedyn. Rhyfedd fel mae rhai atgofion yn aros efo chi…

Ond allith ddim byd ddod drwy'r gwydr yma, a dwi'n mentro at y bocs du, dim rhy agos chwaith, dydw i ddim isio llosgi fy nhrwyn bach smwt. O dan fy mhawennau mae mat trwchus, oooo braf, lot gwell na llawr oer concrid y cwt. Dwi'n mentro eistedd, mae hi y ddeu-droed fenywaidd yn eistedd wrth y bwrdd ac mae o, yr un mawr, yn eistedd ar gadair fawr. Mae gen i brin gof o gyn-berchennog deu-droed yn ei galw'n soffa. Mae ias yn mynd i lawr fy nghefn, dwi hefyd yn cofio cael swadan efo papur newydd wedi ei rolio am feiddio rhoi ewinedd yn y defnydd meddal… Gadwai'n glir o fano am dipyn, arhosai ar y llawr moethus yma.

Mae mhen i'n dechrau mynd yn drwm. Dwi'n ista am funud ac er mwyn cadw'n effro yn 'molchi. Mae pob cath dda yn cadw ei hun yn lân. Byddai mam yn fy molchi pan oeddwn i'n fychan ond dwi'n ddigon tebol o folchi fy hun erbyn hyn, er bod fy mol weithiau'n gwneud hi'n anodd i mi gyrraedd pob darn o fy nghorff. O mam bach! Heb drio wedi dechrau canu grwndi! Fedra'i ddim peidio, mae hi mor braf yma, cynnes a dim lleisiau uchel, dim drysau'n clepian. Neb na dim i godi ofn arna i. Dim byd ond tawelwch,



cynhesrwydd ac am y tro cyntaf ers tro, dwi'n teimlo'n hapus, yn ddiogel. Efallai wnawn nhw adael i mi aros yma am dipyn…. Heb sylweddoli dwi wedi cysgu'n braf.

Pan dwi'n deffro mae'r ddeu-droed fechan yn dal tun bwyd o fy mlaen ac fel ffŵl dwi'n cael fy hudo nôl i'r cwt. Mae hi'n aros efo fi am sbel, cyn diffodd yr haul a fy ngadael i unwaith eto yn y cwt oer, ar fy mhen fy hun. Mae'r gwynt yn codi ac yn hyrddio yn erbyn y waliau a'r ffenest. Dwi'm yn meddwl mod i wedi gneud dim byd o'i le. Gobeithio ga'i fynd yn ôl i'r tŷ a'r bocs tân eto yfory. Tan hynny mi a'i i fy ngwely bach clyd.

Nos da pawb. Mae heddiw wedi bod yn ddiwrnod arbennig, rhaid i mi gyfaddef mi ydw i wedi blino erbyn hyn, felly dwi ddim yn meddwl cadwith y gwynt fi'n effro heno.

Ella mai fan'ma ydy fy adra fi rŵan. Gobeithio gai'i aros yma."


SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru



SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Cyfle i Wirfoddoli


Ydych chi'n gallu gwrando ar bobl eraill?

- Gweledigaeth y Samariaid yw lleihau nifer y bobl sy'n marw trwy hunanladdiad, ond rydyn ni'n cynnig cymorth emosiynol i bawb.
- Rydyn ni'n chwilio am ragor o wirfoddolwyr, yn arbennig siaradwyr Cymraeg, i ymuno â'n cangen ym Mharc Menai, Bangor.
- Bydd ein hyfforddiant cyfrwng Cymraeg nesaf yn dechrau ar 17 Medi 2022.

Am ragor o wybodaeth: Ffoniwch 01248 674984 neu e-bostiwch recriwtio@samariaidbangor.org

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru






BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol - Ffoniwch (01248) 361044
D. P. OWENS RHIWLAS



SPAR

Y Storfa, Spar, Llanrug
Sgwâr Llanrug
01286 673108




Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, **Swyddfa Bost**
a chroeso cynnes
Llun - Sadwrn 6:30am - 9pm, Sul 8am - 9am

**Gwellhad**
Anfonir ein dymuniadau gorau i Myfanwy a Dic Parry, Tawelfa, wedi triniaeth yn yr ysbyty. Yr un yw'r dymuniadau da i Dave Patterson a Darren Owen, hwythau wedi bod yn Ysbyty Gwynedd. Cofion anwylaf at Dilys, 7 Llys y Gwynt ac at Mr Munro, 8 Llys y Gwynt, yntau wedi disgyn a chael codwm trwm. Mawr obeithir fod Gwyn, Gwyrfi yn well ar ôl disgyn a thorri ei glun. Brysia wella Elis wedi i ti gael gwared o'r 'tonsiliau'. Hyderir y daw eto haul ar fryn.

**Colli anwyliaid**
Anfonir ein cydymdeimlad dyfnaf at William a Nia Oliver, Gors yn eu profedigaeth o golli tad i William, tad yng nghyfraith hoff a thaid balch i Megan a Cai.

Ein cydymdeimlad llwyraf â Gwen ac Elwyn 6 Llys y Gwynt, yn eu galar o golli brawd a chwaer i Gwen yn ddiweddar.

Ar 21ain Mehefin, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, wedi salwch byr, bu farw Ellen Wyn, merch dyner y diweddar Hughie a Mary Davies, chwaer a chwaer yng nghyfraith annwyl i Ann a Dave Patterson a modryb hoff i Berwyn ac Andrea a hen fodryb garedig i Gruffudd, Esme a Llywelyn.

Rydym yn meddwl amdanoch chithau Betty Roberts a'r teulu yn eich profedigaeth o golli chwaer a modryb hoff.

**Diolch**
Dymuna Ann, Dave, Berwyn ac Andrea ddatgan eu diolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad yn dilyn eu profedigaeth ddiweddar, wedi iddynt golli Ellen, chwaer a modryb annwyl. Diolch hefyd am y rhoddion tuag at Ymchwil Canser Cymru ac Ysbyty Gwynedd.

**Cymro bach newydd**
Llongyfarchiadau a chroeso mawr i Elis Dafydd, ŵyr bach i Wendy a Dave Philips a gor-ŵyr i Shirley.

**Eisteddfod Bentref**
Cynhaliwyd Pwyllgor nos Fawrth, 12fed Gorffennaf am 7.00PM yn y Neuadd Gymuned i drafod cynnal yr Eisteddfod Bentref nesaf. Bydd manylion yn rhifyn nesaf o'r Eco.

**Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023**
Yn dilyn cyfarfod o Bwyllgor yr Eisteddfod Bentref galwyd Cyfarfod Cyhoeddus am 7.30PM yn y Neuadd Gymuned i drafod codi arian tuag at yr Eisteddfod Genedlaethol, gan lwyr obeithio y ceir y gefnogaeth arferol. Bydd rhagor o fanylion yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

**Pen-blwyddi Arbennig**
Pob hwyl ar ddathlu pen-blwydd arbennig i Nia Oliver ar 10fed Orffennaf, gan y teulu i gyd. Pob bendith i Eurgain Haf, hithau hefyd wedi cyrraedd carreg filltir arbennig ar 17eg Gorffennaf. Llawer o gariad gan mam a Dad, Bedwyr a Lisa, Osian, Sara, Gwydion, Leah Rhiannon. Swsus lu gan Ioan, Cian Harri, Lois Rhodd a Cai y Ci.

**Dalier Sylw**
Mae gwir angen Gohebydd i'r pentref. Mae'n ofynnol bellach i gael gwaed newydd a rhywun sy'n deall y dechnoleg fodern i ohebu'n rhwydd. Mae modd wrth gwrs i gyd-weithio.






Tyddyn Teg
Bwyd - Tir - Pobl
LLYSIAU LLEOL FFRES
Ymunwch â'n cynllun llysiau!
Dewch i'n siop!
- Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.
- Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.

Cysylltwch â ni: **07599 813777**
info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: **www.tyddynteg.com**

CEIR CYMRU
Diolch am gefnogaeth ein cwsmeriaid yn Eryri dros 25 mlynedd
Gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com
Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451

ECO'r Wyddfa
Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?
Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu
Hefin Jones
Pantmwyn,
Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com




# Ysgol Penisarwaun

Cafwyd llawer o brysurdeb yn ystod wythnosau olaf y tymor.

**Gwasanaeth canmlwyddiant yr Eglwys**
Bu disgyblion yr ysgol yn canu yn Eglwys Santes Helen yn ddiweddar mewn gwasanaeth i ddathlu canmlwyddiant sefydlu'r Plwyf. Braint oedd cael bod yn rhan o'r achlysur a chael cyfarfod ag Archesgob Cymru. Diolch i'r eglwys am y gwahoddiad.



**Teithiau**
Yn ystod y tymor cafodd disgyblion yr Adran Iau wers rithiol gan Gwenllian o'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis. Roedd y wers wedi ei selio ar bedwerydd Tŷ rhes Bron Haul sydd yn cynrychioli'r cyfnod pryd caeodd y chwarel yn 1969. Cafodd y plant ddysgu am y celfi, dodrefn ac addurniadau a oedd mewn tŷ o'r chwedegau. Roedd pawb wedi mwynhau yn arw.

Aeth disgyblion y Cyfnod Sylfaen ar daith addysgol i'r Sŵ Môr ym Môn. Cawsant ddiwrnod gwerth chweil yno a phawb wedi mwynhau'r hufen ia.



Aeth disgyblion yr Adran Iau ar daith i Pontio i weld cynhyrchiad o'r Sioe Twm Siôn Cati. Sioe gan gwmni'r Arad Goch oedd hon wedi ei chynhyrchu oherwydd bod yr Eisteddfod yn Nhregaron eleni. Roedd pawb wedi mwynhau yn arw a braf cael mynd ar daith i'r theatr eto ar ôl cyfnod mor hir heb gael mynychu theatrau.

Hoffwn ddiolch i Reilffordd Llyn Padarn am y gwahoddiad diweddar i fynd a'r disgyblion ar daith ar y trên a hynny yn rhad ac am ddim. Mae Rheilffordd Llyn Padarn wedi dathlu hanner can mlynedd ers ei sefydlu yn ddiweddar. Dewiswyd diwrnod hyfryd i fynd ar y daith a chafwyd picnic a hufen ia ar lan y llyn. Roedd pawb wedi mwynhau yn arw.

## Sioe Ffasiynau

Gwahoddwyd rhieni i sioe ffasiynau y Cyfnod Sylfaen cyn diwedd y tymor. Roedd y disgyblion wedi bod yn brysur yn creu eitemau i'w gwisgo allan o wahanol ddefnyddiau roeddynt yn ei ailgylchu. Roedd rhai wedi creu ffrogiau o bapur newydd, eraill wedi creu trowsus neu gapiau. Roedd pawb yn edrych yn drwsiadus iawn.



Daeth disgyblion yr Adran Iau i'r ysgol wedi eu gwisgo mewn dillad oedd yn ffasiynol yn y chwedegau. Cafwyd llawer o wisgoedd blodeuog, sgertiau mini a sbectols crwn. Cafwyd llawer iawn o hwyl yn arddangos y gwisgoedd mewn sioe ffasiynau yn y neuadd.







**Pob Hwyl Blwyddyn 6**
Diwedd y tymor bydd chwe disgybl yn ein gadael a throsglwyddo i Ysgol Brynrefail. Hoffwn ddymuno pob llwyddiant iddynt i'r dyfodol a diolch iddynt am eu cyfraniadau i fywyd ysgol Penisarwaun yn ystod eu cyfnod yma.

Bydd yr ysgol yn cau ddydd Gwener, 15fed Gorffennaf ac yn ail agor i ddisgyblion ddydd Llun, 5ed Medi. Dymunwn wyliau haf hapus i bawb ac edrychwn ymlaen at groesawu pawb yn ôl ym mis Medi.

# Ti'n cofio mis Medi 40…30…20…10?

Wyddoch chi fod gwefan *Eco'r Wyddfa* - **www.ecorwyddfa.co.uk** - yn drysorfa o atgofion am yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn ein bro am 46 o flynyddoedd? Os ewch chi i'r adran 'Archif' ar y wefan fe gewch weld yr holl hen rifynnau a nifer fawr o luniau. Ewch i gael cip i weld os yw'ch llun chi yno, pa newyddion gyrhaeddodd y tudalennau blaen neu beth oedd yn digwydd ym mis eich geni!

Er mwyn rhoi blas i chi, dyma ychydig o bytiau o gynnwys *Eco'r Wyddfa* fisoedd Awst a Medi 40, 30, 20 a 10 mlynedd yn ôl…

**Medi 1982**

- Rhifyn 73. Pris yn 20c am 20 tudalen.
- Newyddion y dudalen flaen oedd bod pentref newydd wedi ymddangos ym mro'r Eco, a chynnwrf mawr am y datblygiad hynod. 'Pentra smalio' oedd hwn wrth gwrs, wedi ei adeiladu'n arbennig yn un o dyllau chwarel Y Glyn ger Llanberis fel set ar gyfer ffilm arswyd Hollywood 'The Keep'. Mae'n debyg bod y lle wedi codi dipyn o fraw ar y bobl leol hefyd!



- 500 o bobl leol ac ymwelwyr wedi ymgasglu ar lan Llyn Padarn yn ystod Gŵyl Goffau Hiroshima. Cafwyd bwydydd, cerddoriaeth a dawnsio, yna areithiau er mwyn cofio am yr erchyllterau a ddigwyddodd yn Siapan, a be allasai ddigwydd mewn rhyfel niwclear.
- …a bu 300 yn gorymdeithio i Gastell Dolbadarn i gofio 700 mlynedd ers marwolaeth Llywelyn ein Llyw Olaf.
- Yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe dyfarnwyd y Fedal am waith pensaerniol i bartneriaeth Bowen, Dann a Davies am gynllunio ystad Hafan Elan, Llanrug.
- Cawn adroddiad o Garnifal y Waunfawr - wythnos yn llawn gweithgareddau megis Cymanfa Ganu, mabolgampau, seremoni coroni'r Frenhines Sandra, dawns flodau a dawnsio gwerin, cystadleuaeth gwisg ffansi, gemau giamocs, pêldroed 5 bob ochr, a Swper y Carnifal i orffen yr wythnos.
- Cau Ysgol Fach Brynrefail. Dyma ddyfynu o gerdd ymddangosodd yn yr Eco i gofnodi'r achlysur -


ECO'R WYDDFA
PENTREF NEWYDD YM MRO'R ECO!
COFIO HIROSHIMA AR LAN LLYN PADARN
ORIEL ERYRI YN GALW'R BYD
RHIAN YN LLWYDDO ETO

Wedi saith deg pedwar blwyddyn
Daeth yn amser cloi y drws
Ac ni ddaw, ar ôl y gwyliau
At y ddesg, 'run plentyn tlws.

Fe addysgwyd rhwng ei muriau
Dros dri chant o blant y fro
Ond ym mhentref bach Brynrefail
Mwyach bydd y drws ar glo.

**Medi 1992**

- Rhifyn 182. Pris yn 25c am 20 tudalen.
- 'Gair o Romania' - llythyr olaf Angharad Williams gan ei bod ar fin dychwelyd adra ar ôl treulio 3 mis yn gwirfoddoli mewn cartref plant yn Sibiu.
- Adroddiadau am sawl carnifal a gynhaliwyd dros yr haf - yn Neiniolen a Phenisarwaun, a chafwyd Hwyl yr Haf yn Ninorwig a Sioe Cynnyrch Gardd a Thŷ yng Nghaeathro.
- Gwynfor Owen o Lanrug wedi ei ddewis yn aelod o dîm rhedeg traws gwlad Cymru.
- Bu nifer o bobl ifanc lleol yn llwyddiannus yn Ras yr Wyddfa - Alwyn Jones, Gareth Jones, Rachel Jones, Sera Jones ac Elin Harding a wnaeth yn dda iawn yn y ras o dan 13 oed, ac Alun Vaughan yn gyntaf yn y ras o dan 14 oed gan dorri record y cwrs.


ECO'R WYDDFA
Rhif 182 MEDI 1992 Pris 25c
AR RAS DROS EI WLAD
LLENOR O'R FRO AR Y BRIG . . .
. . . AC UN ARALL MOR AGOS
PWYSIG
'VOSPER' LLANRUG



## Medi 2002

- Rhifyn 292. Pris yn 40c am 24 tudalen.
- Pobl ddiwylliedig bro'r Eco oedd ser yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhyddewi fis Awst 2002. Fe gipiodd ein llenorion a'n beirdd pob un o'r pedair prif wobr: Angharad Price o Fethel yn ennill y Fedal Lenyddiaeth am ei nofel arbennig O!, Tyn y Gorchudd; Eurig Wyn o Waunfawr yn ennill Gwobr Goffa Daniel Owen; Aled Jones Williams (cyn rheithor Llanrug) yn ennill y Goron; Myrddin ap Dafydd (fu'n byw yn yr Hen Efail, Llanrug) yn ennill y Gadair. Bu Lindsey Vaughan Parry o Ddeiniolen hefyd yn fuddugol yng nghystadleuaeth llefaru Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn. Be wna'r Eisteddfod hebddom ni 'dwch?!
- Atgofion Mrs Elizabeth Evans o Drelawnyd o'i phlentyndod yn Waunfawr, yn enwedig hynt a helynt Siop Bryn Pistyll. Cawn hanes cymeriadau diddorol oedd yn gweithio neu'n ymweld â'r siop. Mae'r hen siop bellach wedi ei thrawsnewid ac ar y safle mae Antur Waunfawr erbyn heddiw.


ECO'R WYDDFA

I Angharad

RHIF 292 Medi 2002 PRIS 40c

Llwyddiannau Lu


ECO'r Wyddfa

Rhif: 402 Medi 2012 Pris: 50c

Cyrraedd Y Copa...

Agor Ystafelloedd newid

Enillwyr y Genedlaethol




## Medi 2012

- Rhifyn 402. Pris yn 50c am 24 tudalen.
- Angela Dwyer a Julie Roberts o Fwyty'r Copa yn Llanberis oedd ser rhaglen deledu Kitchen Wars ar Sianel 5. Cystadleuaeth goginio oedd y rhaglen hon, a Marco Pierre White oedd y beirniad. Fe wnaeth Angela a Julie gryn argraff ar y cogydd enwog, ond yn anffodus boddi'n ymyl y lan oedd eu hanes, gan gyrraedd cyn belled â'r rownd gyn-derfynol. Rydym ni ym mro'r Eco yn gwybod yn well wrth gwrs, ac i'r ddwy gael cam..!
- Enillodd y Darans Gwpan Coffa First Hydro drwy guro tîm pêl-droed Sporting Valletri o'r Eidal. Yn dilyn y gêm agorwyd 'stafelloedd newid newydd y clwb yn swyddogol gan Alun Ffred a T John Roberts. Daeth cyn-chwaraewyr y Darans ynghyd â'r tîm presennol, ac fe welwch y criw efo'i gilydd yn y llun.
- Cystadleuaeth pêl-droed Tlws yr Eco ar gyfer timau o dan 9 oed, gyda Llanberis yn curo Bethel yn y ffeinal.



# Croeso mwy Cymraeg i ymwelwyr Sir Conwy

Gwella profiad ymwelwyr â Sir Conwy gan hybu'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yr un pryd yw'r weledigaeth y tu ôl i'r ymdrechion i roi mwy o amlygrwydd i'r Gymraeg yn niwydiant twristiaeth y sir.

Mae prosiect ymchwil a gafodd ei sefydlu i edrych ar ffyrdd o gyflawni amcanion o'r fath wedi lansio ymgynghoriad cynhwysfawr gydag ymwelwyr a busnesau lleol. Ymysg y cwestiynau a ofynnir mae 'beth sydd wedi eich denu i'r ardal ac i ba raddau yr ydych wedi gweld a chlywed y Gymraeg yn ystod eich arhosiad?'.

Mae'r ymgynghorwyr twristiaeth ac amgylchedd Arwel Jones ac Ati a Menter Iaith Conwy wedi cael eu comisiynu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i wneud y gwaith, a gaiff hefyd ei ran-gyllido gan Gronfa Adnewyddu Cymunedau Llywodraeth Prydain.

"Rydym yn falch iawn o'r cyfle i gyfrannu at weledigaeth y Cyngor Sir, Creu Conwy, o ddatblygu model cynaliadwy o dwristiaeth cynaliadwy," meddai Meirion Davies, Prif Weithredwr Menter Iaith Conwy.

"Mae llawer iawn o fusnesau twristiaeth yn y sir eisoes yn gosod esiampl dda yn y defnydd o'r Gymraeg, a byddwn yn edrych ar ffyrdd o rannu a lledaenu arferion da.

"Calonogol iawn hefyd oedd sylwadau a wnaed gan banel o benaethiaid busnesau twristiaeth wrth Aelodau Seneddol yr wythnos ddiwethaf y dylai'r Gymraeg gael ei gweld fel mantais ac nid fel bygythiad."

Mae'r arolwg ar gael i'w llenwi ar wefan a thudalen facebook Menter Iaith Conwy. *https://miconwy.cymru*

HYWEL WILLIAMS
AELOD SENEDDOL ARFON



01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
hywel.williams.mp@parliament.uk

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Senedd San Steffan, o gronfeydd cyhoeddus

# WAUNFAWR

**Gohebydd:** Iola Llewelyn Gruffydd
Teganedd – 01286 650 035
iolallew@hotmail.co.uk

**Llongyfarchiadau** i Eurwyn a Gwenda Griffith, Y Dalar Deg ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd Eiri Huw Gruffydd ar 4ydd Gorffennaf, merch fach i Huw a Megi. Pob hwyl ar y magu!

Llongyfarchiadau hefyd i Angharad a Cory, Bryn Gwyn ar enedigaeth eu mab Osian, brawd bach i Owi. Mae'n siwr bod Carmen wedi gwirioni ar fod yn nain eto!

**Cydymdeimlo**
Bu farw brawd Irene Roberts, Stad Glyn Afon. Rydym yn cydymdeimlo â chi Irene a'r teulu ehangach ar eich colled.

**Symud tŷ**
Dymuniadau gorau i Tomos, Ela ac Elis yn eu cartref newydd, sef Gwel y Foel (un o'r ddau dŷ newydd gyferbyn â'r ysgol). Dwi'n siŵr bod hen edrych ymlaen ar weld taid a nain yn symud i fyw drws nesa pan fydd yn barod.

**Dymuniadau Gorau**
Cofion cynnes at bawb o'r pentrefwyr sydd ddim yn dda neu wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Mae'n dda gweld Bethan Tomos, Tŷ'n Llain yn gallu mynd am dro yn dilyn triniaeth ddiweddar, ac mae Heledd Min y Grug hefyd yn gwella wedi cyfnod yn yr ysbyty. Mae'n siŵr dy fod wedi cael croeso mawr adra gan y plant, Heledd.

**Diolchiadau**
Dymuna Carys, Glenys, Nerys a theulu'r ddiweddar Annie Thomas, gynt o Gilfach, Stad Tŷ Hen, Waunfawr, ddiolch o galon am bob caredigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, mam-yng-nghyfraith, nain, hen-nain, chwaer a chwaer-yng-nghyfraith annwyl.

Diolch i staff Cartref Plas Pengwaith, Llanberis, Ysbyty Gwynedd a Meddygfa Waunfawr am eu gofal caredig. Diolch i'r Parchedig Anna Jane am ei gwasanaeth teimladwy, i Mrs Gwenda Griffith, yr organyddes, Llechan, Tal-y-Bont am y lluniaeth wedi'r angladd a Roberts & Owen, Penygroes am y trefniadau trylwyr, personol a phroffesiynol.

Diolch am y rhoddion hael o £1,120 a gasglwyd ac a rannwyd rhwng Cronfa Plas Pengwaith a Meddygfa Waunfawr.



**Merched y Wawr**
Neis oedd cael ail gydio yn ein cyfarfodydd misol dechrau'r flwyddyn lle cafwyd rhaglen amrywiol - gêm o fingo gyda Bethan Williams, sgwrs am yr Ambiwlans Awyr gydag Alwyn Jones, sleidiau a hanesion difyr yng nghwmni Richard Jones, sesiwn edrych ar ôl ein hunain yn feddylgar yng nghwmni Sali Burns a dathlu Gŵyl Ddewi gyda lluniaeth wedi ei baratoi gan rhai o'r aelodau.

Er mwyn gorffen y tymor aeth rhai o'r aelodau draw i Blas Glyn y Weddw i weld arddangosfa lluniau gan un o'r pentre sef Nesta Eluned. Cafwyd pnawn gwych yn edmygu gwaith yr holl artistiaid oedd yn arddangos eu gwaith.

A sut well i orffen yr ymweliad na the pnawn hyfryd yn y caffi.

Edrych ymlaen at y tymor newydd ym mis Medi.



**Côr y Waun**
Diolch yn fawr i Sioned Harries, Bryn Eithin gynt am anfon llun o Gôr y Waun, dyddiedig tua 1999. Roedd yr aelodau bron i gyd yn byw yma yn Waunfawr. Roedd y Côr yn cynnal nosweithiau amrywiol yn ogystal â chefnogi eisteddfodau bach a chystadlu unwaith yn y Genedlaethol. Dyddiau difyr iawn. Tybed oes rhywun ffansi ail sefydlu rhywbeth tebyg? Hefyd, anfonwn ein dymuniadau gorau atat Sioned.

**...ac yn olaf... 'chydig o hanes Ymweliad Siôr V**
Roedd y brenin Siôr V a'r frenhines Mary ar daith drwy'r gogledd, ac er mwyn hwyluso eu hymweliad, cafodd nifer o ffyrdd yr ardaloedd o gwmpas eu cau, gan gynnwys y ffordd drwy bentref y Waunfawr. Roedd criw o bobl wedi ymgasglu mewn adwy yn aros yn eiddgar i weld y pâr brenhinol yn mynd heibio ac yn eu plith hen gymeriad nad oedd dduwiol nac annuwiol. Oddeutu milltir lawr y ffordd roedd rhyw greadur na wyddai ddim am ymweliad y brenin a'r frenhines wedi mynd i gysgu wrth fôn y clawdd. Pan ddihunodd o'i drwmgwsg, neidiodd ar ei feic a dechreuodd badlo yn hamddenol i gyfeiriad y pentref. Roedd hwn a'i het galed â locsyn pig yn debyg iawn i'r brenin Siôr ac wrth fynd heibio'r criw yn yr adwy, meddai'r hen gymeriad yn eu plith, "Rargian! Y ffasiwn stŵr ar gownt y brenin, a myn diawl beic bach o'dd ganddo fo yn diwadd!"
(Un arall o straeon Gwilym Morris Jones)

Gwaith Coffaol
LLANRUG
Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA
☎ 01286 672898

AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS
DYLAN GRIFFITH
*Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol*
TROS Y WAEN PENISARWAEN
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal
Busnes Teuluol
*Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)*

# Ysgol Waunfawr

**Wythnos awyr agored, iechyd a lles**
Mae'r plant wedi cael modd i fyw gyda'r gweithgareddau wythnos yma gan gynnwys pêl-fasged, *karate*, beicio noddedig a theithiau cerdded. Bu ambell i riant yn rhoi cyflwyniadau amrywiol hefyd gan gynnwys cymorth cyntaf a chelf. Hoffwn ddiolch i bawb a fu'n helpu gyda threfniadau'r wythnos yn enwedig Stephen Jones (Anelu) am ei ofal o'r plant yn ystod y teithiau cerdded.
















**Chwaraeon a champau**
Mae sawl disgybl wedi cael llwyddiant ym myd chwaraeon yn ystod y flwyddyn - yr ydym yn falch iawn ohonynt i gyd. Llongyfarchiadau i'r tîm genethod am wneud yn dda iawn mewn twrnament pêl-rwyd yn ddiweddar hefyd. Daliwch ati!

**Staff**
Gyda thristwch yr ydym yn ffarwelio gyda Mrs Sioned Jones ar ôl 13 mlynedd o wasanaeth i'r ysgol. Mae hi wedi derbyn swydd newydd yn Ysgol Bro Plenydd a bydd tipyn llai o waith teithio iddi ym Mis Medi. Yr ydym yn dymuno'r gorau iddi a'r teulu ifanc - bydd colled fawr i Ysgol Waun.

Yr ydym yn ffarwelio hefyd gyda Mrs Andrea Williams a fuodd yn gymhorthydd yn yr ysgol yn ystod y misoedd diwethaf. Yr ydym yn dymuno yn dda iddi yn ei swydd newydd.

**Corff Llywodraethol**
Diolch yn fawr i Nia Williams a Justine Williams am eu gwasanaeth i Gorff Llywodraethol yr ysgol yn ystod y blynyddoedd diweddar. Dymuniadau gorau i'r dyfodol.

**Profiad gwaith**
Braf oedd croesawu cyn-ddisgyblion yr ysgol ar brofiad gwaith yn ddiweddar: Claire Owen, Emma Clack, Elain Tomlinson, Ellie Gosset a Mali Hickey. Diolch yn fawr i chi gyd a gobeithio eich bod wedi mwynhau.

**Ffarwel a Chroeso**
Pob dymuniad da i'r 12 disgybl fydd yn trosglwyddo i'r Uwchradd mis Medi - mae wedi bod yn fraint bod yn eich cwmni. Pob lwc yn Ysgol Brynrefail.

Bydd yr ysgol yn ailagor i ddisgyblion ar y 5ed o Fedi, 2022. Edrychwn ymlaen at eich croesawu'n ôl!

# Cyngor Cymuned Llanberis

## Cofnodion Cyfarfod mis Mehefin 2022

**1 CROESO:**
Estynnwyd croeso i'r aelodau gan y Cadeirydd gan groesawu hefyd dirprwyaeth o aelodau pwyllgor y cyn garnifal oedd yn Llanberis. Roedd arian yng nghronfa'r carnifal ac roedd y pwyllgor wedi penderfynu ei rannu rhwng nifer o fudiadau lleol, a'r Cyngor hwn yn eu plith. Cyflwynwyd £2,000 tuag at wella goleuadau Nadolig y pentref. Derbyniwyd yr arian gan Llinos Haf Pritchard, y Cadeirydd, a Gwilym Evans, yr Is-gadeirydd. Diolchwyd i'r cyfeillion ar ran y Cyngor gan y Cadeirydd, gan nodi y bydd y cyfraniad hael yma yn gymorth sylweddol tuag at gost y goleuadau newydd. Tynnwyd llun i gofnodi'r digwyddiad.

**2 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:**
*Ward Padarn:* Rhys ap Gwilym, Emlyn Baylis, Gwilym Evans, Heather L Jones, Kevin Morris Jones, Nia Jones, Louise Price, Helen Sharp, Trystan Thomas.
*Ward Peris:* Iola Owen, Llinos Haf Pritchard (Cadeirydd).
*Ymddiheuriadau:* Iwan Harding, Cynghorydd Kim Jones (oherwydd profedigaeth). Mynegwyd cydymdeimlad a KJ oedd wedi colli ei thaid, a NJ a LP a gollodd gyfnither yn ddiweddar.
Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

**3 DATGAN BUDDIANT:**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.


**4 CADARNHAU COFNODION:**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher yr 11eg o Fai, 2022 fel rhai cywir ac fe'i llofnodwyd gan y Cadeirydd. Cynnig ac eilio: RhaG / IO

**5 MATERION YN CODI O'R COFNODION:**
*1. Cysgodfan Bws:*
Adroddwyd bod y Cyngor wedi derbyn arian oddi wrth y cwmni yswiriant am y gysgodfan newydd yn lle'r un a ddifrodwyd ar y Stryd Fawr ger Dolafon.
*2. Llwybrau:*
Awgrymwyd nifer o enwau adeiladwyr waliau er mwyn cael ail bris ar gyfer trwsio Pont y Meibion.
*3. National Grid - Gwaith Ffordd:*
Cafwyd ateb i gais y Cyngor am wybodaeth ynglŷn â'r gwaith ffordd. Eglurwyd fod y trydydd tîm sy'n gweithio ar y ffordd wedi eu rhoi ar waith er mwyn prysuro'r gwaith, ar ôl iddynt gael eu harafu gan greigiau caled eithriadol. Bellach mae'r cwmni o'r farn mai'r flwyddyn nesaf y bydd y gwaith yn gorfodi cau rhan o gae chwarae Ger y Llyn ac nid yr haf eleni. Gan fod y sefyllfa yn newid cymaint, penderfynwyd peidio gofyn i gynrychiolydd o'r cwmni i ddod i gyfarfod y Cyngor am y tro. Yn hytrach gofynnwyd i'r Clerc gadw mewn cysylltiad a chael y cwmni i gysylltu os bydd newid sylweddol yn y patrwm gwaith a fydd yn effeithio ar lif trafnidiaeth ar hyd y ffordd.
*4. Llinellau Melyn a Llainwen Uchaf:*
Adroddodd y Clerc iddo gysylltu eto mewn perthynas â llinellau melyn yn Llainwen uchaf ac iddo gael addewid y byddai swyddog o Gyngor Gwynedd (CG) yn dod allan yn fuan i edrych ar y safle.
*5. Siglen Cae Chwarae Ger y Llyn:*
Cafwyd cadarnhad fod y siglen newydd ar gyfer y cae wedi ei harchebu, ond na fyddai'n ei lle lawer cyn mis Awst. Awgrymwyd ceisio pwyso ar y cwmni i gyflenwi cyn hynny os yn bosib.
• Wrth fynd heibio adroddwyd fod difrod wedi bod i lwyfan y ffrâm ddringo, ond ei fod wedi ei drwsio y diwrnod y cafodd y Clerc wybodaeth amdano gan KJ.
*6. Gosod Mainc:*
Adroddwyd bod y fainc yn y Fynwent wedi ei thrwsio er mwyn ei symud i Fynwent yr Eglwys yn y dyddiau nesaf. Mae'r gwaith hefyd wedi dechrau ar gau'r bwlch rhwng dwy wal lle mae geifr wedi dod i mewn i'r Fynwent.
*7. Defaid:*
Cafodd y Clerc ddeall yn ddiweddar nad oedd y bugail SW am gymryd at y gwaith o hel defaid, ond roedd wedi awgrymu bugail arall a fyddai efallai â diddordeb ac anogwyd y Clerc i gysylltu ag ef.
Hyd yma chafwyd dim ateb i'r cais am gael creu corlan yn Cae'r Ddôl i ddal defaid crwydrol dros dro a materion eraill fel giatiau.

**6 MATERION ERAILL:**
*1. Llinellau Melyn a Diogelwch Plant Ysgol:*
Cafwyd nifer o gwynion am barcio blêr sy'n creu diflastod i drigolion bythynnod Glanrafon, a bod hynny'n aml am fod rhieni'n dod â'u plant yno i groesi'r bont dros Afon Goch i fynd i'r ysgol. Soniwyd fod nifer ohonynt yn anghyfrifol yn gyrru a throi yn ôl yn beryglus ac yn goryrru. Cyhuddiadau go ddifrifol, ond gyda thystiolaeth gadarn gan aelodau.
Wedi trafodaeth soniwyd am y posibilrwydd o linellau melyn i atal parcio a'r posibilrwydd o osod bolard y gallai trigolion eu codi a'u gostwng. Ond yn gyntaf awgrymwyd fod angen ymgyrch i geisio cael rhieni i beidio mynd a cheir i Lôn Tŷ Du, ac i Lôn Capel Coch gan ollwng eu plant ar balmant y Stryd Fawr. Gofynnwyd i'r Clerc anfon gair at Brifathro Ysgol Dolbadarn yn gofyn am ei gydweithrediad a chynigiodd HLJ sydd â phrofiad ym maes trafnidiaeth gynorthwyo i ddechrau ymgyrch i gael rhieni a phlant i newid eu ffordd o ymddwyn yn y lleoliadau dan sylw pe bai'r ysgol yn dymuno. Cael plant i gerdded i'r ysgol mewn ffordd synhwyrol a diogel ddylai fod y nod. Holwyd tybed a fyddai'r Heddwas lleol a diddordeb galw heibio yn achlysurol?
*2. Ci Peryglus:*
Adroddwyd fod ci mawr wedi ei weld yn crwydro'n rhydd o gwmpas cae chwarae Fron-deg a Stryd Warden. Er nad oedd wedi ymosod ar neb roedd yna sôn iddo ladd oen yn ddiweddar. Penderfynwyd anfon gair at Warden cŵn Cyngor Gwynedd ac at Uned Troseddau Cefn Gwlad, Heddlu Gogledd Cymru.






FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
FFRAMIO LLUNIAU
www.fframia.com

GERAINT OWEN
CARPEDI

Cil y Mynydd
Waunfawr
Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill, Bontnewydd
(01286)650552 Symudol - 07712779475
CARPEDI
TEILS
VINYLS
DEWIS MAWR
O BATRYMAU

ECO'r Wyddfa
www.ecorwyddfa.co.uk

*3. Toiledau:*
Oherwydd prinder staff gan CG mae'n amhosibl agor toiledau'r pentref bob yn ail wythnos cyn 8. Dan y drefn arferol byddai'r rhain ar agor am 6.30 ar foreau Sadwrn a Sul. Wedi trafodaeth rhwng KJ y Cynghorydd sirol a'r Clerc penderfynwyd gofyn a oedd aelodau o'r Cyngor yn fodlon gwirfoddoli i agor bob yn ail benwythnos o hyd tan ddiwedd Medi er mwyn sicrhau fod y cyfleusterau ar gael ac er lles iechyd a glanweithdra. Cytunwyd nad oedd hyn yn ddelfrydol, ond cafwyd nifer i wirfoddoli - GE, TT, HLJ, RhaG, KMJ, KJ a DT. Adawodd y Clerc gysylltu â'r adran briodol yn CG efo KJ i drefnu. Yn sgil y drafodaeth uchod codwyd cwestiwn pam nad oedd yna doiledau ym Maes Parcio Gwesty Fictoria, y maes parcio agosaf at Lwybr yr Wyddfa. Addawodd y Clerc ymholi.
*4. Llythyr GH Llanrug:*
Yn unol â phenderfyniad cynharach, cyn yr Etholiad, aethpwyd yn ôl at y llythyr lle'r awgrymwyd y dylai cynghorau cymuned yr ardal (Llanberis, Llanddeiniolen a Llanrug) gydweithio mwy â'i gilydd. Roedd y llythyr yn cymharu'r dyffryn yma a mannau eraill lle'r oedd mentrau neu bartneriaethau wedi eu sefydlu. Penderfynwyd mai da o beth fyddai gweld beth oedd yn bosib ac yn y lle cyntaf cysylltu â chlercod y ddau blwyf arall i weld â wnaethant unrhyw beth yn sgil apêl y llythyr. Bydd y mater ar raglen mis nesa.
*5. Goleuadau Nadolig:*
Yn dilyn derbyn rhodd y cyn bwyllgor carnifal yn gynharach dywedodd y Clerc fod cronfa'r goleuadau Nadolig erbyn hyn wedi cyrraedd £2,945. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd sefydlu pwyllgor i drafod sut i wella a sicrhau goleuadau Nadolig teilwng y Gwyliau nesaf. Yr aelodau fydd: RhaG, EB, KJ, NJ a LP. (Byddai EB hefyd yn cynrychioli'r Grŵp Datblygu).
*6. Enwebu Cynrychiolwyr y Cyngor ar fudiadau allanol:*
Etholwyd fel a ganlyn;
Llywodraethwyr Dolbadarn: Louise Price
Y Ganolfan: Trystan Thomas
Y Grŵp Datblygu: Nia Jones
Pwyllgor Gefeillio Morbegno: Rhys ap Gwilym.

**7 GOHEBIAETH:**
*1. Adroddiad y Cynghorydd Kim Jones:*
Yn absenoldeb anorfod KJ roedd hi wedi paratoi adroddiad byr o weithgarwch y mis diwethaf.
**a) Mynydd Gwefru** - cais cynllunio ar y 13eg, bwriadu siarad yno.
**b) Dolbadarn -** wedi bod mewn cysylltiad cyson â'r Heddlu, Adran Tai ac Eiddo, CG ac eraill mewn perthynas â Dolbadarn yn dilyn nifer o gwynion. Rhai trigolion wedi eu symud oddi yno, gwasanaeth diogelwch o 5.00PM tan y bore ac ymweliadau cyson gan yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân hefyd. Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau am y lleoliad at y Cynghorydd Sir.
**c) Toiledau -** eisoes wedi eu trafod.
**ch) Clwb Ieuenctid -** KJ wedi cyfarfod Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd i drafod y posibilrwydd o sefydlu Clwb Ieuenctid lleol yn Y Ganolfan yn dilyn patrwm tebyg i'r un a sefydlwyd y llynedd yn Llanrug lle cafwyd cyfraniad ariannol gan y Cyngor lleol. Penderfynwyd rhoi'r mater ar raglen cyfarfod mis Gorffennaf. Roedd hefyd wedi bod ynglŷn â nifer o faterion eraill, yn amlwg bu ei mis cyntaf yn un hynod brysur, ac mae ganddi nifer o gyfarfodydd ar y gweill gan gynnwys cyfarfod trigolion mewn 'syrjeri' efo Siân Gwenllian AS yr Aelod lleol o Senedd Cymru. Y dyddiad yw 23ain Gorffennaf am 10.30AM yn Y Ganolfan.

*2. Cyhoeddi'r Eisteddfod Genedlaethol:*
Gwahoddiad i ddau aelod o'r Cyngor i fod yn rhan o'r Orymdaith ar ddiwrnod Seremoni Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023 ym Mhorthmadog. Bydd y Cyhoeddi brynhawn Sadwrn y 25ain o Fehefin. Neb ar gael i dderbyn y gwahoddiad.
*3. Rheilffordd Llyn Padarn yn 50 oed:*
Roedd y dathlu i fod y llynedd, ond oherwydd cyfyngiadau mae'r cwmni'n dathlu eleni ac yn estyn gwahoddiad i aelodau'r Cyngor i fynd am dro ar y trên bach unrhyw ddiwrnod yn ystod mis Mehefin. Mae'r gwahoddiad i aelodau a'u teuluoedd (hyd at 6 person). Dymunwyd yn dda i'r cwmni a diolchwyd i Emlyn Pritchard y Rheolwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwyr am eu haelioni gan ddymuno'n dda i'r cwmni i'r dyfodol. Mae manylion sut i gysylltu i fynd ar y trên ym mis Mehefin wedi ei ddosbarthu i'r aelodau.
Mae'r Amgueddfa hefyd eleni yn dathlu ei phen-blwydd yn hanner cant a hyn i gyd yn atgoffa rhywun fod hanner canrif a mwy bellach ers cau Chwarel Dinorwig a roes fodolaeth i'n cymunedau. Dymuniadau gorau hefyd i'r Amgueddfa.

*4. Trafnidiaeth Unffordd:*
Trwy law KJ daeth e-bost oddi wrth un o fusnesau'r pentref yn holi a ellid ystyried troi'r Stryd Fawr a'r Ffordd Osgoi yn ffyrdd un cyfeiriad er mwyn denu mwy i'r pentref, gwneud teithio'n haws ar y Stryd Fawr a chaniatáu parcio ar y ffordd osgoi. Gan nad oedd rhybudd o'r cynnig ymlaen llaw rhoddwyd ychydig funudau i'w ystyried, ond y teimlad oedd bod y cynllun a fyddai'n cynnwys llif unffordd ar y Ffordd Osgoi yn hollol anymarferol gan gynyddu nifer y cerbydau trwm fyddai'n dod trwy'r pentref. Ar ben hynny doedd hi ddim yn ymarferol o gwbl i feddwl am hyn eleni fel cynllun peilot, hyd yn oed pe bai pawb o'i blaid. Mae gwneud y Stryd Fawr yn unffordd wedi ei ystyried o'r blaen, bryd hynny roedd busnesau yn ei erbyn, efallai y dylid ail edrych ar hynny eto. Addawodd y Clerc ysgrifennu at y busnes.

**9 MATERION ARIANNOL:**
**1) Yn y Banc ar yr 28ain o Fai, 2022**
**Cyfrif Cyfredol**: £38,624.67
**Cyfrif Cadw**: £66.52

**2) Cadarnhawyd y taliadau canlynol:**
**CYFANSWM**: **£939.56**

**3) Arian a dderbyniwyd rhwng 29/04/2022 a 28/05/2022:**
**CYFANSWM**: **£435.00**

**4) Archwiliad Mewnol:**
Adroddwyd i'r Adroddiad Blynyddol gael ei baratoi ar gyfer yr Archwiliad Mewnol a gynhelir gan Adran Archwilio CG.


*5) Adolygu'r Gyllideb:*
Rhannwyd y Gyllideb yn electronig cyn y cyfarfod er mwyn sicrhau fod pawb gan gynnwys yr aelodau newydd yn ymwybodol o'i chynnwys. Edrychwyd arni'n fanwl a gwnaed mân newidiadau.
Cynnig ac eilio'r holl faterion ariannol: TT / RhaG.

**10 Y FYNWENT / LLWYBRAU:**
1) Mewn perthynas â glanhau'r cysgodfannau bws, penderfynwyd y dylid cynyddu'r ffi i EB am lanhau'r cysgodfannau ddwywaith y mis gan ddiolch iddo hefyd am yr holl waith gwirfoddol y mae'n ei wneud yn lleol.

**11 ADRODDIADAU ALLANOL:**
**Mynwent yr Eglwys:**
Mae bwriad i glirio Mynwent yr Eglwys yn fuan a chynnal arolwg o'r planhigion sydd yno.

**12 CYFARFOD NESAF:**
Dyddiad y cyfarfod nesaf. Nos Fercher y 13eg o Orffennaf, 2022 am 7.00PM yn Y Ganolfan.

**Arwyddwyd a chafwyd yn gywir:**
Cadeirydd: Llinos Haf Pritchard
Clerc: Dei Tomos
Dyddiad: 13eg o Orffennaf, 2022








# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## Crynodeb o gofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 7fed Mehefin

**Cyfethol -** Cynigiwyd a chyfetholwyd y cynghorwyr canlynol**:**
Gareth Griffiths, Bethel
Elen George, Brynrefail
Ynyr G Parri, Deiniolen/ Dinorwig
Richard Jones, Deiniolen / Dinorwig
Trwy gyfethol, pleser yw cadarnhau fod pob sedd ar y Cyngor Cymuned yn llawn.

**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 5ed Fai 2022**
Cafwyd y cofnodion yn gywir:
**Materion o'r Cofnodion**
Yr unig fater oedd yn codi oedd ein bod angen ethol a chadarnhau aelodau ar yr Is bwyllgor Llwybrau. Gan fod nifer yn absennol, penderfynwyd symud y mater ymlaen i fis Gorffennaf

**Gohebiaeth a Materion Eraill**
**Cysgodfan Gwaelod Bethel** - Daeth i'n sylw fod rhai o seddi'r gysgodfan wedi cael eu rhwygo gan fandaliaeth ac yn beryglus. Rydym yn ddiolchgar dros ben i Gwyn Hefin am fynd draw i wneud yn sicr fod y gysgodfan yn ddiogel, ac i dynnu'r seddi oedd wedi eu fandaleiddio. Yn anffodus, mae'n amhosib cael rhai 'run fath, a ddim yn sicr os ydym angen cryfhau ochrau'r gysgodfan. Diolch i Ynyr am fynd draw i weld a thynnu ambell lun, a holi beth sy'n bosib i'w wneud.
**Cynllunio**
Derbyniwyd y ceisiadau canlynol:
**C22/0458/18/DT Bryn Seiont, Fachwen,**
Estyniad unllawr - Dim Gwrthwynebiad
**C22/0460/18/DT Bwthyn Penygroes, Penisa'r-waun**
Dymchwel y porth blaen presennol, a chodi porth newydd ac estyniad cefn - Dim gwrthwynebiad
**C22/0517/18/DT Dolwen Llanrug**
Estyniad unllawr a deulawr, ail ddylunio'r gosodiad mewnol a phorth newydd i ystafell wydr presennol.

**Awdit 2021**
O'r diwedd derbyniwyd adroddiad archwilio'r flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2021. Nodwyd nad oedd dim wedi dod i sylw'r archwilydd oedd yn peri pryder yn y datganiad Blynyddol mewn unrhyw ffordd berthnasol. Bydd yr adroddiad a'r ffurflen yn ymddangos ar hysbysfwrdd a gwefan y Cyngor. Mae'r cofnod blynyddol ar gael i'w arolygu gan etholwyr yr ardal drwy wneud cais i'r clerc.

**Awdit Mewnol a Ffurflen Flynyddol 2022**
Cymeradwyid y Ffurflen Flynyddol yn unfrydol o'r flwyddyn a ddaeth i ben ar y 31ain Mawrth 2022. Diolchwyd i'r clerc am ei gwaith, a bydd nawr yn paratoi a gyrru'r gwaith ymlaen i Awdit Cymru archwilio.

**Clwb Ieuenctid Cymunedol**
Llythyr gan Bwyllgor Pentref Deiniolen: Bu i ni dderbyn llythyr a chais i ariannu Gwasanaeth cynnal Clwb Ieuenctid yn y pentref, fel oedd yn cael ei redeg yma cyn Covid -19 gan wirfoddolwyr. Erbyn hyn, mae bosib prynu'r gwasanaeth yma gan Gyngor Gwynedd. Mae'r cynllun wedi bod yn llwyddiannus yn ardaloedd cyfagos megis Bethesda a Llanrug. Cafwyd datganiad o gostau am gynnal y gwasanaeth yn fanwl.
Bu i'r Cynghorydd Sasha Williams nodi ei bod hithau wedi bod yn holi ynglŷn â'r cynllun yma yn dilyn cais gan rieni ym Methel. Mewn gwirionedd, yr un neges oedd hithau ac am yr un cynllun. Fodd bynnag, ni dderbyniwyd cais yn ysgrifenedig.
Bydd y Cyngor yn edrych fwy i mewn i hyn, gan obeithio i weld dau glwb yn y plwyf yn cychwyn yn yr Hydref.

**O Gwmpas y Bwrdd**
Wal o flaen Llys Gwynt, Penisarwaun yn cychwyn gwyro. Y clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd

**Cyngor Cymuned Llanddeiniolen**
Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol gan Fudiadau Gwirfoddol. Ceisiadau i gyrraedd y clerc dim hwyrach na 30ain Medi. Ni fydd ystyried i unrhyw gais os na fydd yn cynnwys Mantolen Ariannol Gyfredol wedi ei ardystio ynghlwm. Ceisiadau i sylw:
Eleri Bean, Bwthyn Isaf, Deiniolen, Gwynedd. LL55 3LS
clerc@cyngorllanddeiniolen.cymru

# Un funud fach ...

## JAMES WEBB

Mae'r cyfan y tu hwn i mi. Dwi ddim am honni fy mod i hyd yn oed yn gwybod beth ddylwn ei weld yn y lluniau. A chan mai ddoe y gwelwyd y lluniau hynny am y tro cyntaf ychydig o gyfle a gefais i ddarllen unrhyw beth am Delesgop Gofod James Webb er mwyn ceisio deall rhagor. Ond mae'n amlwg bod y bobl sy'n deall yn gytûn fod y lluniau a gyhoeddwyd gan NASA yn rhoi golwg newydd i ni ar ryfeddod y gofod a'r sêr a'r galaethau. Yr un peth a ddeallais oedd bod y Telesgop yn ein galluogi i weld rhai sêr fel yr oedden nhw biliynau o flynyddoedd yn ôl. Maen nhw mor bell oddi wrth ein daear ni fel bod eu golau'n cymryd biliynau o flynyddoedd i'n cyrraedd, ac felly wrth eu gweld trwy'r Telesgop, eu gweld fel yr oedden nhw biliynau o flynyddoedd yn ôl yn hytrach nag fel y maen nhw heddiw a wnawn. Erbyn i'w goleuni gyrraedd atom ac i ninnau felly eu gweld mae'n bosibl bod llawer o'r sêr hyn wedi peidio â bod. Os na ddeallais hyn yn iawn, rwy'n ymddiheuro'n llaes i NASA ac i bawb ohonoch sy'n deall y pethau hyn yn well na mi. Meddaf eto, mae'r cyfan y tu hwnt i mi a bod yn onest. Ond y gwir amdani wrth gwrs yw bod y cyfan y tu hwnt i'r gwyddonwyr mwyaf galluog hefyd, a dim ond dechrau deall y mae'r disgleiriaf ohonynt. Mi fyddent hwythau'n sicr yn cydnabod hynny.
Dechrau deall hefyd oedd awdur Salm 19, ond mae'n amlwg ei fod yn gweld cyn gliried ag unrhyw delesgop wrth iddo ganu, 'Y Nefoedd sydd yn datgan gogoniant Duw; a'r ffurfafen sydd yn mynegi gwaith ei ddwylo ef' (Salm 19:1). Deallodd y Salmydd ganrifoedd yn ôl mai'r Duw a addolai ef a greodd ein daear ni a phopeth sy'n bod. I'r Salmydd, gwaith Duw oedd y ffurfafen a'r cyfan oedd ynddi. Mae Cristnogion wedi credu erioed mai'r Arglwydd Dduw yw Creawdwr y cyfan. A daliwn i gredu hynny o hyd. Nid bod hynny'n golygu ein bod yn deall y sut a'r pryd ac ati. Ac mae pob darganfyddiad newydd, yn cynnwys y lluniau a ryddhawyd ddoe, yn ychwanegu at ryfeddod yr hyn a gredwn, bod Duw nid yn unig wedi creu'r cyfan ond ei fod rywsut yn dal y cyfan yng nghledr ei law.
Duw mawr yw ein Duw ni; Duw mwy nag y medrwn ni ei amgyffred. Duw ydyw sy'n gweld popeth a greodd heb gymorth yr un telesgop. Duw sy'n medru dweud, 'Rwyf o'r dechreuad yn mynegi'r diwedd, ac o'r cychwyn yr hyn oedd heb ei wneud' (Eseia 46:10). Mae'r cyfan yn hysbys iddo: y dechrau a'r diwedd. Os yw Telesgop Gofod James Webb yn rhoi golwg i ni ar 'eni' ambell seren, mae'r Duw mawr yn gweld ei dechrau a'i diwedd. Ac nid yn unig y sêr a'r planedau, mae Duw'n gwybod dechrau a diwedd popeth. Ac unwaith eto rwy'n cydnabod fod hyn oll y tu hwnt i mi. Ond mae gwybod fod y cyfan a ddigwydd – fy nechrau a'm diwedd innau hefyd, a'r cyfan sy'n digwydd o'm cwmpas – yn hysbys i'm Harglwydd Dduw yn gysur ac yn obaith ac yn ddiogelwch.
**JOHN PRITCHARD**

# Ar ben arall i'r lein

Gair o ddiolch i'r rhai sydd wedi bod wrthi yn atgyfodi 'rhen draddodiad o ddawnsio am y glaw. Mae rhai wedi bod wrthi am wythnosau fel y cefais glywed, a do fe gafwyd canlyniad i'r holl weithgaredd, sef mi ddechreuodd ei thywallt hi yn ystod Sadwrn 25ain Mehefin, a dweud y gwir mae hi wedi bod wrthi rhyw ben bob dydd wedyn.

Fel y disgwyliwyd, yn dilyn yr holl sychdwr mi oedd y llif cyntaf yn eithriadol o fudur, doedd dim pwrpas mynd allan. Erbyn dydd Mercher (29/6) roedd ysfa'r enwair yn ormod ac am y Finiog yr es, er fy syndod y fi oedd yr unig un yno. Ni fûm yn hir cyn darganfod pam, roedd drewdod mwyaf ofnadwy o gwmpas y lle. Yn amlwg fod rhywbeth mawr o'i le yng ngwaith carthffos Llanrug, sydd wrth gwrs ar lan yr afon yng Nghrawia. Felly lawr yr afon a mi i geisio gweld be oedd yn mynd ymlaen. Gwelais yn union fod yr arllwysiadau oedd yn rhedeg i'r afon yn warthus o fudur. Felly fel dinesydd cyfrifol rhoddais adroddiad o'r digwyddiad yn union i Gyfoeth Naturiol Cymru. Dyma oedd eu hymateb 'fod gan Dŵr Cymru'r hawl yn ystod cyfnodau o dywydd gwlyb i ollwng carthion o'i gweithfeydd trin yn union i'r afonydd, rhag gorlwytho'r system'. Rydym yn gyfarwydd â hyn, ond yn anffodus does dim i weld yn cael ei wneud i oresgyn y broblem. Oes mae un peth syml i'w wneud sef dod a rheolau mwy llym ar adeiladu ac atal dŵr gwyneb allu rhedeg i'r system garthffos. Does dim gobaith mul yn y 'grand national' i beth fel hyn ddigwydd ac mae'n amlwg na dioddef llygredd a drewdod fydd raid.

Mae'n sicr bydd rhai yn dweud fy mod fel tiwn gron yn cyfeirio at faterion fel hyn, ond dal i gyfeirio 'dwi am wneud. Dyma enghraifft o be sy'n mynd ymlaen - data am 2021 gefais ddyddiau yn ôl ar be sy'n digwydd gyda'r gwaith yn Crawia. Cafodd y system orlifo ei defnyddio 120 gwaith yn ystod y flwyddyn ac am gyfanswm o 1,632 o oriau. Rwy'n ei gadael hi yn y fan yna, er mwyn i chwi benderfynu os yw peth fel hyn yn dderbyniol.

Dyna'r bregeth lygredd fisol heibio a chawn droi at y 'sgota. Mae adroddiadau'n dod i law fod nifer dda o wyniaid ac eogiaid i'w gweld yn neidio ar hyd y Fenai ac ym Mae Caernarfon, ond hyd yn hyn does dim gwybodaeth wedi dod i law fod y rhain wedi dechrau rhedeg ein hafonydd, rhaid disgwyl i lefelau ddisgyn rhyw ychydig cyn i'r daliadau ddechrau. Wel gobeithio'n de! Cofiwch tydi be sy'n ymddangos ar y Fenai ddim yn argoeli na physgod y Seiont ydynt o gwbl, gan fod y Fenai fel rhyw brif ffordd i'r pysgod mudol yma gyrraedd afonydd fel y Conwy, Clwyd a'r Ddyfrdwy yn ogystal â rhai o afonydd gogledd orllewinol Lloegr. Bydd gwell syniad o be sy'n mynd ymlaen o gwmpas y lle erbyn rhifyn Medi o'r Eco.

Er bod dim llawer o hwyl arni gyda'r pysgod mudol, mae'r brithyll brown i weld yn gwella o flwyddyn i flwyddyn - dyma ddau ardderchog i John Thomas, Deiniolen ar ddechrau Gorffennaf.



Brithylliaid John

Araf iawn yw'r newyddion yn dod o'r llynnoedd, er bod gryn ddefnydd ar y cychod mae i weld fod y 'sgotwrs llwyddiannus yn gyfrinachol dros ben ar be sy'n dod i'w rhwydi. Rwy'n cael tipyn o sibrydion fod tipyn o dorgoch ar gael, buaswn yn ddiolchgar dros ben i gael unrhyw wybodaeth am be sy'n mynd ymlaen.



Brithyll Goronwy

Tra ar y torgoch 'dwi di bod wrthi dros y blynyddoedd yn casglu gwybodaeth am y pysgodyn hyfryd yma, a'r hen ddull o'u pysgota. Mae tipyn wedi dod i'm ffordd, a diddorol dros ben yw ei didoli, ond rwy'n sicr fod mwy o gwmpas yr hen le yma, fel lluniau neu hen ddogfennau, buaswn y diolchgar dros ben o gael eu gweld.

Mae'n bosib dilyn tipyn o hanes torgochiaid y fro o'r flwyddyn 1778 pan mae Thomas Pennant (Teithiau yng Nghymru) yn cyfeirio at ei helyntion a'r broblem fawr oedd yn ei effeithio ar Peris a Padarn oherwydd llygredd ddaeth yn sgil mwyngloddio copr yn ardal Nant Peris. Mae'r hen le yma wedi bod yn cael ei effeithio efo llygredd ers canrifoedd yn tydi, mae'n syndod mewn difri fod torgoch yma o gwbl.

Yn ogystal â Pennant, mae'n bosib dilyn helyntion y torgoch drwy George Borrow, (Cymru Wyllt) ac Y Parch W. Houghton (Pysgod Dŵr Croyw Prydain) Yn ddiweddarach bu astudiaeth fanwl gan Alister Rodgers, yn y blynyddoedd cyn ac yn ystod adeiladu gorsaf gynhyrchu trydan Dinorwig. Yn ddiweddarach mae cryn wybodaeth wedi ei gasglu gan Norman Closs, sydd yn gyhoeddedig yn y Naturiaethwr (Cylchgrawn Cymdeithas Edward Llwyd 1997) Yn ogystal mae ganddo erthygl ddifyr dros ben dan y pennawd *Pennant, Pysgod a Phenillion: Torgochiaid Llynnoedd Eryri* sydd ar gael ar y we (curioustravelers.ac.uk) Yna mae cryn dipyn o waith wedi ei wneud yn ogystal gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn sgil llygredd Llyn Padarn. Felly cofiwch os oes rhywbeth ar gael i ehangu ein gwybodaeth, yn enwedig hen ddull o 'sgota cyfreithlon neu beidio, mi fuaswn y ddiolchgar dros ben.



Torgochiaid o astudiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru

Rhaid hefyd yw rhannu ein diolchiadau unwaith eto i'r criw sy'n weithgar dros ben yn y ddeorfa, a safon y brithyll sydd yn eu gofal. Mae'r daliadau unwaith eto ar Lyn y Dywarchen yn ardderchog a'r 'sgota yno yw'r seren ym mhortffolio pysgodfaol y gymdeithas. Dyma frithyll brown eithriadol o'r llyn i Goronwy Roberts, Llanrug. Mae'n cael hwyl arni, ond mae yn cwyno fod ganddo ddim padell ddigon mawr oherwydd maint y pysgod sy'n dod i'w rwyd - oes gan rhywun badell o'r maint priodol tybed?

Yndi mai'n gryn gyfrifoldeb rhedeg y ddeorfa, ond yn anffodus mae'r criw yn lleihau, ac yn ddiweddar fe gollwyd un o'r ffyddloniaid sef Tony Roberts (Penbont) Llanrug. Do rwyf wedi cael lawer o hwyl hefo Tony yn enwedig ar ein hanturiaethau i'r Alban i bysgota'r Afon Nith. Mae ein cydymdeimladau gyda Beryl a'r teulu oll.



Ble mae colled mae eto cynnydd, gan ein bod yn croesawu dau newydd i ymuno â'r tîm yn Crawia, sef Carl o Gaernarfon ond yn wreiddiol o Frynrefail a Hefin o Gaeathro. Croeso, a bydd llawer o bleser o hwyl i chwi eich dau yn yr hen le.

A dyma hen lun arall – pwy sy'n cofio'r lle yma? Gwesty'r Newborough, Penllyn. Cefais gopïo hwn o sleid wydr oedd ym mherchenogaeth y diweddar Maurice Jones, Meillionen, Penllyn

***Huw Price Hughes***

# Garddio

## AWST

**Yn yr ardd flodau**

Daliwch ati'n gyson i dorri'r blodau sydd wedi blodeuo ond wedi mynd i edrych yn flêr. Mae sawl rheswm dros hyn. O rwystro'r pys pêr ffurfio codau o hadau byddwch yn sicrhau digon o flodau newydd. Mae'n bechod bod y coesau yn byrhau wrth i'r haf ddirwyn i ben ond mae eu harogl yn parhau i fod yn hyfryd. Bydd torri'r lafant yn ôl hefyd unwaith bydd y blodau wedi dechrau darfod yn ei rwystro rhag tyfu'n rhy heglog ond peidiwch â thorri mewn i'r hen bren.

Cofiwch ddal ati i fwydo'r blodau, yn enwedig yn y basgedi crog a'r potiau os fydd hi'n sych. Hyd yma gormod o law sydd wedi disgyn a llenwi'r soseri o dan y potiau, felly mi fyddai'n eu gwagio bob hyn a hyn (perlysiau gan amlaf gan nad ydyn nhw'n hoffi bod a'u traed yn wlyb) ond dwi'n teimlo bod angen bwyd arnynt wedyn, gan fod y maethynnau yn diflannu efo'r dŵr (fi sy'n meddwl hynny, does gen i ddim tystiolaeth wyddonol).

Bydd bylbiau'n dechrau ymddangos yn y canolfannau garddio ac mewn catalogau papur ac ar-lein. Cyfle i eistedd yn yr haul yn eich gardd (neu yn y tŷ os ydy tywydd Mehefin a dechrau Gorffennaf yn parhau) yn cynllunio beth ac ymhle allwch chi blannu rhagor o fylbiau ym mis Medi. Mi ydw i eisoes wedi archebu *Allium 'Caeruleum',* tiwlip *'China Town'* a *Narcissus 'Geranium'* fydd yn cyrraedd drwy'r post ddiwedd mis Medi. Mwy na thebyg ga'i fy nhemtio ymhellach yn y ganolfan arddio ym mis Medi hefyd. Trefnus am unwaith - ond yn anffodus ni chefais archebu *'chrysanthemum'* roeddwn wedi meddwl ceisio tyfu rhai i'w torri i'r tŷ - yn anffodus ddylwn i fod wedi archebu rhai canol mis Ionawr a Chwefror. Ta waeth mi fyddai'n gwybod yn well erbyn 2023! Dwi'n dysgu rhywbeth newydd pob dydd.

Mae modd casglu hadau aeddfed, eu sychu - gan gofio eu labelu, a'u storio mewn lle sych mewn bag/amlen bapur. Gallwch wedyn godi eich planhigion eich hun o'ch hadau eich hun - ond nid oes modd gwneud hyn efo'r *F1 hybrids*. Cefais beth llwyddiant eleni ond ambell i fethiant hefyd e.e. *astrantia*'n gwrthod yn lân ag egino. Ond dyna ni, allwch chi ddim ennill bob tro a chostiodd o fawr ddim i mi ond ychydig o fawn ac amynedd. Hanner hwyl garddio yw trio pethau gwahanol bob blwyddyn.

**Yn yr ardd lysiau**

Mae angen torri blaen dyfiant eich tomatos yn awr, er mwyn cyfeirio'r egni i'r ffrwyth. Cofiwch ddal ati i gael gwared â'r lladron a dal ati i'w dyfrio'n gyson. Bydd angen rhoi bwyd hylifol i'r pupurau, tsilis a phlanhigion ŵy (aubergines) yn wythnosol hefyd.

Daliwch ati i gynaeafu eich llysiau pan maent yn ifanc a blasus, er mae yna rhai sy'n llwyddo i guddio a thyfu lot rhy fawr bob amser.

Daliwch i ddyfrio ffa Ffrengig a ffa dringo. Tynnwch nhw'n aml rhag iddyn nhw fynd i had a pharhau'r cynhaeaf.

Gallwch rewi perlysiau yn awr i sawru eich prydau bwyd ym misoedd llwm y gaeaf. Malu nhw'n fân a'u cadw mewn bocsys tecawê wedi eu hail-gylchu fydda i, neu gallwch eu storio mewn bagiau plastig - ond cofiwch eu labelu - mae persli, llysiau'r bara (*coriander*) a *basil* yn edrych yn hynod o debyg wedi eu malu'n fân a'u rhewi! Byddaf yn rhewi mintys wedi ei falu'n fân efo mymryn o siwgr ac ychydig o ddŵr berwedig fel ciwbiau rhew, ffordd handi o greu saws mintys, jest ychwanegu ychydig o finag (finag gwin gwyn a balsamic yw fy ffefryn i) ond mae unrhyw fath o finag yn gweithio.

Ym mis Awst gallwch hau hadau basil a llysiau'r bara (*coriander*) mewn potiau i'w rhoi ar y silff ffenestr ym mis Awst, fel arall gallwch brynu rhai mewn archfarchnad/canolfan arddio a'u cadw'n fyw ar silff ffenestr gynnes a heulog - OND peidiwch a gor-ddyfrio.

## MEDI

**Yn yr ardd flodau**

Daliwch ati i fwydo blodau'r ardd yn enwedig y rhai mewn basgedi a photiau a'u dyfrio os yw'n sych.

Dyma'r amser i blannu *hyacinth* ac *amaryllis* ar gyfer y Nadolig - gan gofio eu cadw mewn lle oer a thywyll i ddechrau. Mae fy hyacinths i yn byw ar ben y rhewgell mewn bocs cardfwrdd yn y cwt, sy'n golygu fod gen i obaith o gofio eu dyfrio nhw rŵan ac yn y man.

Plannwch fylbiau o bob math yn eich gardd. Gallwch hefyd eu plannu mewn potyn ar ben ei gilydd - *hyacinth* a chennin pedr yn yr haen waelod ac ychwanegu crocws, *mwWscari, chinodoxa* a ballu ar eu pennau. Plannu dipyn o *bansies* a briallu ar eu pennau a cewch liw dros y gaeaf ac yna sioe o flodau o'r bylbiau wedyn yn y gwanwyn. Mae'r hydref hefyd yn amser da i blannu coed a llwyni, hynny ydy pan gewch chi ychydig o dywydd gwlyb ac ychydig o wres hefyd.

Cofiwch ddal ati i dorri'r blodau sydd wedi gwywo er mwyn annog cnwd o flodau newydd yn eu lle. Peidiwch â thocio popeth - bydd rhai pennau blodau/gweiriau yn addurniadol yn enwedig wedi eu hamlinellu mewn barrug. Bydd yr adar hefyd yn falch iawn o gael bwyd ychwanegol.

**Yn yr ardd lysiau**

Amser prysur o'r flwyddyn - cynaeafu a bwyta, storio, rhewi, piclo, jamio, rhewi, sychu'r holl gynnyrch er mwyn sicrhau llawnder dros fisoedd hirlwm y gaeaf. Mae gen i wastad rywun o ran teulu neu ffrindiau sy'n falch o dderbyn cnydau sy'n ormod i ni'n dau eu bwyta. Mae jam neu bicl hefyd yn anrheg handi erbyn y Nadolig.

Mae'r ffa melyn yn barod i'w bwyta os yw 'llaeth' yn dod allan ohonynt.

Torrwch ddail y tatws ryw 3 wythnos cyn eu codi os oes ôl malltod [blight] arnynt. Peidiwch â'u rhoi yn y domen compost. Gadewch i'r tatws sychu ar wyneb y pridd am ychydig oriau. Storiwch nhw mewn sachau - ond dim ond y tatws iach - ar ôl iddyn nhw sychu'n dda.

Gadewch y pys a ffa yn y ddaear wedi iddyn nhw orffen tyfu. Mae eu gwreiddiau yn rhoi *nitrogen* i'r pridd.

Os ydach chi mewn man oer a gwlyb (fel fi) rhowch berlysiau megis rhosmari, gorthyfail (*chervil*) tarragon a saets yn y tŷ gwydr oer, neu gwt/sied dros fisoedd oer a gwlyb y gaeaf os ydynt mewn potiau.

Hwyrach y bydd angen rhwyd i gadw'r adar oddi ar y bresych.

**Cyffredinol**

Taflwch unrhyw ffrwythau/llysiau sydd wedi pydru.

Dyfriwch y tŷ gwydr yn y bore; mae *botrytis* yn hoffi nosweithiau tamp ac oer. Caewch y drws yn y pnawniau i gadw'r gwres i mewn.

Mae mis Medi yn amser da i hau hadau i greu lawnt a hefyd yn amser da i fwydo lawnt sydd wedi'i hen sefydlu.

**Y tu allan i waliau'r ardd**

Yn ogystal â chnydau o'r ardd, mae digon o fforio/lloffa (foraging) am ffrwythau a llysiau i'w wneud ym misoedd yr hydref. Gallwch gasglu pob math o ffrwythau ar hyd y priffyrdd a'r caeau e.e. mwyar duon, mefus gwyllt, eirin duon bach, afalau surion bach (*crab apples*). Gair i gall, peidiwch â chasglu rhai sy'n rhy isel. Rhag ofn bod ci wedi codi ei goes arnynt, na'n



rhy agos i'r lôn - nwyon gwenwynllyd ceir a llwch. Dwi wrth fy modd yn hel mwyar duon, madarch (gan wneud yn siŵr mod i'n gwybod yn union beth ydynt), cnau, eirin perthi (*slaes*) a beth bynnag arall sydd ar gael, am ddim, i ychwanegu at yr hyn rydw i wedi ei dyfu yn yr ardd. Cofiwch peidiwch â bod yn rhy farus - gadewch ryw ychydig ar ôl i bobl eraill ddaw ar eich ôl ac i fywyd gwyllt.

Fydda i ddim yn hel mwyar yn rhy hwyr yn y flwyddyn gan mai 'mwyar y gwrachod' ydyn nhw - ond does gen i ddim syniad o lle dwi wedi cael y syniad yma. Tybed oes gan rywun arall ofergoelion am y mwyar neu unrhyw blanhigion eraill?



Efallai bod llyfr 'Back to Nature' Chris Packham a Megan McCubbin yn cefnogi fy ofergoeledd i:

" Yn ôl chwedloniaeth mae stori bod Michael, y mwyaf sanctaidd o'r angylion, wedi ymladd, gorchfygu ac alltudio Lwsiffer o'r nefoedd. Disgynnodd Lwsiffer o'r nefoedd a thrawsnewid i'r diafol. Syrthiodd i uffern a glanio ar lwyn mwyar duon ar y 29ain o Fedi. Roedd o mor flin, poerodd ar y mieri a melltithio'r ffrwyth.' Gwrachod neu'r diafol… nail ffordd neu'r llall yn ddiddorol.

Mae'r llyfr hefyd yn nodi, 'Yn y Canol Oesoedd roedd pobl yn plannu llwyni mwyar ar feddau i atal y diafol rhag cael allan a chadw'r meirw i mewn…"

Difyr.

Pa air Cymraeg ydach chi'n ei hoffi am foraging? Fforio ddaeth i'm meddwl i gyntaf ac roedd grŵp gweplyfr Llen Natur yn cadarnhau ei fod yn hen air a bod angen ei ddefnyddio. Ond, mae'r gair hefyd yn cael ei ddefnyddio fel '*exploring*' h.y. crwydro gwledydd anghyfarwydd y byd. Awgrymodd un aelod o'r grŵp y gair lloffa, ac o holi ymhellach mae'n hen air sy'n golygu '*gleaning*' h.y. yr hyn oedd y werin yn ei wneud sef, hel beth oedd yn weddill o rawn ar ôl y prif gynhaeaf. Mae'r gair hefyd yn golygu cynaeafu.

Dwi'n meddwl felly wna'i ddefnyddio'r ddau air. Gewch chithau ddewis drosoch eich hunain. Mae erthygl fer 'Atgofion' yn nodi'r arfer o fforio/lloffa nôl yn y 1950egau ar tud 8.

***Rhosyn Mynydd***

# Llên Natur




## Eira Mehefin

Ar wal pegiau dal dillad gweithwyr chwarel Pen y Garret, Chwarel Dinorwig, mae yna graffito (os mai un 'graffiti' ydi graffito) yn dweud mewn llythrennau breision bod "EIRA AR Y WYDDFA MEHEFIN 13, 1956".

Nid yw eira ym mis Mehefin y tu hwnt i grediniaeth. Cofnododd Les Larsen eira ffres ar y Wyddfa a'r Carneddau ar 3ydd Mehefin tair blynedd ynghynt. Mae Les wrth gwrs yn hen law ar gofnodi'r tywydd – mi fuodd o wrthi ers dechrau'r 1940au, hyd yn ddiweddar (os nad hyd heddiw). Mi fethodd ddwy flynedd o gofnodi yn y 40au am iddo gael ei alw i'r RAF (rhyw fymryn o ryfel oedd yr esgus!). Fysa Les byth yn drysu rhwng cenllysg ac eira.

Ond am y 'graffitydd' (os dyna ydi person sy'n sgwennu graffiti?) ni wyddom ddim. Mae'n debyg mai chwarelwr oedd o, ac iddo weld copa'r Wyddfa yn wyn y diwrnod hwnnw cyn dechrau ar ei waith. A dwi'n meddwl bod y cyfaill yn llygad ei le - mai eira ac nid cenllysg oedd o. Mae cenllysg yn ymffurfio yn wahanol iawn i eira - pelenni o rew yn tarddu'n uchel yn yr uwch-atmosffer lle mae awyrennau yn gwibio, ac yn cyrraedd y ddaear ar unrhyw dir yn ddiwahan – yn fynydd neu'n fôr. Efallai bod ychydig o duedd iddo ddadmar yn gynt ar y tir isel nag ar dir uchel ond nid cwestiwn o darddiad yw hynny.



Mae eira ar y llaw arall yn ffurfio yn nês at y ddaear, yn yr un awyr ag yr ydyn ni'n ei ddefnyddio yn ein bywydau pob dydd.

Ac mae'r awyr hwnnw, fel rydyn ni i gyd yn gwybod, yn teimlo'n oerach ar lethrau'r Wyddfa nag ydi o yn is i lawr yn Llanberis. Dyna pam dwi'n fodlon credu'r chwarelwr, wrth iddo anfarwoli tywydd anhymhorol 13 Mehefin 1956. Yn wahanol i eira, doedd Yr Wyddfa ddim yn fwy tebyg o gael 'sgeintiad o genllysg nag oedd Pen y Garret ei hun.

Dyma hanesyn a llun gan Haf Meredydd, sy'n dangos natur fympwyol cenllysg:

*Sgeintiad o genllysg uwchben Arthog, Dolgellau, ond ddim yn cyrraedd y llethrau uwch.*

"Newydd ddod ar draws y llun yma dynnais i fis Mehefin y llynedd (2011). Mi oedd Margiad a finna di cerdded draw am Lyn Eiddew Mawr ar ddiwrnod hynod o braf, ond tua diwedd y pnawn dyma gythgiam o gymylau bygythiol yn hel tua'r de ac yna fel o'n i'n mynd am Ddolgella be welais i ond cawod o eira/cenllysg di cwympo ar y llethrau uwchben Arthog."

Ond mae yna un broblem fach. Yn ein Tywyddiadur ar y we mi welwch gofnod tywydd pedwerydd cyfaill craff, hwn wedi ei restru ar gyfer yr un diwrnod yn union, nid ar y Wyddfa yn anffodus, ond yn ardal Ysbyty Ifan. Dyma ddywed D O Jones, Tŷ Uchaf am dywydd y 13 Mehefin 1956 yn ei ardal yntau: 'Hel gwartheg, godro. Rowlio gwair cae berth a hadu gwern ganol, torri *valve* y *tube* wrth rowlio dros y coed. Cawodydd o law taranau, cenllysg.'

Yn amlwg roedd yna ryw duedd o genllysg yn y tir y diwrnod hwnnw, ond does dim rhaid i hynny chwalu'n ffydd yn y chwarelwr craff yn chwarel Dinorwig.

**Duncan Brown**

# Chwilota

Erthyglau hanes lleol,
Bro Eco'r Wyddfa.

chwilota.wordpress.com


## Methodist cynnar na chafodd faddeuant

Mae'r gwahanol gyfrolau yn 'Hanes Methodistiaeth Arfon' yn nodi cychwyn achos y Waunfawr yn 1748, a'r achos yn Llanberis yn 1749. Ond does dim sôn o gwbl am Evan Thomas o Lanrug a ddaeth i sylw'r cyhoedd lleol yn 1750, a hynny am nad oedd y Methodistiaid cynnar yn y fro am ei gydnabod. A rhag ofn eich bod yn disgwyl rhyw ddadleniad hanesyddol pwysig am un o frodyr cynnar yr achos Methodistaidd, prysuraf i ddweud mai'r rheswm pam na chaiff unrhyw sylw gan haneswyr crefyddol yw'r ffaith mai llofrudd oedd Evan Thomas.

Daw'r ychydig wybodaeth amdano yng nghofnodion y Sesiwn Fawr, sydd ar gael ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Melinydd ac Iwmon oedd Evan Thomas, rywle ym mhlwyf Llanrug, ond ni nodir enw na lleoliad y felin. Enw ei wraig oedd Rebecca Morgan, a hi oedd y greadures anffodus a lofruddiwyd ganddo. Mae'n ymddangos fod Evan wedi cymryd ffansi tuag at ei forwyn, Catherine Jones a'u bod yn gariadon. Wyddom ni ddim a oedd Rebecca yn ymwybodol o'r garwriaeth, ond mae'n debygol ei bod, ac iddi fynd yn ffrae rhwng y gŵr a'r wraig.

Efallai fod Evan yn un byr ei dymer, ond canlyniad y ffrae oedd iddo daro Rebecca yn ei phen gyda morthwyl crydd (pam roedd morthwyl crydd ym mherchnogaeth melinydd tybed?) a'i lluchio i lyn y felin, ble boddodd. Safodd ei brawf yng Nghaernarfon, ac fe'i cafwyd yn euog o lofruddiaeth. Fe'i dedfrydwyd i farwolaeth, ac fe'i crogwyd ym mis Medi 1750. Mae'n bosib mai ar y Morfa yng Nghaernarfon y digwyddodd hynny, gan mai yno y ceir cofnodion am grogi cyhoeddus yn digwydd. Tybed faint o drigolion yr ardal a aeth i wylio Evan Thomas yn derbyn y gosb eithaf. Ac yntau'n felinydd, byddai'n adnabyddus i liaws o drigolion y fro. Tybed hefyd a oedd Catherine, y forwyn, yno i ffarwelio a'i chariad?

Roedd Methodistiaeth bryd hynny yn newyddbeth yn y cyffiniau, a thystiolaeth ar gael fod rhai o'u dilynwyr yn cael eu herlid. Yn sicr, doedd yr Eglwys Wladol ddim yn edrych yn ffafriol arnynt, ac aelodau o'r eglwys honno fyddai yn gweinyddu'r gyfraith. Does ryfedd fod y disgrifiad a roir o Evan yng nghofnodion y Sesiwn Fawr yn swnio'n ddamniol: *"Prisoner was a Methodist".*



## Atgofion am yr Allt Ddu

Yn dilyn yr erthygl gan Idris Thomas am osod arwydd i nodi mai'r Allt Ddu yw'r enw cywir ar yr ardal yn Ninorwig, daeth y ddau lun uchod i law gan John Alan Roberts, Penygroes (Llanberis gynt). Mae'n sôn am ei atgofion plentyndod yn cael ei gario ar y trên o'r Allt Ddu tuag at Gaban Mills. Ei daid oedd gyrrwr injan y 'Velinheli', sef John Henry Evans, ond cai ei adnabod yn well gan ei gyfoedion fel Jac Ewrop. Mae'r llun cyntaf yn dangos ei daid ar yr injan gerllaw Caban Mills. Newyddiadurwyr o Lundain yw'r ddau arall yn y llun, ac fe'i tynnwyd yn 1953. Mae'r ail lun yn dangos John Evans yn barod i yrru'r injan, gyda Jimmy Pleming yn eistedd ar ochr yr injan.

Cred John Alan Roberts fod Jimmy Pleming wedi marw o ganlyniad i dân yn ei gartref yng Nghwm y Glo. Oes rhywun â mwy o wybodaeth



am injan Caban Mills neu all roi cadarnhad am y tân angeuol yn y Cwm?



## Capeli Cymraeg gogledd Lloegr

Gan Clive James, Caernarfon (Caeathro gynt) y daeth mwy o wybodaeth am rai o gapeli Cymraeg gogledd Lloegr, a diolch iddo am ddatgelu fod cysylltiad arall rhwng y capeli a bro'r "Eco". Y Gymdeithas Genhadol Gartrefol oedd â gofal am y capeli Cymraeg yng ngogledd Lloegr, ac aelod o bwyllgor gweithredol y gymdeithas honno oedd y Parch Robert Parry, sef gweinidog y Capel Mawr, Llanrug.

Yn ei lyfr "Hanes Methodistiaeth Liverpool: Cyfrol II" gan John Hughes Morris, mae holl gapeli Cymraeg gogledd Lloegr yn cael eu rhestru hyd at 1930, sef Millom (1873-1930), Dalton (1874-1927) a Workington (1869-1912) – yn un ofalaeth dan weinidogaeth y Parch R. Parry Jones. Yr unig achosion Cymraeg eraill yn yr ardal oedd Whitehaven – am flwyddyn yn unig rhwng 1894 a 1895, a Barrow (1855-1896). Mae'n ymddangos felly mai Millom oedd Capel Cymraeg olaf yr ardal.

Y blaenoriaid a restrir ar gyfer Millom yw Hugh Jones, J. Woodruff, Evan Jones ac R. Price Jones. Tybed a oedd gan un ohonynt gysylltiad ag Arfon?

Rhestrir y gweinidogion hefyd, sef y Parchedigion Richard Jones (Glan Alaw), David Jones, John Williams, William Evans, J. T. Pritchard, J. W. Jones ac R. Parry Jones.

Gyda diolch i John Alan Roberts a Clive James am ychwanegu at ein gwybodaeth am agweddau gwahanol iawn o hanes sy'n gysylltiedig â'n bro…

… ac os oes unrhyw un â gwybodaeth ychwanegol am yr hen Fethodist a grogwyd ar y Morfa yng Nghaernarfon, rhowch wybod!

Anfonwch unrhyw sylwadau neu ymholiadau am hanes lleol (i'w cynnwys yn rhifyn Hydref) i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon LL55 4BA, ar e-bost dafydd.wthomas@btinternet.com neu codwch y ffôn: 01286 673515.

## COLOFN CHWARAEON

# Llwyddiant i Redwyr Lleol

Bydd Ras yr Wyddfa wedi ei chynnal erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd, ond ar benwythnos anfon newyddion i'r golygyddion, bu ras go wahanol ar y mynydd wrth i griw o redwyr lleol herio'r mynydd dros bedair awr ar hugain. Y bwriad oedd rhedeg uchder Everest o fewn yr amser, gan ddefnyddio system ras gyfnewid dros ddeg cymal, sef 10 x 3,000 troedfedd = uchder Everest. Roedd pob un yn codi arian i'r Elusen Gafael Llaw.

Yn y rasys 'arferol' daeth tair gwobr gyntaf ac un ail wobr yn Ras Moel Siabod – a hynny gan ddau redwr yn unig. Enillodd Gareth Hughes, Llanberis y ras ond roedd hefyd yn gyntaf yn yr oedran dros 40. Yn ail yn y ras roedd Deio Garton Jones o Dan y Coed, a oedd hefyd yn gyntaf yn yr adran dan 23 oed.

Ym Mhencampwriaeth Cymru a gynhelir dan nawdd Cymdeithas Rhedwyr Mynydd Cymru, mae Jenny Heming, Llanberis yn arwain yn adran y merched, a hefyd yn arwain yn adran y merched dros 50 oed. Siawns na cheir dwy wobr gyntaf arall gan un rhedwraig!

Ar y ffordd, Adam Jones, Llanberis oedd enillydd Ras 10k Y Felinheli.

Yn lleol, mae Ras Elidir i'w chynnal cyn y daw rhifyn nesaf yr 'Eco' o'r wasg.

## Gemau'r Gymanwlad

Ar yr 28ain o Orffennaf mi fydd Gemau'r Gymanwlad yn mynd yn ei flaen hyd at yr 8fed o Awst yn Birmingham. Mi fydd 280 o gystadlaethau mewn 20 math gwahanol o chwaraeon. Mae disgwyl i 72 o wledydd y Gymanwlad gystadlu gyda Chymru yn un o'r gwledydd rheiny.

Ers i Gymru gystadlu am y tro cyntaf yn 1930, maent wedi ymddangos ym mhob un o'r Gemau. Eleni felly, mi fydden nhw yn gwneud eu 22ain ymddangosiad yn y Gemau. Bydd tîm o 187 o gystadleuwyr i gyd yn cynnwys 85 dyn a 102 o ferched yn mynd i gynrychioli Cymru. Mi fydd Cymru yn cymryd rhan mewn 15 math gwahanol o chwaraeon gan gynnwys, Athletau, Nofio, Seiclo a.y.b. Yng Ngemau'r Gymanwlad ddiwethaf yn Awstralia yn 2018, fe enillodd Cymru 36 o fedalau. Y gorau iddynt ei gyflawni erioed! Mi fyddent yn edrych i wella hynny eleni. Beth felly am fwrw golwg sydyn ar bwy fydd yn cynrychioli Cymru yn Birmingham.

Mi fydd cyfanswm o 22 o athletwyr yn cystadlu gan gynnwys y paralympydd cyfarwydd Aled Siôn Davies. Mae 11 o'r cystadleuwyr yn cystadlu am y tro cyntaf yn y Gemau. Bydd Olivia Breen, Melissa Courtney-Bryant a Bethan Davies yn chwilio am fedal arian neu aur eleni ar ôl cael medalau efydd yn eu cystadlaethau yn 2018. Hefyd yn rhan o'r tîm mae'r brawd a chwaer Hannah a Joe Brier, gyda Hannah yn cystadlu yn y 200m a Joe yn cystadlu yn y 400m. Ar ôl bod yn rhan o '*Team GB*' yng Ngemau Olympaidd y Gaeaf fel rhan o'r tîm *bobsleigh*, mi fydd Adele Nicoll yn ceisio am lwyddiant yng nghystadleuaeth y *shot put*.

Bydd 9 yn bocsio i Gymru gan gynnwys yr efeilliaid Garan & Ioan Croft. Hefyd yn cystadlu bydd Rosie Eccles a lwyddodd i ennill medal arian yn 2018.

Yn rhan o'r tîm seiclo mae Geraint Thomas ac Owain Doull, dau enw cyfarwydd iawn. Mi fydd 24 yn cystadlu mewn nifer o ddisgyblaethau gwahanol yn y seiclo. Gobeithio yn wir felly fydd Cymru yn gallu gwneud eu marc. Yn eu plith hefyd mae Elinor Barker ac mi fydd hi yn cystadlu yn y Gemau dim ond ychydig o fisoedd ar ôl genedigaeth ei mab Nico.

Fe fydd 13 yn cynrychioli Cymru yn y gymnasteg, gyda 3 yn gwneud gymnasteg rythmig a'r 10 arall yn gwneud gymnasteg artistig. Yn rhan o'r tîm mae Gemma Frizelle a Josh Cook a'r ddau wedi cystadlu eisoes yn 2018. Mae Mali Morgan yn rhan o'r tîm ac mi fydd hi yn gobeithio cyflawni'r un peth llwyddodd ei thad Robert Morgan gyflawni yn y deifio ychydig flynyddoedd yn ôl, sef ennill medal aur.

Mae gan Gymru dau dîm hoci, sef y bechgyn a'r merched gan wneud cyfanswm o 36 person. Roedd y ddau dîm yn cymhwyso i'r Gemau am eu bod ymysg y safleoedd uchaf yn y byd. Bydd y ddau dîm yn gwynebu Lloegr, India, Canada a Ghana. Lewis Prosser, Rupert Shipperely a Luke Hawker yw capteiniaid y dynion tra fydd Beth Bingham, Leah Wilkinson a Sian French yn capteinio'r merched.

Doedd jiwdo ddim yn rhan o'r Gemau diwethaf yn Awstralia felly mae Natalie Powell wedi gorfod disgwyl cryn dipyn o amser i ddargadw ei medal aur ers Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow yn 2014. Gobeithio felly y bydd hi'n gallu dal ei gafael ar y fedal aur eleni. Mi fydd 5 arall yn ymuno â hi yn cynrychioli Cymru yn y jiwdo.

Mae 14 yn cynrychioli Cymru yn y bowlio lawnt a bydd Anwen Button yn cystadlu am y 6ed tro. Yn 2018 fe ennillodd Julie Thomas y fedal efydd. Mi fydd hi yn bendant yn gobeithio mynd cam yn well y tro hyn gyda ei phartner newydd Gordon Llewelyn.

Mae tîm pêl-rwyd Cymru yn 8fed yn y byd ar hyn o bryd ac felly wedi cymhwyso i gystadlu yn y Gemau. Mi fydd carfan o 12 yn chwarae yn erbyn Awstralia, Jamaica, Yr Alban, De Affrica a Barbados gyda Nia Jones a Suzy Drane yn gapteiniaid.

5 fydd yn cystadlu yn y sboncen. Fe ennillodd Tesni Evans fedal efydd yn 2018 ac eleni mae ei brawd, Emyr Evans yn rhan o'r tîm.

Fe fydd 20 yn cystadlu mewn disgyblaethau gwahanol yn y nofio ag Alys Thomas yn rhan o'r 20 yna. Ennillodd Alys y fedal aur yn Awstralia yn 2018. Mi fydd Daniel Jervis yn gobeithio ennill medal aur eleni ar ôl ennill arian ac efydd yn y ddau Gemau diwethaf yn Awstralia a'r Alban i gwblhau yr 'hattrick'.

Aidan Heslop, Ruby Thorne a Lucy Hawkins fydd yn cynrychioli Cymru yn y deifio.

Yn 11 mlwydd oed y tro diwethaf yn 2018 ac yn gystadleuydd ifancaf y Gemau rheiny, mae Anna Hursey yn dychwelyd i chwarae Tennis Bwrdd eleni. Mi fydd 6 arall yn ymuno â hi gan gynnwys Joshua Stacey â oedd wedi ennill medal efydd yn 2018.

Non Stanford oedd capten Tîm Cymru yn y Gemau diwethaf ac mae hi yn dychwelyd eto y tro yma i gystadlu yn y treiathlon. Mi fydd 5 arall yn cystadlu yn y treiathlon i Gymru gan gynnwys Rhys Jones y paralympydd cyntaf erioed i gynrychioli Cymru yn y treiathlon.

Mae 2 ddyn a 5 merch yn cynrychioli Cymru yn y codi pwysau gyda Christie-Marie Williams yn cystadlu yn ei 3ydd Gemau. Fe fydd Amy Salt a Michael Farmer yn gwneud eu hymddangosiadau cyntaf.

Yn olaf, fe fydd Shannon Alex Harry a Curtis Dodge (sydd ag enw addas iawn) yn cystadlu yn y reslo. Derbyniodd Curtis y fedal efydd yn 2018.

Dyna felly pwy fydd yn cynrychioli Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad 2022. Gobeithio yn wir y daw llwyddiant a phob lwc enfawr i bob un ohonynt! C'mon Cymru!

**Mared Rhys Jones**

SIÂN GWENLLIAN
AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON

01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
sian.gwenllian@senedd.cymru
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus

# ChwaraeonECO

## COLOFN CHWARAEON



Efallai bod rhai ohonoch yn sylwi ar y defnydd a wneir o'r Eco gan Glwb Pêl-droed Ieuenctid Bethel. Nid ffafriaeth yw hyn, ond parodrwydd pwyllgor y clwb i ddanfon deunydd ataf yn fisol. Buaswn wrth fy modd yn cynnwys erthygl 'Pêl-droed Ieuenctid Bro'r Eco' yn cynnwys holl dimau'r ardal. Nid y llwyddianau yn unig rwyf yn ceisio eu hadlewyrchu yn ein clybiau lleol, ond y gweithgaredd di-flino sy'n cynnal y clybiau hynny. Mae'r un peth yn wir am ein timau hŷn. Beth am i bob clwb – o unrhyw oed neu gamp – benodi Swyddog y Wasg o ddechrau'r tymor newydd a fy moddi gydag adroddiadau?

**Diwrnod Gwobrwyo CPDIB**

Bore Sul 19eg Mehefin dathlwyd tymor 2021 – 22 y clwb ar gaeau Coed Bolyn. Dechreuwyd y diwrnod gyda gêm rhwng tîm o'n hyfforddwyr a thîm o rieni. Roedd y ddau dîm wedi eu dilladu yn yr hen gitiau gwyn a glas (cit y tîm oedolion noson cipio'r Junior Cup). Ai golygfa ar y gorwel oedd hyn tybed? I gadw trefn pwy well na'r arch-angel Andrew 'Klopp' Williams, Cadeirydd y Clwb. Ar wahân i'r nifer o gemau oedranol a chwaraewyd roedd hefyd weithgareddau wedi eu trefnu o wlychu'r hyfforddwyr, castell bownsio, rasus rhwystrau ayb. Ac yn bwysicach oll, digon o luniaeth blasus wedi ei drefnu ar gyfer pawb. Diolch am y cyfraniadau. Bu yn dymor llwyddianus i'r clwb a sawl tlws cynghreiriol a thwrnament yn dod i Fethel.

Rhan bwysicaf o'r diwrnod oedd Araith y Cadeirydd. Cyfeiriodd fod bellach dros 100 o aelodau wedi eu dosbarthu rhwng 8 tîm oedrannol. Derbyniodd pob aelod dlws i'w gwobrwyo am eu ffyddlondeb i'r clwb. Cyfeiriodd at gyfraniad amhrisiadwy yr hyfforddwyr yn y gwahanol oedranau a'u gwaith caled yn hyfforddi, trefnu gemau a mynychu sawl Twrnament hyd glannau'r Gogledd. Yn wir, am y tro cyntaf, cynhaliwyd Twrnament Bethel dros ddau ddiwrnod, gyda chanmoliaeth o'r trefniadau. Mae hefyd yn ffordd o chwyddo coffrau ariannol y clwb.

Mae gwaith ar y Caban yn mynd yn ei flaen. Apeliodd Andrew am wirfoddolwyr i hyfforddi'r tîm dan 6 (Bl.1 Medi 2022) ar gyfer y tymor nesaf. Os oes diddordeb cysylltwch ag Ysgrifenyddes y Clwb, sef Sasha ar 07810 174160.

I gloi'ri tymor, mae timau o oedrannau dan 6 i dan 14 yn heidio dros Glawdd Offa i Telford ar benwythnos 9/10ed Gorffennaf ar wahoddiad i dwrnament olaf y 'tymor'. Daeth y timau dan 9 a dan 12 oed adref gyda'r prif dlysau i gloi tymor llwyddianus iawn.

## Cyrraedd y Gwreiddiau - Gorau Chwarae Cyd Chwarae?

Wn i ddim os oedd fy erthygl rhan-ddeifiol y mis diwethaf wedi tanio aelodau carfan genedlaethol rygbi Cymru? Edrychwn ymlaen at y gêm dyngedfennol draw yn Ne Affrica. Roedd y perfformiad yn y gêm gyntaf yn well na'r ail ond 'na ni, wnawn ni ddim cwyno. Ar y lefel yma, yr ennill sy'n cyfri.

Yn ail erthygl y gyfres edrychaf ar GYMDEITHAS Pêl-droed Cymru. Y mae cymdeithas yn awgrymu perthynas ar sawl haen. Y mae'n awgrymu hefyd fod unrhyw gymdeithas wâr yn adlewyrchiad o berthynas ar sawl lefel. Mae'r ddadl am deitl y 'gêm genedlaethol' yn fwy tanbaid nag erioed. Y rheswm am hyn yw bod llwyddiannau pêl-droed Cymru yn yr 'oes aur' bresennol yn cyfateb i rygbi Cymru ar y lefel ryngwladol yn y 70au.

Y gair sy'n cysylltu'r ddau gyfnod llewyrchus yw hyfforddi. Bu URC yn flaenllaw yn y maes yma, ac yn yr un modd ym myd y bêl-gron. Rhaid cyfeirio at waith llwyddiannus Osian Roberts. Gwnaeth waith clodwiw ac roedd ei apwyntiad i arwain y carfannau iau yn un allweddol. Bellach trodd agweddau pêl-droed Cymru ar y lefel uchaf yn broffesiynol. Y paratoadau yn gyfoes. Y cyfleusterau yn safonol. Bellach roedd ein prif chwaraewyr yn ymwybodol o bwysigrwydd awyrgylch carfan. Roedd Gareth Bale yn eicon ac yn bresennol yn y mwyafrif o'r carfannau.

Nid pawb oedd yn cytuno â chwarae pob gêm ar faes Dinas Caerdydd. Gobeithio y gwelwn ddatblygu'r Cae Râs i safon ryngwladol, gan ddod yn Stadiwm y Gogledd. Oherwydd y galwad ariannol roedd rhai yn pledio'r achos o chwarae ar Faes y Mileniwm. Profwyd y Gymdeithas yn gywir. Datblygodd stadiwm Dinas Caerdydd yn gaer. Dyma Stadiwm Genedlaethol y bêl-droed bellach. Dyma gartref ysbrydol y Wal Goch. Dyma lwyfan ein hanthem ysbrydoledig 'Yma o Hyd'. Taniwyd rhyw ysbryd cenedlaetholgar yn Ewros 2016, ond am y tro cyntaf llwyddwyd i gynnal y fflam fydd bellach gobeithio yn ein tanio yng ngwres Qatar.

Dyma fan cyrraedd pwysig yn natblygiad y gêm. Y mae ôl Gary Speed, Osian Roberts, Ryan Giggs a Robert Page yma. Yr olyniaeth o gred mewn talent ifanc ysbrydoledig. A thu ôl i'r llenni pwyllgor a'u penderfyniadau nid wedi eu hoelio ar hen ffordd. Daeth Gwyddel, Mr. Mooney i'n llusgo ymlaen a'i weledigaeth o sefydlu llwyfan sefydlog cryf ar lefel gwreiddiau'r gêm – i fechgyn a merched. A welwyd cymaint o ieuenctid yn gwisgo gwahanol farsiandïaeth bêl-droed Cymru erioed?

Yn fy marn i, yn y cyswllt lleol yma mae'r bêl-droed yn elwa bellach. Er yr holl ddadlau, mae'r Gynghrair Genedlaethol – a mewnbwn amhrisiadwy Sgorio – yn ennill ei blwyf, er mai siomedig yw'r torfeydd mewn sawl clwb. Er hynny, mae CPDC wedi rhoddi grantiau da i wella safonau meysydd chwarae. Mae'n hanfodol i glybiau'r Uwch Gynghrair gael mwy o lwyddiant yng nghystadlaethau Ewrop. Mae cael clwb yn adran gynghreiriol un o brif gystadlaethau Ewrop yn mynd i fod yn fan cyrraedd pwysig iawn. Efallai na ddaw hynny nes bydd mwy o'r prif glybiau yn glybiau proffesiynol amser llawn. Mae'r dull o gynghreiriau lleol rwyf yn siŵr yn gam ymlaen. Yma, ym mro'r Eco mae'r torfeydd mewn gemau haen 4 yn galonogol iawn. Fe gymerith rhyw ddau dymor arall i glybiau ddarganfod eu gwir lefel.

Mae lefel hyfforddi wedi gwella'n sylweddol, gyda chyrsiau pwrpasol y Gymdeithas yn rhan allweddol o hynny. Yn yr un modd, datblygiad yr Academïau lleol. Y mae strwythur pendant o ddatblygiad felly, a ffordd o greu llwybr i'r gêm broffesiynol i chwaraewyr ifanc – bechgyn a merched.

Yn olaf, rhaid cyfeirio at waith clodwiw Ian Gwyn Hughes. Gellir dadlau mae ef yw tad, yn sicr symbylydd, y Wal Goch. Y mae'r chwaraewyr bellach yn swyddogol yn cynrychioli CYMRU (er fuasech chi fyth yn gwybod hynny o ddilyn rhai yn y wasg Seisnig). Dyna sydd ar y sgorfwrdd gemau. Ac nid rhyw eco bach ar y gwynt yw'r Gymraeg bellach. Y mae gennym hunaniaeth glir ac amlwg. Er gwaith clodwiw Sgorio, mae gweld eisiau trafod y gêm yng ngholofnau'r wasg Gymreig. Dyna pam dros y blynyddoedd rwyf wedi mynnu trafod ein campau ar lefel genedlaethol yn fy ngholofnau. Gêm a gododd o haen y dosbarth gweithiol yw'r bêl-droed ac iawn felly yw rhoi 'iaith y werin' yn ganolog yn ei gweinyddiaeth a'i chefnogaeth.

Hir y parhaed y datblygiadau positif yma. Buasai llwyddiant yn Qatar yn cynnal y brwdfrydedd, ac yn llenwi mwy ar y coffrau i wireddu prif amcan y Gymdeithas Bêl-droed gyfoes sef datblygiad – ar, ac oddi ar y cae.

ISSN 2516-7235
9 772516 723001 >